




BIP Caerdydd a'r Fro

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2021 - 2022

Diolch i: Rachel Hannah



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Amdanom Ni

Nod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw gofalu am bobl a chadw pobl yn iach. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn amlinellu gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd), yn amlygu rhai o'n cyflawniadau allweddol ac yn dangos sut rydym yn gwrando ar farn ac anghenion ein poblogaeth, gan ddangos sut rydym yn gweithredu i fodloni llawer o'r anghenion hyn yn rhan o'n strategaeth 10 mlynedd. "Strategaeth Lluio ein Llesiant i'r Dyfodol". Mae ein blaenoriaethau, ein hamcanion allweddol a'n cynlluniau wedi'u nodi yn ein cynlluniau chwarterol a'r adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ac yn rhoi trosolwg o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn gwrando ar ein cyhoedd, ein cleifion a'n staff er mwyn cyflawni'r strategaeth.

Beth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn?

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn un o gyfres o ddogfennau sy'n rhoi gwybodaeth am ein sefydliad, y gofal a ddarperir gennym a'r hyn rydym yn ei wneud i gynllunio, cyflawni a gwella gofal iechyd i chi, er mwyn bodloni gofynion newidiol ac wynebu heriau'r dyfodol. Mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad, yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn 2021-2022 a sut y byddwn yn gwella yn y flwyddyn nesaf. Y mae hefyd yn egluro pa mor bwysig yw hi i gydweithio â chi a gwrando arnoch chi i'ch helpu i roi'r gofal gorau posib i chi'ch hun, ac i ddarparu gwasanaethau gwell sy'n bodloni eich anghenion ac wedi'u darparu mor agos atoch chi ag sy'n bosibl.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad ar Berfformiad** sy'n manylu ar ein perfformiad yn erbyn ein targedau a'r camau a gynllunnir i gynnal neu wella ein perfformiad.
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** sy'n manylu ar ein prif ofynion atebolrwydd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn cynnwys ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) sy'n esbonio sut rydym yn rheoli ein hadnoddau a'n risgiau, ac yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu, yr Adroddiad ar Daliadau a Staff, a'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol.
- Ein **Datganiadau Ariannol (Cyfrifon Archwiliedig)** sy'n dangos sut rydym wedi gwario ein harian a bodloni ein hymrwymiaid o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

Dylid darllen yr Adroddiad Blynyddol hwn ochr yn ochr â dogfennau ategol eraill, y cyfeirir atynt drwy we-ddolenni yn y ddogfen hon.



Hygyrchedd

Os oes angen copïau ychwanegol o'r ddogfen hon arnoch, gellir ei lawrlwytho fersiynau Cymraeg a Saesneg o'n gwefan. Fel arall, os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn roi crynodeb ohoni mewn gwahanol ieithoedd, mewn print bras neu Braille. Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Adran Llywodraethu Corfforaethol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
Pencadlys Corfforaethol,
Woodland House,
Heol Maes-y-Coed,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd
CF14 4HH

E-bost: Corporate.Meetingcav@wales.nhs.uk
Gwefan: www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/

Mae fersiwn PDF lawn ar gael ar ein gwefan.


Cysylltu â ni

E-bost: news@wales.nhs.uk

Gwefan: <http://www.cavuhb.nhs.wales/>

Twitter: [@CAV_UHB](https://twitter.com/CAV_UHB)

Facebook: [www.facebook.com/](https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb)
[cardiffandvaleuhb](https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb)



Cynnwys

1. Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	9
2. Proffil o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	11
2.1 Amdanom Ni	12
2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth	12
2.3 Ein Bwrdd	12
2.4 Ein Strwythur	15
2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu	16
2.6 Egwyddorion Rhwymedi	19
2.7 Iechyd Ein Poblogaeth	20
2.8 Ein strategaeth	20
2.9 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)	21
2.10 Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Phartneriaethau	24
Rhan 1 – Adroddiad ar Berfformiad	26
3. Trosolwg o Berfformiad	27
3.1 Effaith COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau	28
3.2 Cynllunio a darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac o safon ar gyfer gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19	29
3.3 Ailddylunio gwasanaethau gofal sylfaenol i ddarparu gofal brys yn ystod cyfnod aciwt COVID-19	30
3.4 Cynllunio a chynnal profion COVID-19 ac imiweiddio rhagddo	31
3.5 Ailddylunio gwasanaethau aciwt i ddarparu gofal COVID-19	35
3.6 Cynllunio a darparu gwasanaethau diogel, effeithiol a safonol ar gyfer gofal heb fod yn COVID-19	36
<i>Gweithredu mesurau rheoli haint i ddarparu gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19</i>	36
3.7 Darparu gwasanaethau hanfodol	37
3.8 Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd drwy gydol y flwyddyn o ran y cyfyngiadau ar gapasiti	41



4. Gweithio i Wella	43
5. Cyflawni mewn Partneriaeth	44
6. Rheolaeth a Llesiant y Gweithlu	46
6.1 Nodi a Hyfforddi Staff i Gyflawni Rolau Newydd	47
6.2 Marwolaethau Staff oherwydd COVID-19	53
6.3 Fforwm Partneriaeth Leol a Grwpiau Eraill i Ymgysylltu â Gweithwyr	53
6.4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	56
6.5 Rheoliadau'r Gymraeg – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018	58
6.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA) 2015	58
7. Llywodraethu Ansawdd a Pherfformiad	61
8. Adroddiad ar Gynaliadwyedd	65
9. Casgliad a Rhagolwg	66
Rhan 2 Adroddiad Atebolrwydd	69
10. Rhan 2a Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	70
10.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr	70
10.1.1 Cyfansoddiad y Bwrdd	70
10.1.2 Aelodau o'r Bwrdd â Phleidlais yn ystod 2021-2022	71
10.1.3 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	71
10.1.4 Datgan Buddiannau	71
10.1.5 Digwyddiadau'n gysylltiedig â data personol	72
10.1.6 Buddion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol	72
10.1.7 Datganiad Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus	72
11. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd	72
12. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon	73
13. Datganiad Llywodraethu Blynyddol	74
13.1 Cwmpas y Cyfrifoldeb	74
13.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd	74
13.3 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)	75



13.4 Rheolau Sefydlog a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo	76
13.5 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau	77
13.6 Llywodraethu Effeithiol yn ystod Pandemig COVID-19	78
13.7 Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod COVID-19	81
13.8 Cyfansoddiad y Bwrdd	82
13.9 Y Pwyllgorau	84
13.10 Grwpiau Cyngori a Chydbwyllgorau	88
13.11 Penodiadau Cyhoeddus	90
13.12 Datganiad Budd y Cyhoedd	90
13.13 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2021-2022	90
13.14 Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol	91
13.15 Y gallu i ymdrin â risg	91
13.16 Rheoli Risg	94
13.17 Rheoli Risg yn ystod COVID-19	97
14. Trefniadau Cynllunio	97
15. Datgeliadau Gorfodol	97
15.1 Safonau Iechyd a Gofal	97
15.2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	98
15.3 Rheoliadau'r Gymraeg - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018	98
15.4 Parodrwydd am Argyfwng	100
15.5 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol	101
15.6 Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Lleihau Carbon	103
15.7 Trefniadau Llywodraethu Ansawdd	103
15.8 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru (CICau)	103
15.9 Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu	103
15.10 Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth	104
15.11 Cynllun Pensiwn y GIG	106
15.12 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU	106
15.13 Adolygiad o Effeithiolrwydd	107



15.14 Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau	108
15.15 Arolwg o Effeithiolrwydd y Pwyllgorau	109
15.16 Trefniadau Uwchgyfeirio a Ymyrryd	109
16. Archwilio Mewnol	109
16.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol	110
16.2 Sicrwydd Cyfyngedig	111
17. Archwiliad Allanol – Archwilio Cymru	113
17.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021	114
17.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig	116
18. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi	117
19. Casgliad	119
Rhan 2b Adroddiad ar Daliadau a Staff	136
20. Rhan 2b Adroddiad ar Daliadau a Staff	137
20.1 Niferoedd Staff	137
20.2 Cyfansoddiad y Staff	137
20.3 Data Absenoldeb Salwch	142
20.4 Polisiâu Staff	143
20.5 Cyflog a Hawliau Pensiwn Uwch Reolwyr 2021-2022	147
20.6 Gwariant ar Ymgynghori	152
20.7 Sicrwydd trethi i rai a benodwyd oddi ar y gyflogres	152
Rhan 2c Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	154
21. Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	155
21.1 Rheoleidd-dra Gwariant	155
21.2 Ffioedd a Thaliadau	162
21.3 Rheoli Arian Cyhoeddus	162
21.4 Rhwymedigaethau Amodol Perthnasol Pell	162
21.5 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	162
21.6 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd	167



Rhan 3 Datganiad Ariannol Archwiliedig (Cyfrifon Blynnyddol) 146**22. Datganiadau Ariannol 147**

Appendices 121

Atodiad 1 - Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022 121

Atodiad 2 – Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022 129

Atodiad 3 – Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru 131



1. Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Diolch am ddarllen adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2021 – 2022.

Mae dros ddwy flynedd bellach ers cychwyn cyfnod clo cyntaf y DU oherwydd pandemig COVID-19 (y pandemig). Newidiodd bywyd dros nos ac roedd angen inni dderbyn ac ymaddasu i realiti newydd a ffyrdd newydd o fyw ac o gyfathrebu ag eraill.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi effeithio ar bawb mewn gwahanol ffyrdd a bu'n rhaid i'r GIG ynghyd â gwasanaethau cyhoeddus eraill ymaddasu'n gyflym i'r newidiadau a'r penderfyniadau a wnaed, fel bod cleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd yn aros yn ddiogel.

Mae'n bwysig cydnabod effaith y pandemig ar gleifion, cymunedau a gweithwyr gofal iechyd fel ei gilydd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, ledled y wlad ac yn fyd-eang, ac er bod y cyfyngiadau wedi'u llacio rydym yn dal heb gael darlun neu ddealltwriaeth lawn o'u heffaith ar iechyd meddwl a llesiant corfforol pobl. Yn enwedig y rhai sydd wedi dioddef am eu bod wedi colli anwyliad, ffrindiau neu gydweithwyr ac sydd wedi dioddef unigrwydd. Wrth inni ymlwybro drwy'r cyfnod adfer a cheisio mynd i'r afael â gofal ac anghenion cleifion sydd wedi ôl-gronni, mae'n bwysig trin y naill a'r llall â charedigrwydd, parch a thrugaredd.

Mae lansiad Cyd-swyddfa Ymchwil Caerdydd, ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd, yn gam sylweddol ymlaen ar gyfer dyfodol prosiectau ymchwil, treialon clinigol a thriniaethau gofal iechyd newydd, gan ei bod yn dod â'r ddau sefydliad ynghyd

i wneud eu gorau er budd cleifion, ein cymunedau a'r boblogaeth ehangach. Mae'n sefydlu Caerdydd yn gadarn fel dinas sy'n weithgar a galluog ym maes ymchwil, ac sy'n denu mwy o fuddsoddiad, treialon ac arloesi.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhan allweddol mewn treialon ymchwil pellach mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd er mwyn gwella'r ymateb i COVID-19, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r brechiad i drin claf sy'n dioddef o COVID-19, yr achos tybiedig cyntaf o ddefnyddio'r brechiad fel therapi ar gyfer y clefyd yn lle fel dull o'i atal. Roedd y claf wedi profi'n bositif am COVID-19 am gyfnod hir, sef o leiaf 218 o ddiwrnodiau. Defnyddiodd ymchwilwyr ddau ddos o'r brechiad ac yn gyflym iawn gwelwyd ymateb cryf yn y gwrthgyrff, a oedd yn llawer cryfach na'r ymateb a ysgogwyd o fod wedi'i heintio'n naturiol am gyfnod estynedig. Gwelodd y tîm hefyd ymateb cryf mewn celloedd T - cangen o'r system imiwnedd y tybir ei bod yn hanfodol er mwyn brwydro'r firws. O ganlyniad i hynny roedd y claf yn glir o COVID-19 72 diwrnod ar ôl derbyn dau ddos o'r brechiad.

Bu timau'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau'n ddigidol, gan gyflwyno ymgynghoriadau fideo i alluogi apwyntiadau o bell, datblygu cymorth digidol i gleifion fel yr adnodd adsefydlu digidol Cadw'n lach, a rhoi trefniadau cyflym ar waith a fyddai'n galluogi pobl i weithio gartref.

Mae rhai o'r mentrau hyn wedi parhau ac erbyn hyn gall clinigau a gwasanaethau cleifion allanol gynnig mynediad hybrid at apwyntiadau, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein, a all fod yn fuddiol i gleifion ac arbed teithiau diangen i safleoedd ysbyty.



Mae'r timau Offthalmoleg wedi dangos llwyddiant mawr drwy uno Gofal Sylfaenol ac Eilaidd, a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o ddatblygiadau digidol i leihau amseroedd aros a gwella canlyniadau i gleifion â chyflyrau llygad brys. Drwy benodi pedwar optometrydd cymwys annibynnol a oedd yn gallu rhoi presgripsiwn, bu modd i'r Bwrdd lechyd symud 94% o gleifion gofal heb ei drefnu i Ofal Sylfaenol.

Byddai'r optometryddion yn asesu cleifion blaenoriaeth uchel drwy ddefnyddio system electronig OpenEyes i uwchlwytho delweddau a rhannu data cleifion yn ddigidol â meddygon ymgynghorol i'w hadolygu'n rhithiol a chadarnhau triniaethau. Byddai achosion mwy cymhleth na ellid eu trin o fewn Gofal Sylfaenol yn cael eu cyfeirio at sylw meddyg ymgynghorol gan leihau'r angen am apwyntiadau ysbyty a sicrhau mai ond y rhai a oedd angen ymyriad ar unwaith a oedd yn mynd i'r adran achosion brys llygaid.

Roedd hyn yn golygu bod modd i optometryddion annibynnol presgripsiynu ymdrin â'r rhan fwyaf o gyflyrau llygad a'u trin yn y gymuned leol.

Chwaraeodd y Bwrdd lechyd hefyd ran hollbwysig er mwyn troi'r llanw yn erbyn y firws, gan ddarparu dros 1.1 miliwn o frechiadau yn rhan o Raglen Brechu Torfol COVID-19, gan gynnwys y dos atgyfnerthu i blant 5-11 oed â chyflyrau ieuchyd isorweddol.

Buan iawn y daeth y timau brechu a Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu COVID-19 a ddarparwyd yn lleol gan staff y Bwrdd lechyd mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a chydweithwyr o'r

Lluoedd Arfog, yn rhan annatod o'r frwydr i gyfyngu ar ledaeniad y firws, er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel a lleihau'r straen ar y gwasanaethau ieuchyd. Mae pob tîm wedi gweithio'n ddiflino ac wedi ymaddasu'n gyflym iawn i newidiadau i'r canllawiau er mwyn cadw'r boblogaeth yn ddiogel.

Ffocws allweddol y sefydliad ar hyn o bryd yw adfer a gwella mynediad at wasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig, trawsnewid llwybrau clinigol, a thrwy wneud hynny, gwella gwasanaethau i gleifion a chymunedau drwy'r rhaglen Adfer ac Ailddylunio uchelgeisiol.

Nod y rhaglen yw canfod a gweithredu dulliau arloesol o ddarparu gofal ieuchyd er mwyn helpu i ail-lunio'r ffordd y mae gwasanaethau'n darparu gofal i bobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, a thu hwnt.

Er bod hyn yn dal i gael ei roi ar waith, rydym eisoes yn gweld cynnydd gwych gyda'r gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod, y theatrau Offthalmoleg newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r cynnydd mewn darpariaeth gwasanaeth a mynediad at wasanaethu gynaeoleg ac endosgopeg er mwyn gwella diagnosteg cleifion.

Mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn lleihau'r rhestrau aros sydd wedi tyfu yn sgil yr oedi a achoswyd gan y pandemig, ond rydym yn cydweithio ar draws y Bwrdd lechyd, ein partneriaid a'n cymunedau i fynd i'r afael â heriau, adfer y sefyllfa a pharhau i wella mynediad at ofal a thriniaethau i bawb sydd eu hangen, ac i hyrwyddo ieuchyd a llesiant ac osgoi salwch, anafiadau a chlefydau ataliadwy. Rydym yn eithriadol o falch o'r tîm cyfan ym Mwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae pob un aelod o'r tîm



wedi gwneud cyfraniad pwysig ac unigryw dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hebddynt ni fyddai llawer o'r gofal, y triniaethau a'r gefnogaeth wych wedi bod yn bosibl nac wedi cael eu darparu. Hoffem achub ar y cyfle hwn i gydnabod ymdrechion aruthrol ein cydweithwyr ac i fynegi diolch diffuant iddynt hwy a'u teuluoedd a'u hanwyliaid am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u trugaredd parhaus.

Yn ogystal â hynny, hoffem ddiolch i'n partneriaid ac yn bennaf oll i'r holl ddinasyddion a'r cymunedau lleol am eich holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychwn ymlaen at gryfhau ein cydweithrediad a pharhau i wrando, deall a dysgu fel y gallwn barhau i wella, er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i bawb rydym yn eu gwasanaethu.



Suzanne Rankin

Suzanne Rankin
Prif Weithredwr



Yr Athro Charles Janczewski

Yr Athro Charles Janczewski
Cadeirydd BIP

2. Proffil o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

2.1 Amdanom Ni

Y Bwrdd Iechyd yw un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Fe'i sefydlwyd yn 2009, ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau iechyd a lles i'w boblogaeth. Rydym yn gwario tua £1.7 biliwn y flwyddyn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau iechyd a lles i'n cymunedau, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:** practisau meddyg teulu, deintyddion, fferylliaeth ac optometreg a llu o wasanaethau therapi dan arweiniad y gymuned drwy dimau iechyd cymunedol.
- **Gwasanaethau aciwt drwy ein dau brif Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty'r Plant:** darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Iechyd Cyhoeddus:** cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro drwy roi cyngor ac arweiniad ar ystod o faterion iechyd cyhoeddus a gofal ataliol.
- **Canolfan drydyddol:** rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru a'r DU yn aml gyda thriniaethau arbenigol a gwasanaethau cymhleth megis llawdriniaethau niwrolegol a gwasanaethau cardiaidd.

Dangos y gwasanaethau amrywiol a ddarperir gennym yn y diagram isod.



Iechyd Cyhoeddus

Gwella iechyd ein poblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Darparu gwybodaeth a chyngor gofal iechyd ataliol gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a lles.

Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol

Cynnig gwasanaethau iechyd rheng-gyntaf mewn meddygfeydd meddygon teulu, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr ac amrywiaeth o wasanaethau therapi ac chymunedol sy'n hygyrch ac mor agos gartref ag sydd modd.

Gofal Aciwt a Thrydyddol

Darparu gofal annisgwyl neu frys. Gofal dewisol a gwasanaethau arbenigol i boblogaeth ehangach ar draws Cymru, gan gynnwys diagnosteg a gwasanaethau therapiwtig.

Gwasanaethau Corfforaethol

Darparu'r gwasanaethau cefnogi sydd eu hangen i redeg system iechyd integredig ledled Caerdydd a Chymru, gan sicrhau diogelwch y cleifion, llywodraethiant, sicrhau ansawdd, perfformiad a chyflwyno pob gwasanaeth yn rhagorol.

2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth

Ein cenhadaeth yw "Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach", a'n gweledigaeth yw y dylai cyfle rhywun o fyw bywyd iach fod yr un fath lle bynnag mae'n byw a phwy bynnag ydyw.

Strategaeth 10-mllynedd trawsnewid a gwella Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llundain ein Llesiant i'r Dyfodol, yw ein cyfle i gydweithio â'r cyhoedd a gweithlu'r Bwrdd Iechyd i wneud ein Bwrdd Iechyd yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol. Gyda'n gilydd, gallwn wella cydraddoldeb i'n holl gleifion – heddiw ac yfory.

Am ragor o wybodaeth: <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/our-mission-vision/shaping-our-future-wellbeing-strategy/>

2.3 Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynnwys 25 o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Phrif Weithredwr. Mae gan y Bwrdd Iechyd 9 Aelod Annibynnol, y cafodd pob un ohonynt ei benodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a thri Aelod Cysylltiol.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad, ac yn gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw drwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus.

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau Hyrwyddwyr lle byddant yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion dan sylw.



Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un wedi'i gadeirio gan Aelod Annibynnol. Mae gan bob Pwyllgor gyfansoddiad sy'n cydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru - Pwyllgorau Bwrdd Effeithiol. Mae'r Pwyllgorau yn darparu eu cofnodion i bob cyfarfod Bwrdd, sy'n cyfrannu at ei asesiad o sicrwydd ac yn ei alluogi i graffu ar gyflawniad amcanion. Mae cyfarfodydd ein Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ers mis Gorffennaf 2020, a byddant yn gallu bod yn bresennol go iawn yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd o fis Mai 2022. Mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu gwyllo recordiadau o gyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau ers mis Chwefror 2022."

Mae copïau o'r papurau a'r cofnodion ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd (gweler y ddolen: <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/board-meetings/>). Mae'r wefan hefyd yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor. Mae'r holl gamau gweithredu sy'n ofynnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi'u cynnwys ar Gofnod Gweithredu a bydd cynnydd yn cael ei fonitro ym mhob cyfarfod

Mae pob Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i Gynlluniau Gwaith yn flynyddol i gefnogi busnes y Bwrdd, a hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'i Gylch Gorchwyl perthnasol. Mae Pwyllgorau hefyd yn cydweithio ar ran y Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynus ac yn canolbwyntio ar y materion sy'n achosi'r risg fwyaf a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein cenhadaeth a'n hamcanion. Er mwyn sicrhau cysondeb a chysylltiadau rhwng Pwyllgorau, mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Cydgysylltu Llywodraethu, a gadeirir gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd.



Ein Haelodau Bwrdd

Aelodau Annibynnol



Yr Athro Charles Janczewski
Cadeirydd



Yr Athro Ceri Phillips
Is-Gadeirydd



Michael Imperato
*Aelod Annibynnol -
Cyfreithiol*



Professor Gary Baxter
*Aelod Annibynnol -
Prifysgol*



David Edwards
*Aelod Annibynnol - Technoleg
Gwybodaeth a Chyfathrebu*



Cyngorydd Susan Elsmore
*Aelod Annibynnol -
Awdurdod Lleol*



Akmal Hanuk
*Aelod Annibynnol -
Y Gymuned Leol*



Sara Moseley
*Aelod Annibynnol -
Trydydd Sector (Gwirfoddol)*



Dr Rhian Thomas
*Aelod Annibynnol -
Cyfalaf ac Ystadau*



John Union
*Aelod Annibynnol -
Cyllid*



Mike Jones
*Aelod Annibynnol -
Undebau Llafur*

Cyfarwyddwyr Gweithredol a Swyddogion sy'n Aelodau



Suzanne Rankin
Prif Weithredwr



Yr Athro Meriel Jenney
*Cyfarwyddwr Meddygol
Gweithredol Dros Dro*



Catherine Phillips
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid



Caroline Bird
*Prif Swyddog
Gweithredu Dros Dro*



Abigail Harris
*Cyfarwyddwr Gweithredol
Cynllunio Strategol*



Dr Fiona Jenkins
*Cyfarwyddwr Gweithredol
Therapiau a Gwyddorau
Iechyd*



Fiona Kinghorn
*Cyfarwyddwr Gweithredol
Iechyd Cyhoeddus*



Ruth Walker
*Cyfarwyddwr
Gweithredol Nyrsio*



Rachel Gidman
*Cyfarwyddwr Gweithredol
Pobl a Diwylliant*

Cyfarwyddwyr Eraill



Nicola Foreman
*Cyfarwyddwr Llywodraethiant
Corfforaethol*




David Thomas
*Cyfarwyddwr Gwybodaeth
Iechyd a Digidol*



2.4 Ein Strwythur

Mae gennym weithlu o ryw 16,000 o staff sydd yn gyson yn darparu gwasanaethau o safon uchel i'n holl gleifion. Mae strwythur ein sefydliad wedi ei gynllunio ar ffurf saith Bwrdd Clinigol a grëwyd ym mis Mehefin 2013. Mae'r Byrddau wedi llwyddo i roi arweiniad cryf mewn meysydd clinigol ac

wedi arwain at gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, ac mae hynny yn ei dro wedi sicrhau gwelliant mawr i ddeilliannau cleifion yn eu gofal Delir y Byrddau Clinigol i gyfrif drwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.



Mae ein gwasanaethau cynllunio a chorfforaethol yn rhan annatod o strwythur cyffredinol a gweithrediad llyfn y Bwrdd Iechyd, ac yn cynnwys:

- Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu
- Cyllid gan gynnwys Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau
- Y Gweithlu a Datblygu Trefniadol
- Deallusrwydd Iechyd Digidol
- Cyfathrebu, Celfyddydau, Elusennau Iechyd ac Ymgysylltu
- Llywodraethu Corfforaethol



Sicrheir cynnydd a threfniadau i graffu ar gyfarwyddiaethau'r Gwasanaethu Corfforaethol drwy gyfuniad o lywodraethu, atebolrwydd y cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr, gan fapio cynnydd yn erbyn prosiectau allweddol yn eu maes arbenigol.

2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu

Mae deall anghenion ein poblogaeth yn hanfodol er mwyn cynllunio'n gadarn ac effeithiol. Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth a gynhaliwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac a ddatblygwyd gyda'n partneriaid rhanbarthol, yn creu darlun cyfunol o'r heriau o ran y boblogaeth yr ydym yn seilio ein cynlluniau arnynt. Cafodd yr asesiad hwn ei ail-lunio'n llwyr a'i gyflwyno gerbron y Bwrdd ar 30 Medi 2022, gan nodi anghenion iechyd a gofal allweddol, gan gynnwys:

Yr Unigolyn

- Mae'n rhaid cynnal a hyrwyddo annibyniaeth pobl o fewn penderfyniadau ynghylch gofal a chymorth, cyflogaeth a llety. Dylai unrhyw benderfyniadau o'r fath fod yn seiliedig ar ymgynghoriad a bod wedi'u cyd-gynhyrchu â'r sawl y maent yn effeithio arno.

Y Gymuned

- Nodwyd ynysigrwydd cymdeithasol yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn 2017, ac mae hyn wedi gwaethgu i lawer yn sgil COVID-19 (a elwir weithiau yn "Covid" yn yr Adroddiad Blynyddol

hwn), gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol o safbwynt iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lesiant.

- Ymagwedd gyfannol at iechyd corfforol a iechyd meddwl, sy'n cynnwys mynediad gwell at wasanaethau, gan gynnwys lleihau rhestrau aros.
- Darparu gwybodaeth: roedd llawer o bobl heb fod yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael iddynt, a byddent yn elwa fwy o gyfeirio.

Penderfyniadau ehangach

- Roedd llawer yn dymuno cael swydd (wirfoddol neu gyflogedig) - i wella materion ariannol personol, a hefyd i greu ymdeimlad o bwrpas, lleihau ynysigrwydd, ac er mwyn helpu i warchod iechyd meddwl a lesiant pobl.
- Mae angen i dai a llety fod ar gael, sy'n hygyrch, yn ddiogel ac yn cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn. Er enghraifft, cyflogaeth sy'n galluogi. Mae angen gwella'r trefniadau atal a'r cymorth cynnar i bobl ddigartref.
- Trafodwyd anghydraddoldebau ym mhob pennod, yn enwedig yn nhermau amddifadedd economaidd-gymdeithasol, mynediad at wasanaethau a deilliannau iechyd. Mae COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar draws y boblogaeth, yn rhannol oherwydd anghydraddoldebau a geir eisoes yn mewn penderfyniadau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd, ac a waethygydd y sgil COVID-19 a'r cyfyngiadau.



Mae'n bwysig inni hefyd ystyried llesiant ehangach ein poblogaeth hefyd, sy'n cynnwys llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae asesiadau llesiant Caerdydd a Bro Morgannwg hefyd wedi cael eu diweddarau dros y flwyddyn, gan gyhoeddi'r canfyddiadau terfynol yn nhymor y gwanwyn 2022.

Twf ac amrywiaeth y boblogaeth

Parhau i dyfu y mae poblogaeth Caerdydd a'r Fro, gyda rhagamcanion diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol(ONS)/ Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif cynnydd o 504,000 yn 2022 i 523,000 yn 2032, sef tua 4%. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf hyn gan yr ONS [yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018, a gafodd eu diweddarau ddiwethaf ym mis Awst 2021 \(gweler y ddolen - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year>](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year).

Yn groes i ragamcanion blaenorol a gyhoeddwyd 4 blynedd yn ôl, rhagwelir bydd cyfradd twf y Fro yn fwy nag un Caerdydd, gyda thwf yn y Fro o 5.0% dros 10 mlynedd, o gymharu â 3.5% yng Nghaerdydd. Bydd union dwf y boblogaeth, yn enwedig yng Nghaerdydd, yn dibynnu llawer ar gynnydd datblygiadau tai mawr.

Mae gan y brifddinas-ranbarth yn arbennig hanes hir o fod yn agored a chynhwysol. Dyma'r awdurdod lleol mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru, gyda thua 15% o'i boblogaeth o grwpiau lleiafrifol ethnig.

Poblogaeth sy'n Heneiddio

Mae oedran cyfartalog pobl yng Nghaerdydd a'r Fro yn codi'n gyflym, gyda rhagamcan o gynnydd o 43% mewn pobl 85 a hŷn yn y Fro dros y 10 mlynedd nesaf, ac 17% yng Nghaerdydd.

Anghydraddoldebau iechyd

Mae cryn amrywiaeth mewn ymddygiad iach a deilliannau iechyd yn ein hardal, gydag amrywiadau mewn cyfraddau smygu, gweithgaredd corfforol, diet a chyfraddau gordewdra a bod dros bwysau. Mae cyfraddau brechu mewn plentynod hefyd yn is mewn ardaloedd difreintiedig, a phobl yn fwy tebygol o brofi ansawdd aer gwaeth. Mae disgwyliad oes rhyw ddeng mlynedd yn is yn ein hardaloedd mwy difreintiedig, ac o ran disgwyliad einioes iach, mae'r bwlch yn fwy na dwbl hyn. Mae amddifadedd yn uwch yng nghymdogaethau De Caerdydd, a Chanol y Fro.

Amlygodd pandemig COVID-19 yr anghydraddoldebau dyfnion hyn, gyda'r effeithiau yn ddwysach yn ein hardaloedd mwy difreintiedig, ac ymysg cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Archwiler hyn yn fanwl yn yr Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer 2020 (a gyhoeddwyd yn 2021).

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn modd systematig yw un o'r prif raglenni gwaith yn ein Cynllun Llundio Iechyd ein Poblogaeth i'r Dyfodol. Dyma rai o'r rhaglenni eraill: Pwysau iach: Symud Mwy, Bwyta'n Iach; brechu ac imiwneiddio; ac amgylchedd cynaliadwy ac iach.



Newid ym mhatrwm clefydau

Mae nifer cynyddol o bobl yn ein hardal â diabetes, a mwy o bobl â dementia hefyd wrth i'r boblogaeth heneiddio ([Aseiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro, 2022](#)). Cynyddu mae nifer y bobl gyda mwy nag un salwch tymor-hir. Mae effeithiau COVID-19 yn cynnwys effeithiau andwyol ar les meddyliol, a Covid 'hir'; rydym hefyd yn disgwyl effeithiau negyddol sylweddol ar benderfyniadau iechyd ehangach, er enghraifft, lefelau cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol a allai gymryd blynyddoedd i ddod i'r amlwg. Ceir rhai enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol y pandemig hefyd, gan gynnwys cynnydd yn y nifer sy'n cerdded a beicio.

Tybaco

Mae un o bob saith o oedolion (14%) yn ein hardal yn smygu ([Arolwg Cenedlaethol Cymru/StatsCymru, 2021](#)). Er bod y niferoedd yn dal i ddisgyn, sydd yn galonogol, erys y defnydd o dybaco yn ffactor risg o bwys mewn sawl clefyd, gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd a chanser yr ysgyfaint, a marwolaeth gynnar.

Bwyd

Mae dros ddwy ran o dair o bobl yn ein hardal heb fod yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau, ac y mae dros hanner yr oedolion dros eu pwysau neu yn ordew ([Arolwg Cenedlaethol Cymru/StatsCymru, 2021](#)). Mewn rhai ardaloedd difreintiedig, mae'n anodd cyrchu bwyd iach a fforddiadwy, ac y mae ansicrwydd bwyd yn dod yn fwy amlwg oherwydd cynnydd mewn costau byw a chyflogau isel. (Iechyd Cyhoeddus Cymru,

[Ymateb i her driphlyg Covid-19, Brexit a'r Newid yn yr Hinsawdd, 2021](#)).

Gweithgarwch corfforol

Nid yw dros 40% o oedolion yn ein hardal yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol rheolaidd, gan gynnwys un o bob pump (22%) sy'n cael eu hystyried yn anweithgar ([Arolwg Cenedlaethol Cymru/StatsCymru, 2021](#)).

Ynysu cymdeithasol ac unigrwydd

Dywedodd tua chwarter y bobl sy'n agored i niwed yn ein hardal eu bod yn unig drwy'r amser neu ran o'r amser, cyn y pandemig ([Aseiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro, 2022](#)). Nid ydym yn gwybod eto beth yw effaith tymor hwy y pandemig o ran ynysu ac unigrwydd, ond mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod unigrwydd wedi cynyddu dros y 2 flynedd ddiwethaf. Cysylltir ynysu cymdeithasol â gostyngiad mewn llesiant meddyliol a disgwyliad oes.

Y Gymraeg

Mae chwarter (26%) o bobl o bob oed yng Nghaerdydd, ac 1 o bob 5 (20%) yn y Fro, yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ([Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/StatsCymru, 2022](#)).

Hawliau Dynol

Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol sy'n nodi'r ymrwymiad y sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol mewn perthynas â chyflogaeth. Y mae hefyd yn sicrhau bod y broses i recriwtio staff yn cael ei chynnal mewn modd cyfartal.



Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) De Morgannwg

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymunedol (CIC) De Morgannwg, sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Y mae hefyd yn gwneud gwaith gwarchod dros y GIG ar gyfer pob agwedd ar ofal iechyd.

Rydym yn cydweithio i drafod darpariaeth a datblygiad y gwasanaethau a ddarperir gennym. Rydym yn croesawu adroddiadau gan y CIC ac yn ddiolchgar am eu cyngor, eu her a'u cefnogaeth barhaus.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Uned 3, Canolfan Fusnes Pro-Copy
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Ffôn: 02920 750112

E-bost: SouthGlam.Chiefficer@waleshc.org.uk

2.6 Egwyddorion Rhwymedi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn yn llawn y rheoliadau sydd yn cyfarwyddo trin ac ymateb i bryderon (cwynion a digwyddiadau) a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2011. Hefyd, mae agwedd y Bwrdd Iechyd at drin pryderon yn adlewyrchu i raddau helaeth yr 'Egwyddorion Rhwymediau' a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

a) Ei wneud yn iawn

- Os byddwn yn canfod pethau a allai fod wedi bod yn well, byddwn yn cydnabod hynny.
- Byddwn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar yr ateb priodol, gan sicrhau tegwch i'r achwynydd a, lle bo hynny'n briodol, i eraill sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r un achos o gamweinyddu neu o ddarparu gwasanaeth gwael.
- Byddwn yn ymddiheuro ac yn esbonio'r camweinyddu neu'r gwasanaeth gwael.
- Byddwn yn ceisio deall a rheoli disgwyliadau ac anghenion pobl.
- Byddwn bob amser yn ceisio trin pobl mewn modd proffesiynol a sensitif.

b) Canolbwyntio ar y cwsmer

- Byddwn yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb am fethiant os a phan fydd yn digwydd.
- Byddwn yn esbonio'n glir pam bod y methiant wedi digwydd, ac yn gresynu'n ddidwyll bod unrhyw anghyfiawnder neu galedi wedi deillio o hynny.



c) Bod yn agored ac atebol

- Byddwn yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw.
- Byddwn yn anelu i drin pobl heb ragfarn na chamwahaniaethu.

d) Gweithredu'n deg a chymesur

- Byddwn yn ystyried pob ffurf ar rwymedi (fel ymddiheuriad, esboniad, camau unioni neu iawndal ariannol).

e) Gweithio i Wella

- Byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth am ganlyniadau pryderon, a'r themâu ynddynt, i wella gwasanaethau.

f) Ceisio gwella'n gyson

- Byddwn yn ceisio cynnig ymchwiliad ac ymateb cymesur a rhesymol, gan anelu i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau.

Caerdydd a'r Fro. Yr hyn sydd wrth wraidd y strategaeth yw ein gweledigaeth, sef y dylai pawb gael cyfle i fyw bywyd hirach, iachach a hapusach. Wrth i'r boblogaeth heneiddio a'n ffyrdd o fyw newid, mae ein systemau iechyd a gofal yn wynebu pwysau cynyddol. Er mwyn gallu bodloni anghenion ein poblogaeth, mae'n rhaid inni drawsnewid ein dull o ddarparu gwasanaethau ar draws ein holl system iechyd a gofal, gan sicrhau y gall pobl dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol, naill ai gartref neu mor agos at eu cartref ag sy'n bosibl. Lle bo angen, dylid darparu gofal arbenigol yn yr ysbyty - ar gyfer gofal eilaidd, trydyddol a phedweryddol - pan fo angen hynny ar y claf, yn achos gofal argyfwng a gofal brys, a gofal y gellir ei gynllunio.

Mae angen inni esblygu'n gyflym i wasanaethu anghenion y cyhoedd yn y ffordd orau, a sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy i bawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau.

Rydym am sicrhau gofal cydgysylltiedig yn seiliedig ar yr ymagwedd 'gartref yn gyntaf' gan rymuso dinasyddion Caerdydd a'r Fro i deimlo'n gyfrifol am eu hiechyd eu hunain, gyda mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny. Dylid darparu ein gwasanaethau yn y ffyrdd mwyaf effeithlon, sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni, ac sy'n rhoi'r canlyniadau a'r profiad gorau posibl i gleifion. Mae gwella ansawdd y gofal a ddarparwn yn greiddiol i'n rhaglen trawsnewid gwasanaethau. Rydym am sicrhau canlyniadau sydd wirioneddol o bwys i gleifion a'r cyhoedd, gan sicrhau ein bod i gyd yn cydweithio i greu system iechyd yr ydym yn falch ohoni.

2.7 Iechyd ein poblogaeth

Gweler paragraff 2.5 uchod.

2.8 Ein Strategaeth

Sllunio ein Llesiant i'r Dyfodol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2015, yw'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer trawsnewid a gwella ym Mwrdd Iechyd Prifysgol



Bydd heriau'n codi ar hyd y daith; mae angen inni fabwysiadu dull cytbwys o sicrhau newid i'n poblogaeth, yn seiliedig ar flaenoriaethau gwasanaethau, cynaliadwyedd a gwerthoedd diwylliannol. Er hynny, rydym wedi ymrwymo i 'Ofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach', gan sicrhau bod y Bwrdd Iechyd a'i ddinasyddion lawer yn ffynnu nid yn unig heddiw, ond am y blynyddoedd lawer sydd i ddod.

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth mae angen inni weithio gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid: ein cymunedau lleol, ein timau Gofal Sylfaenol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd cyfagos ac Ymddiriedolaethau'r GIG, a Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid academiaidd/ymchwil eraill.

2.9 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)

Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, cafodd proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ei gohirio oherwydd y pandemig. Yn lle'r gofyniad am CTCI cymeradwy, cyflwynwyd yr angen am gynlluniau chwarterol ar gyfer 2020-2021, a chynllun blynyddol ar gyfer 2021-2022, a adlewyrchai'r angen am gynlluniau ystwyth i adlewyrchu'r tirlun newidiol wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Er bod angen inni barhau i fod yn ddeinamig wrth gynllunio, rhoddwyd sylw hefyd i'r blaenoriaethau a nodwyd yn CTCI 2020-2023 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2020, ac a dybiwyd yn gymeradwy gan Lywodraeth Cymru, cyn dyfodiad y pandemig.

Ym mis Hydref 2021, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn dychwelyd i ddull cynllunio teirblynyddol ac, yn unol â hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu CTCI tair blynedd drafft ar gyfer 2022 i 2025. Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd CTCI drafft 2022-2025 a gafodd wedyn ei gyflwyno i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cyflwyno rhaglen waith uchelgeisiol sy'n anelu i gyflymu ein taith i drawsnewid gwasanaethau, gan gymryd cam sylweddol ymlaen i adfer y triniaethau gofal cynlluniedig a gafodd eu gohirio yn sgil COVID-19, a gwella ei gwasanaeth gofal argyfwng a brys sydd wedi bod o dan gryn bwysau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, cadarnhawyd gennym y byddai gwaith pellach yn cael ei gwblhau yn chwarter 1 2022 ar y camau gweithredu gofynnol, ac y byddai terfynau amser heriol ond realistig yn cael eu gosod, i leihau'r bwlch ariannol a geir o hyd yn ein CTCI drafft. Mae'r gwaith hwn ar y gweill, a chyn gynted ag y byddwn wedi lleihau'r bwlch ariannol bydd drafft terfynol y CTCI yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan ein Bwrdd (yng nghyfarfod y Bwrdd ar 30 Mehefin 2022) cyn diweddaru drafft terfynol y CTCI a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf, neu oddeutu'r dyddiad hwnnw.

Mae ein Bwriadau Comisiynu (fel y'u crynhoir yn y diagram isod) yn nodi'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau - yn fewnol gan ein Byrddau Clinigol, ac yn allanol gan yr ystod eang o bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau i'n poblogaeth leol.



Darparu gofal iechyd a chanlyniadau clinigol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar werthoedd a gwell boddhad i gleifion. Darparu llwybrau cleifion sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac amgylchedd a fydd yn canolbwyntio ar atal, helpu i adfer, urddas a gwella, meithrin iechyd hirdymor a reolir gan gleifion ac sy'n cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol.

Dod yn ganolfan Rhagoriaeth, yn fagnet ac yn angor ar gyfer dysgu, ymchwil ac arloesi i'r rhanbarth a Chymru yn gyffredinol; wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r gymuned leol, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a balchder.


Hyrwyddo lles staff a chydabod arloesedd ac ymdrech staff. Galluogi recriwtio, mwy o foddhad a chadw staff o ansawdd uchel, cynnal gweithlu o safon uchel a darparu addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.

Dod yn arloeswr ar gyfer deall gweithgarwch mewn ffyrdd mwy arloesol, drwy:

- 1) Ddefnyddio technoleg yn rhagweithiol wrth ddarparu gofal, sy'n canolbwyntio ar atal a lles hirdymor;
- 2) Datblygu llwyfan y gellir ei addasu ar gyfer integreiddio technoleg yn y dyfodol;
- 3) Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial a dysgu peirianyddol i gyflwyno meddygaeth fanwl gywir.

Adeiladu ar ein dull amlasiantaethol sefydledig o weithio'n gadarnhaol a gwella statws iechyd y boblogaeth yn gryf drwy ganolbwyntio ar atal clefydau ar lefelau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, hyrwyddo iechyd a lles, a thargedu'r poblogaethau sydd â'r anghydraddoldebau cymdeithasol uchaf. Cymhwyso dysgu, drwy lens profiad y pandemig, yn enwedig i grwpiau ag anghenion penodol megis cyd-afiacheddau, anabledau dysgu, grwpiau sy'n agored i niwed a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.





Yn yr un modd, mae ein CTCl yn ymateb i ofynion comisiynu ein byrddau iechyd cyfagos a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) ar gyfer y gwasanaethau arbenigol a thrydyddol a ddarperir gennym i'w poblogaethau a'u cleifion.

2.10 Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Phartneriaethau

Un o egwyddorion craidd y GIG a strategaeth y Bwrdd Iechyd yw dod â manteision i gleifion trwy Ymchwil a Datblygu (YaD) ac arloesi. x Mae perfformiad YaD effeithiol yn hanfodol os yw'r Bwrdd Iechyd am ateb ei werthoedd a'i amcanion, oherwydd ei fod yn dwyn manteision lu:

Manteision i gleifion

- Mynediad at y therapïau diweddaraf a thriniaethau newydd
- Mynediad at y profion diagnostig a phrognosis diweddaraf
- Mae cleifion a wahoddir i gymryd rhan mewn treialon clinigol yn dangos mwy o foddhad cyffredinol a gwell deilliannau o gymharu â chleifion na chawsant y cyfle hwn.
- Mae gan ysbytai â phortffolio YaD cryf well deilliannau hyd yn oed i gleifion nad ydynt mewn treialon.
- Mae'n aml yn fwy cynaliadwy recriwtio a chadw staff o'r radd flaenaf mewn ysbytai athrofaol a thrydyddol a systemau iechyd mawr, lle gall clinigwyr gymryd rhan mewn ymchwil a threialon er budd eu cleifion a'u gwasanaethau.

Manteision i'r staff

- Mae gweithlu sy'n llythrennog mewn ymchwil yn barod i gymryd rhan yn y broses o newid parhaus a gwella gwasanaeth sy'n angenrheidiol i gwrdd â heriau darparu gofal iechyd modern
- Datblygu staff, sy'n arwain at fwy o frwdfrydedd, symbyliad a recriwtio pobl o ansawdd uchel i'r sefydliad

Manteision i'r Bwrdd Iechyd:

- Cyflawni cyfrifoldebau statudol y Bwrdd Iechyd
- Galluogi cysylltiadau â sefydliadau tebyg yng ngweddill y byd, gan rannu arfer gorau a chodi statws y Bwrdd Iechyd
- Esiampl fel y darparwyd Gofal Iechyd mwyaf blaenllaw yng Nghymru
- Denu a chadw staff
- Cyllid wedi'i osod yn erbyn costau staff (drwy ennill incwm YaD), arbedion ar gyffuriau/dyfeisiadau drwy gymryd rhan mewn astudiaethau, mynediad at incwm masnachol drwy gymryd rhan mewn ymchwil a threialon
- Incwm YaD uniongyrchol – Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ethos ymchwil a datblygu cryf a hanes o lwyddo yn y maes hwn yn y gorffennol. Mae newidiadau i'r modd caiff YaD ei gyllido a'i gymeradwyo yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn creu heriau mawr, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd mawr i'r Bwrdd Iechyd Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strwythur sy'n annog cynhyrchu cyllid ac adnoddau ar gyfer YaD.



Yn YAC y mae'r unig uned ymchwil glinigol bwrpasol i gleifion mewnol yng Nghymru. Mae hynny'n ei alluogi i gynnal yr ystod lawn o dreialon clinigol, gan gynnwys y treialon cyntaf mewn pobl. Yn ystod 2021/22, sefydlwyd swyddfa YaD gennym ar y cyd â

Phrifysgol Caerdydd o dan arweinyddiaeth Cyd-gyfarwyddwr YaD, a daethom â'r ddau dîm ynghyd mewn cyfleusterau wedi'u hadnewyddu (y gwneir defnydd llawn ohonynt pan fydd rheolau Covid yn caniatáu).



Rhan 1

Adroddiad ar Berfformiad



3. Trosolwg o Berfformiad

Cyflwyniad

Mewn ymateb i'r pandemig, rhoddwyd y gorau i'r cylch cynllunio traddodiadol ar gyfer GIG Cymru - a'r cyfarwyddyd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru oedd i'r Byrddau Iechyd ddatblygu cynllun blynyddol ar gyfer 2021/22. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Blynyddol trosfwaol gydag atodiad yn canolbwyntio ar 'Cynllunio ar gyfer Adfer ac Ailddylunio' ar 30ain Mehefin 2021. Roedd y prif gynllun yn rhoi darlun cyfannol strategol o'r holl Fwrdd Iechyd, ei uchelgeisiau strategol a'i gyfeiriad, tra'r oedd yr atodiad yn cynnwys gwybodaeth fanylach am gynlluniau i adfer ac ail-ddylunio ein gwasanaethau wrth inni symud i gyfnod nesaf y pandemig.

Yn gyffredinol, mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn heriol arall i'r Bwrdd Iechyd. Er inni wneud cynnydd da yn erbyn nifer sylweddol o gynlluniau ein Rhaglen Adfer ac Ailddylunio,, mae'r pwysau gweithredol ar draw y system wedi amharu ar ein perfformiad. Bu'r pwysau gweithredol a brofwyd eleni'n annodweddiadol, gyda phwysau anarferol yn parhau drwy gydol yr haf. Golygodd hyn fod y Bwrdd Iechyd wedi cychwyn y gaeaf, tymor sydd fel arfer yn fwy heriol, mewn sefyllfa anos.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i fod yn 'barod am Covid' drwy gydol y flwyddyn - egwyddor sydd wrth wraidd ein model gweithredu. Parhaodd ein gwaith cynllunio a'n hymateb i ganolbwyntio ar bum niwed COVID-19. (Am ragor o wybodaeth am y diffiniadau o'r pum niwed, gweler y ddolen ganlynol -<https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-5-nam-syn-codi-o-covid-19>).

Roedd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i amrywiolion newydd ddod i'r amlwg, yn enwedig amrywiolyn Omicron ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2021. Ceir amlinellu manylach isod o effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaeth, ynghyd â'r cynnydd a gafwyd gyda'n rhaglen Adfer ac Ailddylunio.

Y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd Newydd

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd newydd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd yn dod i rym yn gyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bydd y Dyletswyddau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth â'r Dyletswyddau hynny a chyhoeddi eu hadroddiadau yn y cyfrifon blynyddol a'r adroddiad ar berfformiad. Bydd y gofynion adrodd newydd hyn felly wedi'u cynnwys yn y cyfnod adrodd 2023/24.

Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd:

(i) Y Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei rhoi ar waith yn anstatudol yn nhymor yr hydref 2022.

Bydd hyn yn gyfle i brofi'r dangosyddion adrodd ansawdd, mesurau a chysyniadau fframwaith naratif a gaiff eu datblygu yn ystod cam gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd, fel proses adrodd hybrid ar gyfer 2022/23. Yn y cyfamser mae gofynion adrodd ar ansawdd wedi'u hymwreiddio yn Adran Berfformiad yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn benodol yn adrannau 7 a 15.7 yr Adroddiad Blynyddol hwn.



(ii) Cyfnod arweiniol yn ystod hydref/gaeaf 2022 lle caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei rhoi ar waith yn anstatudol. Bydd hyn yn gyfle i gyrff y GIG, gan gynnwys darparwyr Gofal Sylfaenol, baratoi am y gofynion adrodd newydd o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, a chynnal a gweithredu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth.

Meysydd cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 16,000 o staff ac mae ganddo incwm blynyddol o oddeutu £1.7 biliwn. Mae'n un o saith bwrdd iechyd cwbl integredig Cymru, ac yn un o sefydliadau gofal iechyd mwyaf y DU. Mae'n darparu Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Canolradd a Chymunedol, Iechyd Meddwl a Iechyd Cyhoeddus ac Ysbyty Acíwt i 500,000 o bobl ar draws 11 o safleoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Y Bwrdd Iechyd yw prif ddarparydd gofal Trydyddol ar draws De Cymru, ac mae'n gweithio'n ddiwyd i ddatblygu gwasanaethau rhanbarthol ar y cyd, gan gynnwys cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yng nghyswllt gwasanaethau trydyddol.

Gweledigaeth y sefydliad yw galluogi pawb i gael yr un cyfle am fywyd iach, waeth pwy yr ydynt a ble maent yn byw; a chreu system gofal iechyd cynaliadwy a chanddi fwy o ffocws ar ofal yn nes at adref, atal salwch, gwella iechyd a llesiant, grymuso pobl a sicrhau canlyniadau sydd o bwys iddynt ac ansawdd bywyd gwell. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, y trydydd sector a phartneriaid ehangach y gwasanaethau cyhoeddus, i gyflawni cynlluniau i wella iechyd a llesiant ein cymunedau lleol.

Ein perfformiad

3.1 Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau

Parhaodd y pandemig i gael effaith sylweddol a pharhaus ar ddarpariaeth gwasanaethau yn ystod 2021/22. Er inni gyflymu ein cynlluniau i adfer ac ailddylunio gwasanaethau ar ddechrau'r flwyddyn, roedd ein timau hefyd yn dal i ofalu am niiferoedd sylweddol o gleifion COVID-19. Pan ddaeth Omicron ddod i'r amlwg wrth inni symud tuag at ddiwedd y flwyddyn, bu'n rhaid inni addasu ein hymagwedd er mwyn sicrhau ein bod yn dal i allu darparu gwasanaethau hanfodol ar yr un pryd â chynyddu darpariaeth rhaglen frechu COVID-19 yn gyflym, a bodloni anghenion nifer cynyddol o gleifion oed wedi profi'n positif am COVID-19. Cafwyd nifer o risgiau darparu gwasanaeth yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â COVID-19, gan gynnwys:

- Amrywio ac ansicrwydd parhaus o ran proffil o'r galw ymhlith grwpiau cleifion Covid a chleifion eraill - gyda rhai gwasanaethau'n profi galw eithriadol ac eraill lle bu cyfyngu ar y galw.
- Gwasanaethau lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofod lleihau ei lefelau gweithgarwch er mwyn ail-flaenoriaethu adnoddau ar gyfer yr ymateb i COVID-19, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiolyn Omicron.
- Dyfodiad amrywiolyn Omicron, yr ansicrwydd a gafwyd yn gysylltiedig â hynny, a'r cynnydd dilynol yn y galw.
- Parhau i weithio'n llai effeithlon gan fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith i leihau cyfraddau trosglwyddo COVID-19.



- Parhau i weithio mewn modd cymhleth ac aneffeithlon gan fod angen gwahanu grwpiau o gleifion er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r firws.
- Amseroedd aros yn cynyddu oherwydd gostyngiad yn y ddarpariaeth.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio ei fodel gweithredu COVID-19 a ddarparodd y fframwaith ar gyfer penderfyniadau cyflym a hyblygrwydd i gydgyssylltu gwasanaethau ar gyfer grwpiau cleifion Covid a chleifion eraill. Defnyddiwyd modelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod ein penderfyniadau gweithredol yn seiliedig ar ystod o ddangosyddion ac yn cael eu haddasu i gyd-fynd â'r amgylchiadau penodol ar bob cam. Mae'r angen i barhau i fod yn "barod am COVID" wrth wraidd y model gweithredu, a gwnaethom sicrhau bod cydberthynas agos rhwng yr ymagwedd hon â Chynllun Rheoli COVID GIG Cymru.

Diweddarwyd ein trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd er mwyn helpu i gydbwysu pum niwed COVID-19, ee niwed uniongyrchol; niwed anuniongyrchol; niwed mesurau diogelu'n seiliedig ar y boblogaeth; niwed economaidd, a niweidiau yn sgil gwaethygu anghydraddoldeb. Er mwyn nodi ein huchelgeisiau, datblygwyd cynllun blynyddol blwyddyn o hyd gennym. Roedd y cynllun yn cynnwys ymagwedd Adfer ac Ailddylunio wedi'i fframio o amgylch y pum prif raglen waith ym maes Gofal Cynlluniedig, Gofal Brys ac Argyfwng, Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd Meddwl a Diagnosteg a Therapiau. Roedd ffocws y rhaglenni hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau ar draws ystod o hanfodion gan gynnwys cynnal gwasanaethau hanfodol

ac adfer gwasanaethau drwy gynnig mwy o gapasiti, cynyddu effeithlonrwydd a gwaith trawsnewid yn gysylltiedig â gwella llwybrau cleifion. Mae data gweithgarwch a pherfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, wedi cael eu defnyddio fel gwybodaeth reoli, ac i roi sicrwydd ynghylch cyflawniad y cynllun, gyda ffocws neilltuol ar sicrhau bod ein hymagwedd yn seiliedig ar risg i fodloni anghenion ein cleifion mwyaf brys o safbwynt clinigol.

3.2 Cynllunio a darparu gwasanaethau diogel, effeithiol a safonol ar gyfer gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19

Ar bob cam o'r pandemig mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gyflym i ailddylunio'r modd y darperir gwasanaethau, i ailgyflunio ac addasu'r ôl-troed i ddibenion gwahanol, a chreu'r capasiti sydd ei angen i gynnal mynediad at wasanaethau hanfodol a darparu gwasanaethau mwy cyffredin pa fo hynny'n ddiogel.



3.3 Ailddylunio gwasanaethau gofal sylfaenol i ddarparu gofal brys dros gyfnod aciwt COVID-19

Mae ein timau ar draws Gofal Sylfaenol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau arloesol, er mwyn cadw cleifion a staff yn ddiogel. Mae ein timau wedi parhau â'r modelau ffonio yn gyntaf a brysbennu, sydd wedi bod o gymorth i gynnig apwyntiadau rhithiol lle bo'n briodol, a hwyluso mynediad cyflym at apwyntiadau wyneb yn wyneb lle bo angen.

Cafodd ein hymagwedd at ddarpariaeth ei llywio gan y system 'goleuadau traffig' genedlaethol a ddatblygwyd ar gyfer y pedwar gwasanaeth Gofal Sylfaenol a gontractiwyd, gyda chamau coch, ambr a gwyrdd. Mae darpariaeth gwasanaethau wedi amrywio yn dibynnu ar fynychder achosion yn y gymuned, ac yn unol â chanllawiau ar atal a rheoli heintiadau. Dros y flwyddyn mae gwasanaethau wedi bod yn symud drwy'r cam 'ambr' ac mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bellach wedi'u hailsefydlu ac yn gweithredu'n unol â'r cam 'gwyrdd', gyda lefelau gweithgarwch ar y cyfan yn cyfateb i'r lefelau cyn y pandemig. Yr eithriad i hyn yw deintyddiaeth, gan fod gweithgarwch wedi parhau ar oddeutu 40-50% y lefelau cyn Covid yn sgil gofynion yr IPC. Mae ymdrin â'r sefyllfa hon yn gyflym, yn unol â chanllawiau diweddaraf yr IPC, yn rhan greiddiol o'n cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Er na chafodd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) eu hatal drwy'r pandemig, bu achosion o lacio contractau GMC mewn

amryw o ffyrdd hyd at 30 Medi 2021. O 1 Hydref, daeth yr holl fesurau i lacio contractau i ben. Mae practisau GMC yn dal wedi bod o dan bwysau parhaus, gydag un o bob pum practis ynn adrodd lefel uchel o bwysau uwchgyfeirio ar wahanol gyfnodau y ystod y flwyddyn. Y rheswm pennaf am hyn fu absenoldeb y staff yn ystod Covid. Mae ein tîm Gofal Sylfaenol wedi bod yn gweithio'n ddiwyd gyda phractisau i gynnig amrywiaeth o gymorth. Yn ogystal â hyn, tynnwyd yn ôl o ddau gontract yn 2021/22. Cafodd y rhain eu rheoli'n effeithio gan ein tîm Gofal Sylfaenol, gan ddod i gytundeb i drosglwyddo cleifion i bractisau eraill yn yr ardal leol.

Mae'r Gwasanaethau Optometreg bron wedi dychwelyd i lefelau cyn Covid, gydag ambell ostyngiad yn sgil mesurau'r IPC (ee, pellter cymdeithasol a PPE). Drwy ddarparu gofal drwy Ganolfannau Diagnostig a Thriniaeth Optometreg a phresgripsiynu annibynnol, mae cleifion wedi gallu cael eu gweld mewn lleoliadau gofal sylfaenol gan leihau'r nifer sy'n ymweld â gwasanaethau Gofal Eilaidd, a'r galw am y gwasanaethau hynny. Nid yw gwasanaethau fferyllol wedi cael eu hatal yn ystod y pandemig, ac mae fferyllfeydd wedi aros ar agor drwy gydol y cyfnod.

Bu pwysau sylweddol ar y gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys/CAF247 y Tu Allan i Orlau yn ystod y flwyddyn, gyda nifer y galwadau yn uwch nag 16,000 bob mis. Mae'r hybiau Gofal Sylfaenol Brys, a sefydlwyd mewn tri chlwestwr ym Mro Morgannwg, wedi cynnig capasiti ychwanegol gwerthfawr 9yn bennaf yn ystod y cyfnod 'oriau arferol' er mwyn gwella mynediad i gleifion a lleihau'r pwysau ar bractisau GMC. Mae hyn wedi cynnwys brysbennu ac apwyntiadau wyneb yn wyneb,



gyda chapasiti o tua 2,500 o apwyntiadau bob mis.

Mae timau cymunedol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Bu pwysau sylweddol ar y timau nyrso ardal yn sgil cynnydd yn y galw ac absenoldeb staff, yn ogystal â'r angen i gefnogi darpariaeth rhaglen frechu Covid a chefnogi'r pwysau mewn Gofal Eilaidd. O ganlyniad i hyn, bu angen gweithio mewn modd mwy hyblyg ar draws y timau nyrso ardal a blaenoriaethu gwasanaethau ar sail angen clinigol. Rhoddwyd cefnogaeth sylweddol i gartrefi gofal, gan weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r awdurdod lleol. Cynhaliodd ein timau nyrso ardal dros 1,600 o ymweliadau a chynhaliodd y tîm nyrso cymunedol dros 3,000 ohonynt.

Mae ein Tîm Adnoddau Cymunedol yng Ngwasanaeth Adnoddau Cymunedol Caerdydd a'r Fro wedi parhau i ddefnyddio'r timau amlddisgyblaeth, gan gynnwys ystod o therapyddion, i helpu pobl i aros gartref ac osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, a hefyd i gefnogi'r nifer fwy o gleifion sy'n cael eu rhyddhau yn sgil y cynnydd yn nifer y bobl sydd angen gofal yn yr ysbyty. Mae adolygiad parhaus wedi cael ei gynnal o becynnau gofal er mwyn rhyddhau adnoddau lle bo'n briodol i ymdrin ag achosion newydd. Er bod model 'o fewn cyrraedd' wedi bodoli erioed i dynnu cleifion o'r ysbyty, cafwyd mwy o ffocws ar gydweithio rhwng y timau cymunedol a staff wardiau er mwyn rhyddhau cynifer o gleifion â phosib.

3.4 Cynllunio a chynnal profion COVID-19 ac imiwneiddio rhagddo

Mae ein llwyddiant wrth sefydlu gwasanaethau profi ar ddechrau'r pandemig wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy bartneriaeth agos â'n dau awdurdod lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Bu Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau, yn hollbwysig inni allu adnabod achosion a lleihau achosion o drosglwyddo'r firws. Yn ystod 2021/22, mae'r POD wedi nodi 144,758 o ganlyniadau positif a arweiniodd at olrhain 141,817 o gysylltiadau. Drwy gydol y flwyddyn ymatebodd y Bwrdd Iechyd i newidiadau i Lefelau Rhybudd Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod ein cyfundrefnau profi ac olrhain yn parhau i fod yn gyson â hynny. Roedd hyn yn cynnwys newid i ddarpariaeth profion PCR ym mis Ionawr 2022, a gyflwynwyd er mwyn lleihau pwysau o fewn y system a chynnig mynediad gwell i rai a chanddynt symptomau.

Roedd rhoi'r Rhaglen Frechu Dorfol ar waith ledled Caerdydd a'r Fro yn enghraifft wirioneddol o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy waith partneriaeth a ffocws cydweithredol. Priodolir llwyddiant y rhaglen i ymdrechion partneriaid ym maes lechyd, yr Awdurdod Lleol, a'r byd addysg, ein gwirfoddolwyr rhagorol a llawer mwy. Yn dilyn cyfnod cychwynnol y rhaglen frechu, camodd ein timau o bob rhan o Ofal Sylfaenol ac Eilaidd i'r bwlch yn ystod mis Rhagfyr i wynebu her amrywiolyn Omicron a sicrhau bod pob oedolyn yn cymwys yn cael brechiad atgyfnerthu cyn diwedd 2021. Darparwyd ein



rhaglen drwy ymagwedd amlddisgyblaeth, gyda phobl yn derbyn brechiadau mewn Canolfannau Brechu Torfol, Gofal Sylfaenol a thrwy ein Fferyllfeydd Cymunedol. Mae ein timau symudol wedi darparu brechiadau i bobl mewn cartrefi gofal, rhai sy'n gaeth i'r tŷ a hefyd i rai o'n grwpiau mwy agored i niwed (ceiswyr lloches, pobl ddigartref, teithwyr, gweithwyr rhyw) a phobl o grwpiau BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig), yn ogystal ag ymweld â phrifysgolion a cholegau.

Mae ein hymgyrch frechu yn parhau gyda chynnydd da yn cael ei wneud o ran imiweiddio plant cymwys, gan gynnwys plant 5 -11 oed, gyda 36% wedi cael un dos. Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu dros filiwn o frechiadau sy'n cynnwys dros 300,000 o frechiadau atgyfnerthu. Mae 73% o'r boblogaeth gymwys wedi derbyn eu dos cyntaf, a 94% o'r rheiny wedi derbyn eu hail ddos. O'r rhai 18 oed a throsodd sydd wedi derbyn ail ddos, mae 82% wedi derbyn brechiad atgyfnerthu.

Profi Olrhain Diogelu (POD)

Cafodd gwasanaethau POD yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg eu sefydlu fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, ar ôl cyhoeddi adroddiad Llywodraeth Cymru, y Strategaeth Profi Olrhain Diogelu. Roedd y strategaeth hon, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mai 2020, yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddarparu systemau sy'n 'gwella'r gwaith o arolygu iechyd yn y gymuned, yn rhoi proses effeithiol a helaeth o olrhain cysylltiadau ar waith, ac yn helpu pobl i hunanynysu pan fo angen iddynt wneud hynny'.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd lefel ddigynsail o waith partneriaeth er mwyn cyflawni hyn, gan sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol ar draws y rhanbarth. Roedd y partneriaid yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, y Cydwasanaethau Rheoleiddio ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), yn ogystal â gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol lleol. Mae Tîm Rheoli Digwyddiadau (TRhD) Rhanbarthol, yn cynnwys yr holl bartneriaid, wedi cyfarfod bob pythefnos o leiaf, ac weithiau'n amlach na hynny, i adolygu'r data cyfredol ar achosion a chlystyrau, a'r effaith ar wasanaethau lleol, er mwyn llywio'r ymateb rhanbarthol. Mae'r TRhD yn adrodd wrth Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n rhoi goruchwyliaeth strategol. Mae cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion gwyliadwriaeth lleol wedi cael eu datblygu i gyd-fynd â data gwyliadwriaeth a gynhyrchwyd yn genedlaethol. Defnyddir yr wybodaeth hon o ansawdd uchel gan y TRhD a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i lywio penderfyniadau sefydliadau partner lleol.

Dyma ddiweddariad ar yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn ddiwethaf.

Profi

Dan arweiniad y Bwrdd Iechyd, a thrwy weithio gyda Microbioleg ICC ac awdurdodau lleol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a ICC yn genedlaethol, mae'r gallu i brofi'n lleol wedi cael ei reoli mewn modd hyblyg i gyflawni nodau Strategaeth Profi COVID-19 i Gymru. Mae Unedau Profi Rhanbarthol, Cymunedol a Symudol wedi cynnig profion PCR i'r rhai sydd eu hangen, yn unol â'r



canllawiau cyfredol, ac mae tîm o nyrsys arbenigol hefyd wedi bod ar gael i brofi pobl yn eu man preswyllo mewn achosion lle na allant deithio i ganolfan brofi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'n rhaid cynyddu'r capasiti profi i reoli'r cynnydd mewn achosion yn gysylltiedig ag amrywion Delta ac Omicron. Er bod cryn alw ar y gwasanaeth profi ar adegau, bu perfformiad y gwasanaeth yn dda ar y cyfan, gyda thros 90% o ganlyniadau profion wedi'u derbyn o fewn 24 awr.

Yn ogystal â phrofi pobl sy'n arddangos symptomau, mae gwasanaethau profi hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn profi'r rhai sydd ar fin cael llawdriniaeth, gan alluogi nifer cynyddol o lawdriniaethau gofal dewisol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ehangwyd profion Dyfais Llif Ochrol (LFD) i gefnogi nid yn unig lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol, ond hefyd i ganiatáu gweithgareddau 'dydd i ddydd' mwy diogel yn y boblogaeth gyffredinol; sefydlwyd rhwydwaith o ganolfannau dosbarthu mewn fferyllfeydd a llyfrgelloedd lleol i gynnig mynediad rhwydd at y pecynnau profi rhad ac am ddim.

Olrhain

Dechreuwyd olrhain cysylltiadau achosion o COVID-19 yng Nghymru ar 1 Mehefin 2020, ac mae'r gwaith hwnnw wedi parhau ers hynny. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, cynhelir y gwasanaeth olrhain cysylltiadau gan Gyngor Caerdydd ar ran y bartneriaeth. Mae staff olrhain cysylltiadau wedi'u hyfforddi i gynnig cyngor am ynysu i unrhyw un sydd wedi profi'n bositif am COVID-19,

ac i nodi eu cysylltiadau fel bo modd rhoi'r cyngor cywir iddynt hwythau hefyd. Bu angen cyflymu'r gwaith o olrhain cysylltiadau hefyd i ymdrin â'r nifer uchel o achosion yn gysylltiedig â thonau olynol o'r haint, ac mae ein timau lleol wedi gweithio bob amser yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae dulliau digidol o olrhain cysylltiadau wedi cael eu cyflwyno sydd wedi cynyddu capasiti a hyblygrwydd ymhellach. Yn ogystal â hynny, mae timau o olrheinwyr arbenigol wedi cael eu sefydlu, gan gynnwys tîm pwrpasol Cymru Gyfan i oruchwylio gofynion profi ac ynysu teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd tramor.

Caiff pob achos newydd ei fonitro gan dîm Uwcholrhain Caerdydd a'r Fro er mwyn canfod clystyrau neu leoliadau sy'n destun pryder. Mae timau arbenigol hefyd yn cynnig cymorth i leoliadau lle mae'r risg yn uwch, fel cartrefi gofal, ysbytai ac ysgolion. Mae tîm aml-asiantaeth rhanbarthol wedi cyfarfod yn ddyddiol (Llun i Gwener) yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn i drafod unrhyw risgiau a nodwyd a rhoi cyngor ar wella mesurau lliniaru lle bo angen. Caiff clystyrau a nodir gan y mecanweithiau hyn fel arfer eu rheoli gan y cyfarfod aml-asiantaeth rhanbarthol, ond gellir cynnull Tîm Rheoli Digwyddiad penodol os oes angen.

Diogelu

Mae'r ddau awdurdod lleol wedi parhau i roi cefnogaeth, lle bo angen, i'r rhai hynny sydd wedi gorfod ynysu, yn ogystal â grwpiau eraill sy'n agored i niwed, fel rhai sy'n profi digartrefedd neu'n cysgu allan.



Mae timau cyfathrebu partneriaeth wedi cydweithio drwy gydol y pandemig i rannu'r diweddaraf o ran canllawiau, ac ymgysylltu â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd ac ym Mro Morgannwg. Un llwyddiant nodedig fu ffurfio Is-grŵp Lleiafrifoedd Ethnig hynod lwyddiannus, lle byddai partneriaid allweddol o'r gymuned leol yn cynhyrchu rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar y cyd â sefydliadau partner POD. Dyma adroddiad llawn ar y gwaith hwn:

Test Trace Protect supporting ethnic minority communities (office.com) <https://sway.office.com/JPSiiWHrHeTjdfSf?ref=Link>.

Mae'r gwaith hwn wedi arwain at benodi Cydgyssylltydd Ymgysylltu penodol (Lleiafrifoedd Ethnig/Iechyd) fel bo modd defnyddio'r dull llwyddiannus i ganolbwyntio ar faterion iechyd eraill.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun COVID-19 'Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel' yn fuan ym mis Mawrth 2022, a esboniai sut y byddai Cymru'n pontio o drin Covid fel pandemig i'w drin fel clefyd endemig. Un o'r prif gerrig milltir oedd rhoi'r gorau i ddefnydd arferol o PCR gan y cyhoedd, a chael gwared â'r ddyletswydd gyfreithiol i hunanynysu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau i olrhain cysylltiadau a dirwyn taliadau hunanynysu i ben erbyn diwedd mis Mehefin 2022.

Rhaglen frechu torfol COVID-19

Dechreuodd y Bwrdd Iechyd ei raglen frechu torfol yn erbyn COVID-19 ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r rhaglen hon wedi parhau drwy gydol 2021/22 mewn ymateb i batrymau newidiol y pandemig. Rydym wedi parhau i roi brechiadau drwy bedair canolfan frechu dorfol ar draws y rhanbarth, a hefyd drwy Ofal Sylfaenol (Fferyllfeydd Cymunedol, Practisau Cyffredinol a Chlystyrau Gofal Sylfaenol) timau symudol ac uned symudol. Dechreuwyd y rhaglen brechiadau atgyfnerthu ym mis Medi 2021, ac fe'i cyflwynwyd ochr yn ochr â'r rhaglen frechu arferol ar gyfer y fflw. Erbyn diwedd mis Rhagfyr, roedd pob oedolyn cymwys 18 oed a throsodd wedi cael cynnig brechiad atgyfnerthu. Hyd at ddiwedd mis Chwefror 2022, roedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfanswm o fwy na 1,080,000 o ddosiau drwy frechiad. O'r rhai a oedd wedi cwblhau eu cwrs brechu cyntaf, roedd 82% o oedolion 18 oed a throsodd hefyd wedi derbyn brechiad atgyfnerthu. Parhaodd y grŵp Seldom Heard Voices i weithio gyda llawer o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau er mwyn ymdrin ag achosion o betruster brechu, a chynnal clinigau dros dro wedi'u targedu lle bo'n briodol. I ryw raddau, llwyddwyd i fynd i'r afael â'r berthynas glir rhwng ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol a'r nifer a oedd yn derbyn brechiad, drwy wrando ar ein cymunedau a chynnal clinigau cychwynnol ar safleoedd penodol neu ar gyfer cymunedau neilltuol.

Mae'r rhaglen flynyddol i frechu rhag y fflw wedi cael ei chynnal gan ystod o bartneriaid ar draws Gofal Sylfaenol, Nyrso Iechyd



Ysgol a staff y Bwrdd iechyd ochr yn ochr â'r rhaglen i frechu rhag COVID-19, gyda chynnig i gyd-weinyddu lle bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl (er enghraifft, ar gyfer rhaglen staff y Bwrdd Iechyd). Yn unol â gweddill Cymru, bu'r cyfraddau'n is ar y cyfan o gymharu â'r llynedd, er bod y nifer a gafodd frechiad ymhlith pobl 65 oed a throsodd yn uwch na 75%. Ceir crynodeb yn Nhabl 1 o'r cyfraddau brechiad fflw diweddaraf ar gyfer grwpiau cymwys:

Tabl 1: Cyfraddau derbyn brechiad fflw ar 14 Ebrill 2022 (Crynodeb Cenedlaethol Imiwneiddio rhag y Fflw ICC - Diweddariad 23)

Grŵp Blaenoriaeth	Wedi derbyn (data ar 14 Ebrill)
Pobl 65 oed a hŷn	76.1%
Pobl rhwng 6m a 64 oed sy'n wynebu risg	41.9%
Pobl 5 i 64 oed	39.4%
Plant 2 i 3 oed	44.5%
Plant 4 i 10 oed (Derbyn i Bl6)	60.6%
Plant 11 i 15 oed (Blwyddyn 7-11)	57.4%
Staff Rheng Flaen y BIP	53.2%

3.5 Ailddylunio gwasanaethau aciwt i ddarparu gofal COVID-19

Gan fod ar gynifer o gleifion Covid angen gofal ar draws ein hysbytai aciwt, gwelwyd nifer yr ymweliadau a'r derbyniadau ar draws y flwyddyn yn aros yn gyson uchel, gan gyrraedd uchafbwyntiau sylweddol dros fisoedd y gaeaf. Llwyddwyd i ymateb i'r galw yn gysylltiedig â Covid drwy aildrefnu ein capasiti presennol, gan gynnwys addasu ein hymagwedd frysbenneu a ffrydio, a thrwy ddefnyddio'r capasiti gwelyau ymchwydd ychwanegol.

Dyma rai o'n prif gyflawniadau:

- Defnyddio ein cyfleuster ymchwydd dros dro 400 gwely, Adain Glan Llyn, sydd wedi cynnwys nifer o wasanaethau i gleifion mewnol ac allanol gan ryddhau capasiti yn Ysbyty Athrofaol Cymru i ofalu am gleifion Covid.
- Gosod nifer o giwbiclau unigol a sgriniau gwahanu o fewn ein Hunedau Argyfwng ac Asesu i wella ein gallu i ffrydio cleifion, ymestyn y capasiti a lleihau'r risg o heintio.
- Ffocws ar gydweithio â'n partneriaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ac Awdurdodau Lleol, yn enwedig yn rhan o'n rhaglen "Prif Ymdrech" a oedd yn gweithio i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans, osgoi derbyniadau a rhyddhau cleifion i leoliadau mwy priodol.



- Argaeledd ein cynllun ehangu gofal critigol a allai ddarparu hyd at 85 o welyau pe bai angen.
- Darparu llwybr triniaethau dydd ar gyfer cleifion sy'n bositif am Covid, er mwyn iddynt allu derbyn y triniaethau gwrth-firysol diweddaraf ar gyfer Covid, drwy drefniant dros dro o'n Huned Clefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol.
- Mae nifer o wasanaethau wedi aros mewn lleoliadau dros dro fel bo modd ehangu capasiti ar gyfer Covid. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaeth Ehangu Clinigau Torasgwrn a Chleifion Allanol Ffisiotherapi CAF 24/7 - dull ffonio yn gyntaf i annog cleifion nad oes brys arnynt i gael eu gweld i ffonio ymlaen llaw ac, os oes angen, trefnir amser penodol iddynt ddod i'n Hadran Achosion Brys. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn erbyn 250 o alwadau bob dydd ar gyfartaledd.
- Gweithredu GIG 111, gan gynnwys integreiddio â CAF 24/7, i roi cyngor, arweiniad a chyfarwyddyd di-dor i gleifion.
- Defnydd hyblyg o'n gweithlu clinigol ac anghlinigol er mwyn cynyddu capasiti i gleifion mewnol.



3.6 Cynllunio a darparu gwasanaethau diogel, effeithiol a safonol ar gyfer gofal heb fod yn COVID-19

Darparu mesurau rheoli haint i ddarparu gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19

Mae gallu'r Bwrdd lechyd i ymateb ac ymaddasu i'r heriau rheoli haint yn sgil y pandemig wedi bod yn hollbwysig er mwyn inni allu darparu gofal yn llwyddiannus dros y flwyddyn, ar draws gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol. O dan arweiniad ein celloedd Atal a Rheoli Heintiau a PPE (grwpiau o uwch arbenigwyr clinigol) mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru i gyflawni polisi, a hefyd i ddylanwadu ar bolisi, yn y maes hwn mewn ymateb i broffil newidiol y firws.

Mae parhau i ddarparu parthau "gwyrdd", "ambr" a "coch" ar draws ein safleoedd aciwt wedi bod o gymorth i wahanu cleifion Covid a chleifion heb Covid oddi wrth ei gilydd, ac wedi lleihau cyfraddau trosglwyddo'r firws. (Mae "Gwyrdd" yn cynrychioli'r cleifion hynny sydd wedi profi'n negyddol am COVID-19 ac sydd wedi ynysu cyn cael eu derbyn; Mae "Ambr" yn cynnwys y cleifion hynny sydd wedi profi'n negyddol am COVID-19 ac nad ydynt wedi ynysu cyn cael eu derbyn (yn berthnasol i'r rhan fwyaf o gleifion gan gynnwys achosion brys); ac mae "Coch" yn cynrychioli'r cleifion hynny sydd wedi profi'n bositif am COVID-19).



Mae'r Unedau Llawfeddygaeth Ddewisol Gwarchodedig (Parthau Gwyrdd) yn YAC ac YALL yn parhau i fod ar waith i gynnig amgylcheddau sy'n rhydd rhag Covid i'r cleifion hynny sy'n derbyn llawdriniaeth ddewisol ac mae ein proses archwilio systematig wedi rhoi sicrwydd ynghylch llwyddiant yr ymagwedd hon.

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, fel gwisgo masgiau, wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ac mae ein hadrannau wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein hardaloedd cleifion a staff wedi'u sefydlu i leihau'r risg o drosglwyddo haint a rhoi hyder i gleifion a staff.

3.7 Darparu gwasanaethau hanfodol

Drwy gydol y pandemig mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal mynediad at wasanaethau brys ac argyfwng hanfodol, gan gynnwys llawdriniaethau brys ac argyfwng, gofal llygaid, triniaethau canser, gofal heb ei drefnu ac iechyd meddwl.

Mae llawdriniaethau brys ac argyfwng wedi cael eu darparu drwy ein Hunedau Llawfeddygol Dewisol Gwarchodedig gyda thros 10,500 o gleifion yn derbyn llawdriniaeth yn ein hunedau yn ystod y flwyddyn a chyfradd ganslo lawer is (10% o gymharu ag 18% cyn y pandemig). Mae ein defnydd o'r sector annibynnol unwaith eto wedi bod yn fuddiol wrth greu capasiti ychwanegol, ac mae dros 1,000 o gleifion wedi cael llawdriniaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy ddefnyddio'r llwybr hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i ddefnyddio trefniant mewnol ar gyfer

endosgopi, a thrwy'r trefniant hwnnw cafodd dros 5,700 driniaethau eleni.

Un o'n prif egwyddorion ar gyfer adfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid yw ystyried risg, ac mae hyn yn golygu blaenoriaethu cleifion ar sail brys clinigol, yn hytrach nag ar dargedau'n seiliedig ar amser. Ar gyfer cleifion sy'n disgwyl am driniaethau llawfeddygol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio Canllaw Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar flaenoriaethu llawdriniaethau yn ystod y pandemig, er mwyn helpu i bennu lefelau blaenoriaeth a fframiau amser ar gyfer pob triniaeth lawfeddygol.

Mae datrysiadau digidol wedi bod yn gyfrwng allweddol er mwyn galluogi darpariaeth gwasanaeth yn ystod y pandemig, gyda'r Bwrdd Iechyd yn cyflymu'r defnydd o waith rhithiol drwy fabwysiadu a chyflwyno AttendAnywhere, llwyfan ymgynghori fideo, ac apwyntiadau dros y ffôn. Mae tua chwarter ein gweithgarwch gyda chleifion allanol bellach yn cael ei gynnal yn rhithiol, ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i ehangu argaeledd y gwasanaethau hyn i grwpiau priodol o gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i ddefnyddio'r llwyfan Consultant Connect sy'n cefnogi cyngor ac arweiniad amserol rhwng clinigwyr Gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Mae gwaith ar y gweill i ledaenu a chynyddu ein hymagwedd at roi cymorth i gleifion sy'n disgwyl am driniaethau, yn enwedig mewn perthynas â hunanreoli a hyrwyddo pwysigrwydd rhagsefydlu, ac mae hynny wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus ar draws llawer o'n llwybrau canser.



Yn rhan o'n hymagwedd at wasanaethau cleifion allanol, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiad Dilydol ar Gais y Claf, modelau claf sy'n lleihau apwyntiadau dilydol diangen ac yn helpu i ddarparu capasiti i'r cleifion hynny sydd angen cael eu gweld. Mae defnyddio apwyntiadau rhithiol a chlinigau grŵp fideo yn enghraifft arall o'r modd y mae ein timau wedi addasu er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gapasiti ar gyfer cleifion.

Mae'r ymagweddau a amlinellir uchod wedi sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni cymaint o weithgarwch dewisol nad yw'n gysylltiedig â Covid ag sy'n bosibl. Gwyddom er hynny fod llawer mwy o waith i'w wneud. Dyma rai dangosyddion gweithgarwch allweddol:

- Mae gweithgarwch cleifion allanol newydd ar 90% o'r lefelau cyn Covid
- Mae derbyniadau cleifion mewnol dewisol ac achosion dydd ar 80% o'r lefelau cyn Covid
- Mae gweithgarwch Radioleg wedi'u hadfer gan gyrraedd dros 100% o'r lefelau cyn Covid
- Mae gweithgarwch ar dros 120% o'r lefelau cyn Covid.

Y llynedd, gwelwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau o gymharu â blwyddyn gyntaf y pandemig. Er nad ydynt ar yr un lefelau eto â'r hyn a gafwyd cyn y pandemig eto, mae'r cynnydd wedi ymestyn ein rhestrau aros gyda chleifion yn disgwyl yn hirach i gael eu gweld ar draws gwasanaethau cleifion allanol, diagnosteg a thriniaethau (gweler y manylion isod). Ar ddiwedd mis Mawrth 2022:

- Roedd 123,567 o gleifion ar y rhestr aros Amseroedd Atgyfeirio i Driniaeth (AiD), yr oedd 44,083 ohonynt yn disgwyl am gyfnod hwy na 36 wythnos - cynnydd o 11,145 o gymharu â diwedd mis Mawrth 2021.
- Cynyddodd nifer y cleifion a oedd yn aros dros 8 wythnos am brawf diagnosteg o 4,547 ym mis Mawrth 2021 i 5,004 ym mis Mawrth 2022.
- Er bod nifer y cleifion a oedd yn disgwyl am apwyntiad dilydol wedi cynyddu o 170,453 ym mis Mawrth 2021 i 172,909 ym mis Mawrth 2022, cafwyd gostyngiad o 49,862 i 41,939 yn nifer y cleifion a welodd oedi >100% heibio'u dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilydol.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau Gofal Llygaid hanfodol drwy gydol y pandemig. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 95.2% o gleifion a aseswyd fel Ffactor Risg Iechyd A1 wedi cael dyddiad targed gyda 69.5% o gleifion yn disgwyl o fewn eu dyddiad targed neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser ar ddechrau'r pandemig ond, yn dilyn ymgyrch gyfathrebu ragweithiol dan arweiniad Gofal Sylfaenol, maent wedi cynyddu'n raddol. Roedd atgyfeiriadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf dros 20% yn uwch na'r lefel cyn-Covid gyda thriniaethau ar 103%. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gynnal gweithgarwch triniaethau a chyfraddau atgyfeirio, mae gwaith i glirio'r achosion sydd wedi ôl-gronni ac amseroldeb triniaethau wedi achosi heriau o ran ein cyflawniad yn erbyn targed y Llwybr Canser



Sengl, sef 61.5% ar hyn o bryd.

Parhaodd yr ymweliadau â'r Uned Achosion Brys i gynyddu drwy gydol y flwyddyn, a gwelwyd rhai o'r uchafbwyntiau a gafwyd yn y gorffennol dros gyfnod y gaeaf. Yn ystod 2021/22 ymwelodd 135,773 o gleifion â'n Huned Achosion Brys o gymharu â 106,350 yn 2020/21. Oherwydd heriau sylweddol ar draws y system lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gostyngiad yn ein gallu i ryddhau cleifion, gwnaethom wynebu heriau'n gysylltiedig â nifer o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ystod y flwyddyn. Cafodd 67% o'n cleifion eu gweld, eu derbyn neu eu rhyddhau o fewn 4 awr, ac ar gyfer 92.7% digwyddodd hynny o fewn 12 awr. Cynyddodd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid ar draws y gwasanaeth ambiwlans a gofal cymdeithasol i roi newidiadau ar waith a fydd yn gwella llif cleifion ac yn gwella perfformiad. Rydym yn ymwybodol bod rhai cleifion wedi profi oedi hir yn yr Uned Achosion Brys. Rydym wedi cyflwyno nifer o gynlluniau arloesol i wella profiad cleifion, cyflymu ymchwiliadau a lleihau amser yn yr ysbyty, gan gynnwys y 'ward rithiol' a chymorth cymunedol cyflymach i gleifion oedrannus sy'n mynd i'r Uned Achosion Brys y byddai angen eu derbyn fel arall. Rydym wedi cyflwyno mwy o wirfoddolwyr i'r ardal a defnyddio rhai o'n Gweithwyr Cymorth Profiadau Cleifion i fynd i'r Uned Achosion Brys yn ddyddiol a helpu i gyfathrebu a rhoi cymorth yn gysylltiedig â hydradu a maeth. Byddwn yn adolygu'r adborth o giosgau hapus neu ddim yn yr uned yn ddyddiol, i fonitro unrhyw dueddiadau a gweithredu ar sail adborth mewn amser real.

Yn sgil pandemig COVID-19 a phwysau gweithredol parhaus mewn gofal brys ac argyfwng, bu cryn darfu ar y llwybr strôc optimaidd. Mae hyn wedi amharu ar gydymffurfiaeth â mesurau Gwella Ansawdd ar gyfer Strôc. Mae cynllun gwella wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei fonitro drwy Bwyllgor Strategaeth a Chyflawni'r Bwrdd lechyd.

Mae'r galw am wasanaethau lechyd Meddwl wedi parhau'n uchel drwy gydol y flwyddyn, gydag atgyfeiriadau ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth lechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ar 1,495 o atgyfeiriadau ym mis Mawrth 2022 (o gymharu â 1,356 ym mis Mawrth 2021). Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynnydd yn y cleifion yr oedd ganddynt anghenion iechyd meddwl ac ymddygiadol cymhleth. Effeithiodd y cynnydd yn y galw a'r cyfyngiadau ar ein gweithlu ar ein perfformiad yn erbyn Rhan 1a Mesurau lechyd Meddwl yn 2021/22. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gyflawni ers mis Awst 2021 i wella amseroedd mynediad i wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol oedolion ac i wasanaethau CAMHs. Er mai 49% oedd canran yr asesiadau lechyd Meddwl a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod, mae perfformiad CAMHS yn cydymffurfio â'r gofynion ar 88%, ac mae'r cynlluniau'r Bwrdd lechyd i wella'r gwasanaethau oedolion ar y trywydd iawn i sicrhau cydymffurfiaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2022. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, nid oedd yr un claf yn aros dros 57 diwrnod.

O fewn y gwasanaethau Pobl Hŷn mae'r defnydd o dechnoleg wedi golygu bod modd gweld cleifion o bell drwy alwadau ddôn neu fideo. Bellach, caiff achosion eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth drwy system un pwynt mynediad, gan olygu y caiff pob atgyfeiriad ei drafod a'i frysennu er mwyn i'r unigolyn mwyaf



priodol gael gweld y claf, gan leihau achosion o ail-atgyfeirio ac o ailadrodd yr wybodaeth y gofynnir i gleifion ei darparu i wahanol weithwyr proffesiynol.

Mae'r cymorth rydym wedi gallu ei roi i gleifion, gofalwyr, teuluoedd a staff dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei wella'n sylweddol drwy sefydlu'r Coleg Adfer. Mae ein Coleg Adfer (y teitl llawn -Coleg Adfer a Llesiant Caerdydd a'r Fro) yn cynnig cyrsiau addysgiadol am ddim ar ystod o destunau iechyd meddwl, iechyd corfforol a llesiant. Cynhelir ein cyrsiau ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae ymrestriadau wedi cynyddu o 209 yn hydref 2020 i 596 yn hydref 2021, gyda chofrestriadau myfyrwyr yn cynyddu o 130 i 197 dros yr un cyfnod. Mae'r Coleg wedi darparu 225 o weithdai sy'n cyfateb i 605 o oriau addysgu. Mae 49% o fyfyrwyr cofrestredig yn nodi eu bod yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ar hyn o bryd neu'n cael profiad o fyw gyda heriau iechyd meddwl. Mae dros 68% o fyfyrwyr yn cytuno'n gryf fod eu hyder, eu hunanymwybyddiaeth, eu gobaith am ddyfodol gwell a'u hyder wedi gwella yn sgil mynd ar gwrs. Teimlai dros 79% o fyfyrwyr fod y gweithdy y buont ynddo yn gynhwysol, yn ddiogel, yn gefnogol, wedi'i gydgyhyrchu ac yn gydweithredol.

Effaith risg ar ein Hamcanion Strategol

Mae gennym nifer o offer i reoli a lliniaru unrhyw risgiau o bwys a allai effeithio ar ein hamcanion strategol ac, yn eu tro, ar ddarpariaeth ein gwasanaethau. Esbonnir yn llawn sut rydym yn rheoli hyn o dan baragraffau 13.14 i 13.17 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Gofal profedigaeth, ysbrydol a chefnogaeth

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, lluniodd yr Uwch Nyrs Profedigaeth a Rheolwr y Gaplaniaeth ganllawiau cynhwysfawr i'r staff ar gefnogi cleifion ar ddiwedd eu hoes a oedd yn sâl iawn o ganlyniad i COVID-19 neu salwch arall o bosib a oedd yn cyfyngu ar eu bywyd.

Ym mis Ebrill 2020 rhoddwyd llinell gymorth profedigaeth ar waith a chysylltu â phawb a oedd wedi dioddef profedigaeth. Y nod oedd cael rhywun i wrando, cyfeirio pobl at sefydliadau a mentrau eraill, fel ein Llinell Sgwrsio, ac ateb unrhyw ymholiadau lle bo modd yn gysylltiedig â marwolaeth eu hanwyliaid. Hyd yma, mae'r tîm wedi cysylltu â thros 4,000 o deuluoedd mewn profedigaeth i gynnig cymorth.

Yn sgil mesurau rheoli haint drwy gydol y pandemig, mae Tîm y Gaplaniaeth wedi gorfod addasu'r modd y mae'n darparu rhai o'i wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Tîm wedi parhau i roi gofal ysbrydol a bugeiliol i gleifion ac i staff.

Rhan o rôl Tîm y Gaplaniaeth yw cefnogi staff yn ogystal â chleifion, a thros y cyfnod hwn mae'r caplaniaid wedi bod yn cefnogi staff yn dilyn y sefyllfa drist iawn o golli cydweithiwr. Mae angladdau wedi cael ei ffrydio'n fyw i amryw o safleoedd, weithiau mewn sawl lleoliad, fel bo modd i gydweithwyr wyllo gwasanaeth yr angladd a chydymdeimlo mewn modd diogel, gan gadw pellter cymdeithasol. Mae'r perthnasoedd o fewn ein cymuned aml-ffydd wedi cael eu cryfhau yn ystod y cyfnod anodd hwn, a gwelwyd gwahanol grwpiau ffydd yn cefnogi'r naill a'r llall.



3.8 Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd drwy gydol y flwyddyn o ran y cyfyngiadau ar gapasiti

Pryderon

Fel y rhagwelwyd, rydym wedi gweld cynnydd yn y pryderon eleni ynghylch amseroedd aros ac apwyntiadau/derbyniadau wedi'u canslo ac mae nifer o fentrau a gwahanol ffyrdd o weithio yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r ôl-groniad a achoswyd gan Covid.

- Anogwyd Byrddau Clinigol i ailymgysylltu â'u cleifion drwy droi diweddariad ar restrau aros drwy lythyr.
- Mae Byrddau Clinigol wedi ailddylunio llwybrau i roi cleifion sydd wedi bod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau/dderbyn gofal yn ystod y pandemig ar lwybr carlam.
- Cyflwyno clinigau penwythnos
- Defnyddio gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn effeithiol fel bod pobl yn cael eu gweld ynghynt mewn Gofal Sylfaenol yn hytrach na Gofal Eilaidd.

Newidiadau i drefniadau ymweld - effaith a'r gwersi a ddysgwyd

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, cyfyngwyd ar ymweliadau yn ystod y pandemig. Ers dechrau mis Ebrill 2021, mae'r Tîm Pryderon wedi bod yn cynnal llinell archebu 7 diwrnod (gan gynnwys Gwyliau Banc) er mwyn i berthnasoedd drefnu i ymweld, ac mae'r llinell archebu'n eithriadol o brysur drwy'r amser. Ar gyfartaledd, rydym

yn derbyn 500 o geisiadau am ymweliad bob wythnos, ac mae tua 70% o alwadau'n arwain at drefnu ymweliad. Mae'r Tîm Pryderon yn gweithio'n agos gyda'r clinigwyr i roi cyngor ynghylch arferion ymweld diogel ac i gasglu'r manylion cyswllt angenrheidiol.

Gwella diogelwch - Dysgu yn sgil digwyddiadau difrifol, materion diogelu ac adolygiadau annibynnol

Mae Digwyddiadau Difrifol, neu Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) fel y'u gelwir bellach, yn ffocws mawr i'r Tîm Diogelwch Cleifion Corfforaethol. Rydym wedi adrodd wrth yr Uned Gyflawni am achosion o oedi, er enghraifft, wrth roi diagnosis o ganser, yn sgil y cyfyngiadau cyfredol ar gapasiti. Mae gwaith sylweddol ar y gweill o fewn y Byrddau Clinigol i leihau amseroedd aros drwy ddefnyddio cynlluniau fel allanoli gwasanaethau ar y penwythnos, cynlluniau ar gyfer rhestrau aros, ac adolygu'r galw a'r capasiti er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'n glir fod yr Uned Achosion Brys wedi bod o dan bwysau yn sgil y proffiliau rhyddhau gwael, gyda mwy o gleifion na chapasiti i ofalu amdanynt o fewn yr Uned. Mae hyn yn golygu na fydd cleifion bob amser yn derbyn gofal yn y man mwyaf priodol. Mae cynllun cadarn wedi'i sefydlu i reoli'r amgylchedd ac i wella deilliannau sydd o bwys i gleifion.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau o bwys yr adroddwyd amdanynt wrth WAST (Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) ynghylch oedi wrth ymateb i alwadau 999, a niwed



yn cael ei achosi i gleifion yn y gymuned yn sgil hynny. Mae oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans ar draws yr holl Fyrddau lechyd yn cael effaith ar nifer yr ambiwlansys sydd ar gael i ymateb yn brydlon i alwadau 999. Mae'r Uned Achosion Brys yn gweithio gyda WAST i weithredu cynlluniau i fynd i'r afael â hyn ar fyrder. Enghraifft o hyn yw Rhag-dderbyn, sydd wedi achosi gostyngiad yn nifer yr oriau y bydd yn rhaid i ambiwlansys aros i drosglwyddo cleifion i'r Uned Achosion Brys. "Rhag-dderbyn" yw proses lle byd capasiti'n cael ei greu i griwiau ambiwlans sydd wedi bod yn aros dros 3 awr yn yr Uned Achosion Brys. Penderfynir rhag-dderbyn ar sail llif cleifion. Bydd claf addas â DTA (penderfyniad i dderbyn) yn cael ei nodi a'i symud i ofod wedi'i neilltuo ymlaen llaw ar ward lle ceir cadarnhad y bydd claf yn cael ei ryddhau/y gallai claf gael ei ryddhau). Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion Corfforaethol hefyd wedi cwrdd â WAST, yr Uned Achosion Brys a'r Tîm Llawdriniaethau, Cynllunio a Thrawsnewid (OPAT) i adolygu pob achos a sicrhau ymagwedd gadarn at ymchwilio a dysgu.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, rhoddwyd y gorau'n genedlaethol i adrodd NRIs wrth yr Uned Gyflawni, ond roedd disgwyl o hyd i Fyrddau lechyd barhau i adolygu'r achosion hyn gan gynnal ymchwiliad cymesur. Ers llacio'r cyfyngiad hwn ym mis Mehefin 2021, rydym wedi gweld nifer yr NRIs yn codi i lefel uwch na'r ffigurau adrodd a gafwyd cyn y pandemig, er nad yw'r gwahaniaeth hwnnw'n fawr. Mae'r pwysau gweithredol wedi amharu ar y gallu i gynnal ymchwiliadau prydlon, ac yn sgil hynny'r gallu i gau NRIs o fewn yr Uned Gyflawni. Roedd y Bwrdd lechyd yn eithriad o ran nifer yr NRIs a oedd yn hwyr. Mae'n bwysig nodi bod y Bwrdd lechyd hefyd yn ohebydd uchel, sy'n

arddangos diwylliant adrodd agored ond hefyd yn adlewyrchu natur gymhleth y gofal a ddarperir, a all hefyd effeithio ar raddfeydd amser ar gyfer cynnal ymchwiliadau. Mae Tîm Diogelwch Cleifion y Bwrdd lechyd wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Byrddau Clinigol dros y 2 fis diwethaf i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer yr NRIs sy'n hwyr o fewn yr Uned Gyflawni.

Mae'n bwysig hefyd adolygu'r digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu lle cafwyd lefel isel o niwed yn gysylltiedig ag oedi cyn cael mynediad i wasanaethau o ganlyniad i'r cyfyngiadau cyfredol ar gapasiti. Byddwn yn adrodd digwyddiadau lle cafwyd niwed, neu lle gallai fod wedi digwydd drwy SYSTEM DATIX Cymru gyfan (hy, y system sy'n casglu digwyddiadau clinigol, cwynion a hawliadau). Byddwn yn ystyried pob adroddiad lle cofnodwyd codau canslo llawdriniaethau (gan nad oedd gwely ar gael, neu oherwydd diffyg capasiti o fewn yr Uned Gofal Dwys).

Mae'n hollbwysig dysgu yn sgil unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, ac i sicrhau ein bod yn dysgu cymaint o wersi ag sy'n bosibl a chefnogi hyn mae'r Tîm Diogelwch Cleifion wedi sefydlu fforwm Arweinwyr Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Byrddau Clinigol, lle bydd pob Bwrdd Clinigol yn cyflwyno'r hyn a ddysgwyd o achos lle maent yn tybio bod cyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd. Mae'r broses hon hefyd yn cynnig rhwydwaith i gael cymorth a chydweithredu'n gysylltiedig â digwyddiadau lle mae angen mewnbwn gan amryw o Fyrddau Clinigol. Mae'r fforwm hwn hefyd yn helpu i safoni prosesau'n gysylltiedig â diogelwch cleifion a rheoli risg. Mae'r Byrddau Clinigol hefyd yn cynnal cyfarfodydd ADPh (Ansawdd,



Diogelwch a Phrofiad) lle bydd hanes cleifion ac ymchwiliadau a gwblhawyd yn cael eu cyflwyno, unwaith eto gyda phwyslais ar ddysgu.

Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion Corfforaethol hefyd yn cynnal y Pwyllgor Dysgu Sefydliadol a fydd yn rhoi trosolwg lefel uwch dros y gwersi a ddysgwyd, gan sicrhau bod y gwersi'n gadarn a chynaliadwy yn ogystal â chymorth lefel uwch ar gyfer dysgu ehangach y Bwrdd Iechyd.

4. Gweithio i Wella (GiW)

Mae'r Tîm Pryderon canolog wedi parhau i weithio'n unol â'r Rheoliadau Gweithio i Wella.

Yn ystod y pandemig, mae'r Tîm Pryderon wedi ysgrifennu at bawb â phryder gweithredol i'w hysbysu y gallai gymryd mwy o amser inni ymateb yn ystod y cyfnod hwn nag yr ydym yn dymuno, ond nad ydym wedi anghofio amdanynt, a'n bod yn ymrwymo i ymateb i'w pryderon, ac yn eu sicrhau y byddwn yn ymateb ar y cyfle cyntaf.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, mynegwyd dros 4,000 o bryderon wrthym. Fel y rhagwelwyd, roedd hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn gynt, pan fynegwyd 2,974 o bryderon wrthym (Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021). Mae rhai o'r themâu a nodwyd yn ymwneud â chyfathrebu gwael, amseroedd aros, trefniadau rhyddhau, a'r amgylchedd (ymbellhau cymdeithasol).

Yn ystod y pandemig, sylwyd bod cyfathrebu gwael yn thema a godai dro ar ôl tro ym mhob maes, gan gynnwys:

- *Cyfathrebu gwael rhwng staff a pherthnasau*

Gan nad oedd teuluoedd yn gallu ymweld ag anwyliaid yn yr ysbyty, roedd y cyfathrebu rhwng staff a pherthnasau'n bwysig. Gan hynny, i hwyluso'r broses gyfathrebu, darparodd y Tîm Pryderon wasanaeth 7 diwrnod.

- *Nid oedd cleifion yn gwybod beth oedd yn digwydd gyda'u triniaethau/ amseroedd aros.*

Ysgrifennodd y Byrddau Clinigol at gleifion i roi'r newyddion diweddaraf am eu gwasanaethau.

- *Cyfathrebu gwael ynghylch ymweld a chanllawiau gwael ar frechu.*

Llinellau cymorth 7 diwrnod ar gyfer ymweld â chleifion a gwybodaeth am ymgyrchoedd brechu torfol, a chyflwyno ymweliadau rhithiol.

- *Nid oedd cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal/y broses o'u rhyddhau*



Mabwysiadwyd nifer o fentrau i wella'r cyfathrebu rhwng cleifion a'r staff. Mae'r Bwndel Mwy Diogel sy'n cael ei brofi ar un ward yn enghraifft o ward sy'n cynnwys cleifion yn weithredol yn eu gofal. Anogir cleifion i ofyn:

Beth sy'n bod arna i?

Beth sy'n mynd i ddigwydd heddiw?

Beth sydd ei angen imi gael mynd adref?

Pryd ydw i'n mynd adref?

Mae hyn yn cyd-fynd yn dda iawn â'r Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad drwy ddechrau'r sgwrs "beth sydd o bwys i chi" gyda chleifion.

Ni ellir amcangyfrif yn rhy uchel beth fu effaith COVID-19 ar ein hamgylcheddau ysbty. Mae'r gofynion ymbellhau cymdeithasol wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein hadrannau, ac wedi arwain at fynegi nifer o bryderon yn gysylltiedig â diffyg ymbellhau cymdeithasol a diffyg hylendid.

Er ei bod hi wedi bod yn anodd iawn lleihau'r capasiti yn ein hadrannau prysurach, fel yr Uned Achosion Brys, rydym wedi cymryd sawl cam i godi ymwybyddiaeth ynghylch y problemau a godwyd, ac i wella hylendid.

Anfonir nodynnau atgoffa allan drwy "Cyswllt y Prif Weithredwr" (cylchlythyr wythnosol y Prif Weithredwr a anfonir at staff y Bwrdd Iechyd) ac mewn negeseuon e-bost i'r staff i'w hatgoffa ynghylch pwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol lle bo modd.

- Deunyddiau wedi'u dylunio i helpu i gadw pellter cymdeithasol
- Gweithdrefnau a rotas Glanhau Gwell
- Ailwampio ardaloedd drwy ailaddurno

Fel y rhagwelwyd, rydym wedi gweld cynnydd yn y pryderon eleni ynghylch amseroedd aros ac mae nifer o fentrau a gwahanol ffyrdd o weithio yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r ôl-groniad a achoswyd gan COVID-19. Gweler y paragraff "Pryderon" o dan Adran 3.8 uchod.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n braf nodi bod y perfformiad 30 diwrnod gwaith wedi amrywio rhwng 77 ac 82 y cant, sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 75%.

5. Cyflawni mewn Partneriaeth

Mewn sawl maes mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflawni cynlluniau i wella iechyd a llesiant ein poblogaeth, ac i ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Mae ein partneriaid yn cynnwys sefydliadau eraill GIG Cymru, y ddau awdurdod lleol (Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg), y trydydd sector a darparwyr annibynnol.

Yn rhan o'n hymateb i'r pandemig, sefydlwyd amrywiaeth o wasanaethau'n gyflym gyda'r awdurdodau lleol fel y manylir yn Adran 3.4 uchod.



Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal y tîm sy'n gweithio ar ran partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi cynorthwyo timau iechyd a gofal i gynnal ystod o fentrau a darparu ystod o wasanaethau wedi'u dylunio i roi cymorth a chefnogaeth gynnar i ddinasyddion pan fydd angen, er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i fyw'n ddiogel ac yn iach yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth – gan gynnwys anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, anghenion sy'n deillio o fod yn anabl yn gorfforol, a'r rhai sydd ar ffiniau gofal. Yn ystod y flwyddyn mae'r Rhaglen @gartref wedi cael ei sefydlu o dan gyfarwyddyd y Bartneriaeth Heneiddio'n Dda i sicrhau bod gennym yr ystod gywir o wasanaethau ar waith yn y gymuned i helpu pobl i fyw'n annibynnol ac i gefnogi pobl pan fydd eu hanghenion yn cynyddu, neu ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae Clwstwr Gofal Sylfaenol De-orllewin Caerdydd wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwn, a thrwy'r Rhaglen Drawsnewid a ariennir yn genedlaethol mae wedi gweithredu model gofal amlddisgyblaethol, a model presgripsiynu cymdeithasol gweithgar iawn – y mae'r ddau ohonynt yn atal derbyniadau i'r ysbyty ac yn cynyddu llesiant. Mae'r Bartneriaeth Heneiddio'n Dda hefyd yn goruchwyllo cyflawniad y Cynllun Gweithredu Dementia.

Mae'r Bartneriaeth Byw'n Dda, sy'n dal i gael ei sefydlu'n ffurfiol, wedi rhoi ffocws ar wella gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu, drwy weithredu'r Strategaeth Cydgomisiynu

ar gyfer Anableddau Dysgu, a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r Bartneriaeth Dechrau'n Dda wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu darpariaeth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a datblygu ymagwedd 'dim drws anghywir' o ran mynediad at wasanaethau llesiant emosiynol ac iechyd meddwl. Mae gwaith hefyd wedi parhau'n gysylltiedig â'r model 'tîm o amgylch y teulu' sy'n cefnogi pobl ifanc ar ffiniau gofal.

Gwasanaethau Gofal Iechyd Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd cyfagos i ddatblygu a gweithredu modelau gwasanaeth rhanbarthol lle bo hynny'n gwneud synnwyr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy, yn bodloni safonau allweddol ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi arwain y gwaith o sefydlu'r Ganolfan Trawma Mawr yn YAC, sy'n rhan o'r Rhwydwaith Trawma Mawr sydd newydd ei sefydlu, a datblygiad model Gwasanaethau Fasgwlaidd Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, a fydd yn canoli'r holl lawdriniaethau fasgwlaidd yn YAC. Cynhaliwyd prosesau ymgysylltu/ymgyngori yn sail ar gyfer y ddau ddatblygiad.

Yn rhan o'r rhaglen adfer gynlluniedig, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau i ystyried datrysiadau posibl er mwyn ymdrin â'r achosion o bobl sy'n disgwyl am driniaeth wedi'i chynllunio sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ellid, ac a ddylid, datblygu canolfannau rhanbarthol ar gyfer gweithgarwch llai cymhleth a dwysedd uwch.



Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi ffurfio partneriaethau ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, BIP Cwm Taf Morgannwg, BIP Aneurin Bevan a BIP Abertawe i hyrwyddo agendâu ar y cyd.

6. Rheolaeth a Llesiant y Gweithlu

Dros y 2 flynedd ddiwethaf mae'r Bwrdd lechyd wedi wynebu un o'i heriau staffio mwyaf yn ystod pob ton y pandemig. Yn ogystal â lefelau salwch uwch nag erioed o dros 8% ymhlith y staff, cafwyd hefyd fwy o alw am fwy o staff i helpu gyda Rhaglen Frechu COVID-19, ac ar gyfer cynlluniau adfer y Bwrdd lechyd a anelai i leihau rhestrau aros cynyddol o gleifion a ddeilliai o'r pandemig. Her arall oedd y cynnydd mewn cleifion Covid, a'r staff ychwanegol oedd eu hangen i agor wardiau ychwanegol yn y prif ysbytai ac yn Adain Glan Llyn.

Roedd staffio'r wardiau yn arbennig o heriol ar brydiau gan fod y gyfradd swyddi gwag ar gyfer Nyrsys Cofrestredig dros 13%, a chydag aelodau eraill o staff yn absennol oherwydd salwch, hunanynysu neu warchod eu hunain rhag Covid-19, ac absenoldeb mamolaeth, cododd y gyfradd honno i 22%. Roedd yn hollbwysig bod staff yn gallu gweithio'n hyblyg mewn gwahanol leoliadau o fewn y Bwrdd lechyd er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Bu'r staff yn gweithio mewn modd hynod hyblyg ac o dan bwysau sylweddol er mwyn sicrhau gofal diogel i gleifion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, datblygodd y Bwrdd lechyd gynllun clir i sicrhau y byddem yn parhau i gynnig lefelau staffio diogelar gyfer ein cleifion. Cyflawnwyd hyn drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Nodi'r staff hynny y gellid eu hadleoli i ofalu am y capasiti ychwanegol yr oedd ei angen ar gyfer cleifion Covid. Roedd hyn yn cynnwys staffio ardaloedd lle'r oedd gweithgarwch dewisol naill ai wedi'i leihau neu ar stop.
- Symud nyrsys nad oeddent yn gweithio ar ward i ardaloedd ward ar ôl cynnal hyfforddiant gloywi ar fyr-rybudd. Er enghraifft, Arbenigwyr Nyrsio Clinigol.
- Gofyn i'r clinigwyr hynny a oedd wedi ymddeol a allent ddychwelyd i'r gwaith dros dro.
- Datblygu canolfan i'r gweithlu'n benodol er mwyn recriwtio nifer fawr o staff o fewn cyfnod byr iawn. Mae dros 2,000 o aelodau staff wedi cael eu recriwtio a nifer fawr ohonynt wedi sicrhau swyddi parhaol o fewn y Bwrdd lechyd.
- Rhaglen dreigl i recriwtio nyrsys a oedd yn cynnwys dros 200 o nyrsys o wledydd tramor.
- Defnyddio myfyrwyr nyrsio a meddygol fel cronfa o staff dros dro.
- Lleoli staff meddygol lle'r oedd yr angen clinigol mwyaf.



Bu adegau dros y 2 flynedd diwethaf lle'r oedd darparu digon o staff i gynnal lefelau gofal diogel yn heriol iawn. Fodd bynnag, drwy ymdrechion caled y rhai a oedd yn gweithio ac yn rheoli yn yr ardaloedd hyn, sicrhawyd bod popeth yn cael ei wneud i gadw ein cleifion yn ddiogel, gan gynnal diogelwch ein staff ar yr un pryd.

6.1 Nodi a Hyfforddi Staff i Gyflawni Rolau Newydd

Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW)

Mae gwaith wedi parhau i ddarparu rhaglen gynefino 2.5 diwrnod fyrrach na'r arfer ar gyfer Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, er mwyn cefnogi'r cyfnodau recriwtio torfol parhaus. Trafodai'r rhaglen hanfodion gofal. Mae dros 600 o HCSWs wedi cael eu hyfforddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rolau HCSW newydd

Mae gwaith cwmpasu a datblygu helaeth wedi'i gyflawni'n sail ar gyfer datblygu rolau HCSW newydd yn 2021/22. Mae'r tîm Dysgu, Addysg a Datblygiad (DAD) yn cefnogi datblygu rolau a datblygu a darparu hyfforddiant i HCSW Uwch ym Mand 3 i weithio yn yr Unedau Gofal Trosiannol ac Ymarferydd Cynorthwyol Band 4 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Amdriniaethol a Nyrsio Cymunedol. Drwy gydweithio â Grŵp Gweithlu HCSW y Bwrdd Iechyd a Grŵp Ymarferwyr Cynorthwyol (Nyrsio) Band 4 Cenedlaethol, mae gan y Bwrdd Iechyd y seilwaith angenrheidiol i gefnogi datblygiad parhaus rolau HCSW newydd i mewn i 2022.

Mae cyllid Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi'i sicrhau ar gyfer 2022/23 ar gyfer swydd i gefnogi datblygiad gweithwyr cymorth ar draws therapïau a gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau gweithredol ac ystadau.

Gweithwyr Cefnogi Amgylchedd Cleifion

Mae rôl Ysgogwr newydd o'r enw "Gweithiwr Cymorth Amgylchedd Cleifion" wedi cael ei datblygu i helpu gyda thasgau anghlinigol mewn ardaloedd ward. Mae cyfanswm o 12 o bobl ifanc wedi cael eu recriwtio i'r rôl. Mae'r tîm DAD yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus.

Y Rhaglen Nyrsys Tramor

Mae'r rhaglen hon wedi parhau i gefnogi ffrwd waith recriwtio nyrsys rhyngwladol y Bwrdd Iechyd gyda maint y carfannau'n cynyddu i 28 o nyrsys fesul mis. Mae cyfanswm o 245 o nyrsys wedi cwblhau'r rhaglen ac ymuno â'r Bwrdd Iechyd ers ei dechreuad.

Safonau Nyrsys a Bydwagedd y Dyfodol

Yn 2021 arweiniodd Tîm Addysg Nyrsys DAD ffrwd waith gydweithredol Genedlaethol i ddatblygu 'Fframwaith Dysgu Ymarfer Cymru Gyfan' er mwyn cefnogi gweithrediad Safonau Nyrsys y Dyfodol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r safonau hyn yn galluogi myfyrwyr nyrsio i ddatblygu set uwch o sgiliau a oedd yn y gorffennol yn cael eu datblygu ar ôl cofrestru, Lanswyd y Fframwaith ym mis Ionawr 2022, ac mae'n ein helpu i ddatblygu ein gweithlu i'r dyfodol.



Roedd y safonau newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i fentoriaid nyrsio drosglwyddo i rolau Asesydd Ymarfer a Goruchwylydd Ymarfer newydd. Yn 2021, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod 93% yn cydymffurfio â'r hyfforddiant trosglwyddo gofynnol, ac mae cyfanswm o 1,450 o fentoriaid wedi cwblhau'r hyfforddiant dros y 3 blynedd diwethaf. Mae 800 o aseswyr ymarfer a goruchwylwyr ymarfer newydd hefyd wedi cael eu hyfforddi, sy'n gyflawniad aruthrol ac ystyried cyfyngiadau COVID-19.

Rhaglen Diwtoriaeth

Cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen diwtoriaeth ar gyfer nyrsio i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag egwyddorion tiwtoriaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a lansiwyd yn 2021. Yn rhan o'r adolygiad mae diwrnod arweinyddiaeth rhyngbroffesiynol a gwaith tîm, o dan arweiniad y Fyddin wrth gefn, wedi cael ei gyflwyno i gefnogi staff gofal iechyd clinigol o bob broffesiwn sydd ar eu blwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru.

Hyfforddiant sgiliau

Mae gwaith brys wedi'i gyflawni i newid y model datblygu sgiliau ar gyfer sgiliau clinigol hanfodol yn wyneb pwysau'r pandemig. Drwy raglenni e-ddysgu ar gyfer gwythien-bigo a chanwleiddiad a datblygu hyfforddwyr sgiliau clinigol, bu modd mabwysiadu dull eithriadol o hyblyg er mwyn caffael y sgiliau hyn. Mae cyfres o adnoddau dysgu rhithiol wedi cael eu datblygu ar gyfer rhaglenni rheoli meddyginiaethau, arwain a rheoli a Rhaglen Addasu Nyrsys Tramor, sy'n cael eu cynnal ar lwyfan a elwir yn Dysgu@Cymru. Cafodd llwybr dysgu rhithiol hefyd ei lansio sy'n helpu Nyrsys oddi ar Ward i gynyddu eu sgiliau pan fo angen iddynt wneud gwaith clinigol.

Datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth

Gwyddom fod nifer fawr o arweinwyr a rheolwyr wedi cael eu penodi neu eu dyrchafu yn ystod y pandemig, yn enwedig mewn timau clinigol. Oherwydd hyn, mae'r rhaglenni rheoli wedi cael eu hailddylunio a'u hail-lansio. Mae cam cyntaf rhwydwaith hyfforddi wedi cael ei sefydlu i roi cymorth i staff sydd angen cymorth mewnol.

Ar ddechrau'r pandemig yn 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth frys a oedd yn caniatáu i gyrff proffesiynol gefnogi'r ymateb i bandemig COVID-19 drwy greu **cofrestr dros dro**. Golygai'r ddeddfwriaeth hon y gallai cyrff, fel y GMC a'r NMC, ailgofrestru unigolion cymwys, priodol â chymwysterau addas dros dro, fel y gallent helpu gyda phandemig y Coronafeirws pe baent yn dymuno, ac yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys staff a oedd wedi ymddeol ond a oedd am ddychwelyd i ymarfer dros dro.

Cafwyd ymateb da gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol a gynigiodd eu sgiliau a'u gwasanaeth i helpu gyda'r her ddigynsail hon. Llwyddwyd i recriwtio 4 meddyg ymgynghorol a 10 o nyrsys a oedd wedi ymddeol. Fodd bynnag, yn unol â chynllun "Byw gyda Covid" y Llywodraeth, ni chaiff y cyrff proffesiynol dderbyn ymgeiswyr newydd i gofrestr dros dro COVID-19 o 24 Mawrth 2022 ymlaen, a bydd y cofrestrau dros dro yn cau ar 30 Medi 2022. Mae hyn yn golygu os byddant yn dymuno parhau i weithio, bydd yn rhaid i'r unigolion ymuno â'r gofrestr barhaol berthnasol.



Llesiant y Staff

Mae'r Bwrdd Iechyd yn frwd dros ofalu am lesiant ei aelodau staff. Ar ôl cais llwyddiannus i'r Elusen Iechyd ym mis Tachwedd 2020 cafodd y **Tîm Ymyrraeth Iechyd (TYI)** ei sefydlu ym mis Mawrth 2021. Mae'r tîm dwy flynedd yn cynnwys pedwar gweithiwr proffesiynol sydd wedi'u cynnull ynghyd i hyrwyddo ac integreiddio ymagwedd ragweithiol at lesiant o fewn y sefydliad. Mae'r setiau sgiliau o fewn y tîm yn amrywio rhwng AD, dadansoddi data, rhaglenni datblygu llawr gwlad, ymgysylltu â rhanddeiliaid, rheoli a nyrsio; gyda'i gilydd, mae'r sgiliau hyn wedi galluogi'r tîm i gwestiynu arferion a gweithdrefnau arferol a datblygu darnau pwrpasol o waith ar draws y sefydliad.

Ffocws cychwynnol y tîm oedd deall anghenion y gweithlu o ran lesiant. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer cwrpasu dros gyfnod o bedwar mis yn gwrando ar amrywiaeth o staff yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill: Staff Domestig, HCSWs, Nyrsys, Bydwagedd, Meddygon, staff Labordy, derbynyddion, Gweinyddwyr a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. I gefnogi'r ymatebion ansoddol, cwblhawyd holiadur i'r gweithlu cyfan gan dros 1,000 o aelodau staff. Casglwyd y safbwyntiau a'r disgwyliadau hyn ynghylch lesiant yn Adroddiad y Tîm Ymyrraeth Iechyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys chwe thema:

- Llesiant - Integredig, hygrych a normal.
- Parch - Amlgyfeiriadol ac wedi'i ymwreiddio
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth - Cefnogol, effeithiol a gweladwy
- Hyfforddiant ac addysg - Paratoi, datblygu, hygrych.
- TG a chyfathrebu - Clir, teg a chyson

- Cyfleusterau a'r amgylchedd - Modern ac addas i'r diben

Cyflwynwyd y canfyddiadau o ymgynghoriadau a holiaduron y staff gerbron Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, ac fe'u hadlewyrchwyd yng Nghynllun Pobl a Diwylliant y Bwrdd Iechyd. Rydym yn mynd i'r afael â chynlluniau gweithredu'r TYI ar y cyd â chydweithwyr o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r TYI hefyd wedi trefnu digwyddiadau lesiant ar gyfer nyrsys o wledydd tramor, Amser Siarad Nawr (annog trafodaethau am iechyd meddwl), meddygon iau a rheolwyr ward. Mae'r tîm bob amser wedi bod yn awyddus i gyfleu'r neges wrth y staff ynghylch lesiant, gan deithio i safleoedd cymunedol a chynnig sesiynau gwrando i'r holl dimau lleol. Mae'r TYI ar hyn o bryd yn cynllunio treialon rhagarweiniol o rowndiau Schwartz, MedTRiM a Chynnal Gwytnwch yn y Gwaith. Mae'r TYI yn parhau i daro cydbwysedd rhwng allgymorth i adrannau unigol a datblygu ymyriadau a fydd o fudd i'r gweithlu ar system gyfan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar lesiant ei staff, gan adolygu, addasu a chyflwyno ymyriadau ac adnoddau i gefnogi iechyd a lesiant ein gweithlu dros gyfnod parhaus y pandemig. Mae cydbwysu pwysau parhaus a chynyddol ar wasanaethau, gofynion ar gyfer atal heintiau COVID-19 ac ynysu, a phrinder staff ochr yn ochr â lesiant ein gweithlu, yn parhau i fod yn her.

Mae'r Grŵp Llesiant Strategol a sefydlwyd yn 2020 ac a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant, wedi gweithio'n dda i amlygu'r agweddau y dylai'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio arnynt wrth ymateb i anghenion lesiant ein staff. Gan gynnwys



cynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad, o amrywiaeth o rolau a phroffesiynau a phartneriaid undeb llafur, mae'r grŵp hwn wedi galluogi penderfyniadau a chamau gweithredu cyflym er budd llesiant y staff.

Dyma enghreifftiau o gamau gweithredu y mae'r grŵp wedi mynd ar eu trywydd, ac sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:

- Cyflwyno cymorth ychwanegol gan gymheiriaid mewn ardaloedd peilot, ee Rowndiau Schwartz
- Cydweithio â'r Coleg Adfer a Llesiant i wella'r Cymorth gan Gymheiriaid
- Buddsoddi mewn gorsafoedd dŵr ychwanegol ar draws safleoedd ysbytai
- Gwell datblygiad a chefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth
- Adnewyddu ystafelloedd staff a gwella cyfleusterau meithrinfa'r staff
- Encilfeydd llesiant ar gyfer staff sydd mewn perygl o ddioddef, neu sy'n profi, symptomau lludded.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth, addysg a datblygu yn gysylltiedig ag Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae buddsoddiad y Bwrdd lechyd yng nghapasiti ychwanegol ei Wasanaeth Llesiant Gweithwyr, sy'n cynnwys cwnsela staff, uwch ymarferwyr a Thîm Ymyriadau lechyd, yn parhau i gefnogi'r anghenion sy'n dod i'r amlwg ymhlith ein gweithlu.


Dyma enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn:

- Cyflwyno dros 2,400 o sesiynau cwnsela unigol a 252 o sesiynau hunangymorth dan arweiniad
- Sesiynau addysg ac ymwybyddiaeth ar-lein yn canolbwyntio ar themâu llesiant
- Datblygu gweithdai llesiant wedi'u recordio y gellir eu gwyllo ar unrhyw adeg
- Caffis menopos misol a sesiynau codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r menopos
- Sesiynau grŵp cymorth cymheiriaid ar-lein ar gyfer Covid hir
- Cyflwyno dros 80 o wahanol weithdai i fwy na 630 o staff
- Parhau â'r rhaglen Hyrwyddwyr Llesiant, gyda thros 230 o Hyrwyddwyr Llesiant wedi'u hyfforddi ar draws y Bwrdd lechyd.
- Cymorth misol i reolwyr llinell drwy sesiynau holi ac ateb ar-lein
- Darparu sesiynau galw heibio ar draws safleoedd a thimau'r Bwrdd lechyd
- Datblygu cymorth wedi'i dargedu, mewn cydweithrediad â Dr Julie Highfield, i gefnogi staff sy'n wynebu heriau a phwysau neilltuol



Cynllun Pobl a Diwylliant

2022-2025



Llunio ein
Gweithlu
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Workforce



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Mae **'Gwarchod'** yn golygu amddiffyn y bobl hynny sy'n **Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol**, y gallent brofi cymhlethdodau difrifol yn gysylltiedig â coronafeirws gan fod ganddynt eisoes gyflwr iechyd neilltuoel. Derbyniodd yr unigolion hyn lythyr gwarchod oddi wrth Lywodraeth Cymru (neu lythyr cyfatebol oddi wrth eu meddyg teulu/harbenigwr) yn eu cynghori i'w gwarchod eu hunain drwy aros gartref. Mae'n bosibl bod rhai aelodau o staff wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd eu bod yn gofalu am rywun sy'n cael ei ystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol (hy, i warchod aelod o'r teulu. Yn ystod yr uchafbwynt, yn ystod y don gyntaf, roedd 637 o staff (517.64 cyfwerth ag amser llawn/CALL) o staff ar y rhestr warchod, ond daeth y cyfnod gwarchod i ben yn swyddogol ar 31 Mawrth 2021.

Dyma'r camau a gymerwyd i gefnogi'r staff a oedd yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod gwarchod:

1. Cynnig y dewis i ddychwelyd i'w swydd barhaol yn raddol, gan drafod unrhyw bryderon â nhw a'u cefnogi i ddychwelyd i'r amgylchedd gwaith a oedd yn gyfarwydd iddynt.
2. Symud staff i rôl arall am gyfnod dros dro os oeddent yn dal yn methu dychwelyd i'w rôl barhaol, a rhoi cefnogaeth i weithio mewn ardal newydd.
3. Ar ôl symud staff i rôl arall dros dro, trafod ac asesu'r sefyllfa gyda nhw a'u helpu i aros mewn rôl arall sy'n fwy addas am gyfnod parhaol, pan ddaw swydd i'r amlwg.
4. Galluogi staff i weithio gartref am gyfnod cyn dychwelyd i'r safle gwaith a chyflawni eu rôl.

Ym mis Mawrth 2022 roedd tri aelod o staff, er nad oeddent yn 'gwarchod', yn methu dod i'r gwaith. Staff clinigol yw'r rhain sydd yn feichiog ers 28 wythnos neu fwy, ac na chanfuwyd rolau eraill addas iddynt.

Offeryn allweddol i gefnogi'r holl staff, ond hefyd y rhai a oedd yn gwarchod oedd **Adnodd Asesu Risg COVID-19** ar gyfer y Gweithlu ar gyfer Cymru gyfan. Datblygwyd yr adnodd hwn er mwyn helpu unigolion a'u rheolwyr i ddeall a oedd mwy o risg iddynt ddatblygu symptomau mwy difrifol o ddod i gysylltiad â firws COVID-19, a chytuno ar y camau cywir ar eu cyfer ar sail eu lefel risg. Gwir werth yr adnodd yw y dylai ysgogi trafodaeth rhwng yr aelod staff a'i reolwr ynghylch ei amgylchiadau personol. Ym mis Mawrth 2022, cofnodwyd 1,588 o asesiadau risg yn ESR (cynnydd o gymharu â 1,083 ym mis Mawrth 2021). Fodd bynnag, nid yw'n orfodol cwblhau asesiad risg, ac nid yw ychwaith yn orfodol i'r sawl a'i cwblhaodd gofnodi'r canlyniadau yn ESR.

Yn ogystal ag asesiad risg Cymru gyfan, datblygodd y Bwrdd Iechyd Asesiad Risg ar wahân i Staff Beichiog a Allai Ddod i Gysylltiad â'r Coronafeirws, i'w gwblhau gan reolwyr ar y cyd â gweithwyr beichiog o leiaf ddwywaith yn ystod eu beichiogrwydd. Diweddarwyd yr asesiad ym mis Mawrth 2022 i adlewyrchu newidiadau i'r canllawiau cenedlaethol a data clinigol sy'n awgrymu bod y risg o gymhlethdodau'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynyddu ar ôl tua 26 wythnos o feichiogrwydd.



6.2 Marwolaethau Staff oherwydd COVID-19

Unwaith eto, mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol i'r staff o ran rheoli'r pandemig byd-eang. Drwy drugaredd, ni fu unrhyw farwolaethau pellach ymhlith y staff o ganlyniad i COVID-19, ond rydym yn parhau i gynnig mecanweithiau cymorth i staff sydd wedi colli cydweithwyr drwy'r tîm Profiadau Cleifion/y gaplaniaeth. Gweler y paragraff o dan y teitl Gofal Profedigaeth, Ysbrydol a Chefnogaeth o dan Adran 3.7 am ragor o wybodaeth.

6.3 Fforwm Partneriaeth Leol a Grwpiau Eraill i Ymgysylltu â Gweithwyr

Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLL)

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i "ystyried sylwadau a wneir gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu." Gwneir hyn yn rhannol gan dri o Grwpiau Cyngori'r Bwrdd, ac un o'r rhain yw'r Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLL).

Caiff y FfPLL ei gadeirio ar y cyd gan Gadeirydd Cynrychiolwyr y Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant. Mae'r aelodau'n cynnwys Cynrychiolwyr y Staff (gan gynnwys Aelod Annibynnol yr Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Gweithlu a DT a Phennaeth Llywodraethu'r Gweithlu. Mae'r Fforwm yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn.

Y FfPLL yw'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur/Sefydliadau proffesiynol gydweithio i wella gwasanaethau iechyd. Gellir rhannu ei ddiben, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, i bedair thema gyffredinol: cyfathrebu, ystyried, ymgynghori a thrafod, ac arfarnu.

Dyma rai o'r materion o bwys a ystyriwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2021-22:

- Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol
- Diweddariadau gweithredol rheolaidd, gan gynnwys: Y Cynllun Ailsefydlu ac Adfer; effaith COVID-19 a gwaith trawsnewid yn y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl, sefyllfa'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol; a phwysau gweithredol.
- CTCI – ymgysylltu ynghylch blaenoriaethau ac adroddiadau cynnydd y Bwrdd Iechyd.
- Adroddiad blynyddol y Ddeddf Staff Nyrsio.
- Gweithredu Polisi Parch a Datrys a'r newid angenrheidiol mewn diwylliant.
- Iechyd a Llesiant, gan gynnwys gwaith y Tîm Ymyrryd Iechyd.
- Y Cytundeb Partneriaeth a Chydnabyddiaeth diwygiedig, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol.
- Gwaith Sefydliad Calon y Ddraig.



- Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus – 'Gadewch inni beidio gadael neb ar ôl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg' - Mynd i'r afael ag annhegwch a blaenoriaethu atal wrth adfer ar ôl COVID-19.
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Adnoddau'r Gweithlu – Denu, Recriwtio a Chadw.
- Nifer o 'archwiliadau dwfn' o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a mentrau'n gysylltiedig â'r Gweithlu a Datblygu Trefniadol: trosiant: salwch; hyfforddiant statudol a gorfodol; cysylltiadau â gweithwyr; ac Arfarniadau'n seiliedig ar Werthoedd.
- Newidiadau i Delerau ac Amodau'r Agenda ar gyfer Newid.
- Gweithredu'r rheoliadau mangreoedd a cherbydau di-fwg - opsiynau gorfodi.
- Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig yr Is-grŵp Polisi Cyflogaeth.

Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd yn derbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am 'bynciau llosg' gan y Prif Weithredwr ac adroddiadau sefydlog ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, cyllid ac ansawdd, diogelwch a phrofiadau cleifion.

Mae gan y Fforwm Partneriaeth Lleol 3 is-grŵp - Grŵp Partneriaeth y Gweithlu, yr Is-grŵp Polisiâu Cyflogaeth a'r Grŵp Buddiannau Staff:

Caiff Grŵp Partneriaeth y Gweithlu ei gyd-gadeirio gan Gadeirydd Cynrychiolwyr y Staff a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a DT (GDT). Yr aelodau yw uwch-gynrychiolwyr y tîm GDS, Cynrychiolwyr Staff Bwrdd Clinigol Arweiniol, Cynrychiolydd Arweiniol y Staff dros Iechyd a Diogelwch ac Ysgrifennydd Ochr y Staff. Hefyd, mae gwahoddiad sefydlog i'r Aelod Annibynnol - Undebau Llafur fynychu. Yn 2021/22 ehangwyd yr aelodaeth i gynnwys uwch-gynrychiolwyr o'r Bwrdd Clinigol ac uwch-gynrychiolwyr Nyrsio.

Fel rheol, mae GPG yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn, am yn ail â'r FfPLL, ond oherwydd pandemig COVID a phwysau gweithredol mae GPG wedi bod yn cyfarfod fwy mynych.

Mae'r GPG yn fforwm i'r Bwrdd Iechyd a'r Undebau Llafur (gan gynnwys Sefydliadau Proffesiynol a Chymdeithasau Staff) weithio gyda'i gilydd ar faterion datblygu gwasanaeth, ymgysylltu a chyfathrebu yn benodol fel y maent yn effeithio ar y gweithlu. Mae tair thema i'w bwrpas, fel yr esbonnir yn y Cylch Gorchwyl: cyfathrebu, ystyried a thrafod materion sy'n effeithio ar y gweithlu. Mae'r eitemau a drafodir yn dueddol o fod yn fwy gweithredol neu fanwl na'r rhai a ddygir gerbron y FfPLL, ac y mae'r FfPLL yn cyfeirio materion yn rheolaidd i sylw GPG, er mwyn mynd ar eu trywydd a rhoi ystyriaeth bellach iddynt.



Dyma rai materion o bwys y mae GPG wedi'u hystyried yn ystod 2021/22:

- Iechyd a Lles Gweithwyr
- Gweithgarwch Cysylltiadau â Gweithwyr
- Adnoddau'r gweithlu, gan gynnwys dulliau cynhwysol o recriwtio a phrosiect Chwilio.
- Seilwaith yr ystadau a'r meysydd parcio
- Dyrannu system e-amserlennu
- Taliadau uwch ar gyfer adferiad COVID-19
- Cynllun Pobl a Diwylliant
- Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
- Safonau'r Gymraeg
- Lleoli staff oherwydd COVID-19
- Gweithredu'r Cynllun Cario Gwyliau Drosodd / Gwerthu Gwyliau Blynyddol

Mae'r **Is-Grŵp Polisi Cyflogaeth (IGPC)** yn cynnwys cynrychiolwyr y gweithlu a DT a'r Undebau Llafur a'r cyd-gadeiryddion yw'r Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu a chynrychiolydd o'r Undebau Llafur. Yr IGPC yw'r prif fforwm i ddatblygu ac adolygu polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau cyflogaeth. Mae'r grŵp fel arfer yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn. Adolygwyd Cylch Gorchwyl y grŵp ym mis Gorffennaf 2021, ac ehangwyd yr aelodaeth i gynnwys cynrychiolwyr cynhwysiant, llesiant ac addysg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu llunio neu eu hadolygu a'u cymeradwyo:

- Gweithdrefn Costau Adleoli
- Gweithdrefn Swyddi Newydd a Newidiedig
- Canllawiau Gweithio o Bell
- Gweithdrefn Marwolaeth mewn Gwasanaeth
- Gweithdrefnau Mamolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir
- Gweithdrefn Ymddeol
- Gweithdrefn Ymddeol a Dychwelyd

Mae'r **Grŵp Buddion Staff** yn cydgysylltu ac yn ymchwilio i ostyngiadau a buddion a gynigir gan gyrff allanol i weithwyr y Bwrdd Iechyd. Mae'r grŵp yn sicrhau ac yn cytuno ar y 'bargeinion gorau' i'r staff ac yn adrodd am eu gwaith wrth y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Mae'r Grŵp Buddion Staff yn cwrdd bob deufis ac yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol (Y Cadeirydd)
- Uwch-gynrychiolydd Rheoli
- Uwch-gynrychiolydd o Elusen Iechyd
- Uwch Reolwr y Gweithlu
- Cynrychiolydd Ochr y Staff
- Cynrychiolydd cyfathrebu
- Rheolwr Teithio Cynaliadwy
- Cynrychiolydd Caffael
- Cynrychiolwyr Cyllid a'r Gyflogres



Gwahoddir busnesau a chyflenwyr sydd eisiau darparu nwyddau wasanaethau am ddisgownt i staff i e-bostio'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a bydd cynigion newydd yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Buddion Staff i'w trafod a'u hystyried yn unol â'r meini prawf cymeradwyo. Caiff cynigion a gymeradwyir eu hyrwyddo ar amrywiaeth o lwyfannau ymgysylltu â staff, gan gynnwys y wefan Buddion Staff, ar ap Cyswllt y Staff a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn 2021/22, parhaodd y grŵp i gynnal cyfarfodydd rhithiol (yn unol â chyfyngiadau a chanllawiau COVID-19) a bwrw ymlaen â'r canlynol:

- Anfon gohebiaeth ysgrifenedig ac electronig i fusnesau a chyflenwyr lleol a chenedlaethol i gydnabod eu cefnogaeth i staff y Bwrdd lechyd yn ystod y pandemig, a'u gwahodd i gymryd rhan yng nghynllun buddion y staff.
- Derbyn ac adolygu addasrwydd cynlluniau buddion newydd i'r staff, gan gynnwys cynigion aberthu cyflog Home Benefits.
- Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Nathaniel Car Sales ac Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro i ddarparu nawdd a chymorth i godi arian.
- Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Nathaniel Car Sales a'r Bwrdd lechyd i ddarparu trafndiaeth i'r staff rhwng eu cartref a'r gwaith os ceir tywydd drwg.
- Cydweithio â'r Tîm Cyfathrebu Digidol i greu tudalen benodol ar gyfer buddion y staff ar ap Cyswllt y Staff, rhannu cynigion yn y Diweddariad Wythnosol

i'r Staff a hyrwyddo cynigion drwy'r holl lwyfannau a ddefnyddir i ymgysylltu â'r staff.

- Mae tudalennau buddion staff ar Fewnrwyd y Bwrdd lechyd wedi cael eu hailddylunio, ac maent yn cael eu diweddar'u'n wythnosol drwy gyflwyno cynigion newydd, a chynigion achlysurol yn gysylltiedig â digwyddiadau arbennig, hy Nadolig, Pasg, Dydd San Ffolant ac ati
- Cymeradwyo cynnwys cynlluniau Buddion Staff y Bwrdd lechyd mewn 'Llyfryn Gostyngiadau Arwyr y Gwasanaeth lechyd' cenedlaethol (gan gadw rheolaeth olygyddol ar y cynnwys).

Ar raddfa fwy lleol, mae pob un o'r **Byrddau Clinigol** hefyd yn cynnal Fforymau Partneriaeth Lleol bob mis neu bob deufis sy'n galluogi tîm arwain y Bwrdd Clinigol i ymgysylltu â chynrychiolwyr undebau llafur ar faterion lleol. Gohiriwyd rhai o'r rhain oherwydd pwysau gweithredol a'r ffaith nad oedd modd rhyddhau staff i fod yn bresennol. Yn lle hynny, cynhaliwyd trafodaethau mwy anffurfiol â Chynrychiolwyr y Bwrdd Clinigol Arweiniol, ond maent naill ai wedi ailddechrau, neu byddant yn ailddechrau yn fuan yn 2022/23.

6.4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) cyfredol, Gofalu am Gynhwysiant 2020-2024, yn cynnwys nifer o amcanion allweddol i'w cyflawni, ac yn dangos ein hymrwymiad i ymwreiddio cydraddoldeb,



amrywiaeth, hawliau dynol a'r Gymraeg ym mhrosesau busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'r CCS wedi'i alinio'n agos â'n strategaeth deng mlynedd 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol', ein 'Cynllun Pobl a Diwylliant' sydd newydd ei lansio, ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dyma ail flwyddyn y cynllun pedair blynedd cyfredol.

Yn ystod 2021/22, gwnaethom barhau i ymdrechu i greu sefydliad mwy cynhwysol i'n staff a'n cymunedau drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ymgysylltu â staff a grwpiau cymunedol, codi ymwybyddiaeth ynghylch diffyg cydraddoldeb drwy brif siaradwyr, sesiynau codi ymwybyddiaeth a gwaith partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a grwpiau cymunedol, a dathlu amrywiaeth ein gweithlu a'n cymuned. **Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf:**

- Creu a rhannu Calendr Cynhwysiant ar draws sefydliadau, sy'n amlygu dyddiadau allweddol drwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth a dathlu ein hamrywiaeth.
- Cyraedd ein safle uchaf erioed, sef safle 37 ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithlu gan Stonewall, sydd yn trefnu sefydliadau drwy gydol y DU yn ôl eu cynhwysiant o safbwynt LGBTQ+, ac ennill y Dyfarniad Aur hefyd. Roedd gwaith a gyfrannodd at y perfformiad eithriadol hwn yn cynnwys chwarae rhan allweddol yn nigwyddiad Balchder Rhithiol GIG Cymru, a chefnogi ein cymuned draws drwy gynnal sesiwn 'Camau Cyntaf at Gynnwys Pobl Draws'.
- Datblygu dau rwydwaith newydd i'r staff. OneVoice, ein rhwydwaith staff Du,

Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac Access Ability, ein rhwydwaith staff ar gyfer pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor.

- Dod yn Gyflogwr Lefel 2 Hyderus o ran Anabledd.
- Datblygu noddwyr Gweithredol i gefnogi pob un o'r nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg. Mae hyn yn cael ei raeadru ar draws ein Byrddau Clinigol ac eisoes wedi arwain at gyflwyno rhaglen 'Cynghreiriaid DThC' o fewn y Bwrdd Diagnosteg a Therapiau Clinigol.

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - caiff y Gymraeg ei diogelu o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig) - cydnabuwyd ers tro fod agendâu polisi cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn goleuo'r naill a'r llall. Fe'i cefnogir ymhellach drwy'r Nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ein nod yw cynnal ac atgyfnerthu'r egwyddor honno drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd a sicrhau bod yr amcanion hynny'n fodd i hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd y tu hwnt i'n rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gymhwyso'r egwyddorion sy'n rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i'n holl ffordd o feddwl, ein cynlluniau a'n penderfyniadau er budd ein holl bobl, o fewn ein sefydliad a hefyd yn ein cymunedau. Mae'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg yn parhau i gefnogi datblygiadau a gwelliannau ar draws y Bwrdd Iechyd.



6.5 Rheoliadau'r Gymraeg - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

Gweler paragraff 15.3 yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

6.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA) 2015

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu Amcanion Strategol Lluo Ein Llesiant i'r Dyfodol fel ein hamcanion llesiant, fel y nodir isod. Goruchwylir y gwaith o ymwreiddio'r nodau, yr egwyddorion a'r ffyrdd o weithio a gynghorir yn y Ddeddf yn rhan o'n busnes bob dydd gan y Gweithgor Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG), a'r Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd fel Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth ddatblygu ein CTCL, byddwn yn sicrhau ein bod yn plethu gofynion y Ddeddf drwy'r cynllun fel edau aur, a bod ein prosesau penderfynu'n mynnu ei bod yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth wrth wneud ein penderfyniadau.

Prif feysydd ffocws y Grŵp Llywio fu cynlluniau i sicrhau ein bod yn anrhydeddu ein hymrwymadau i ostwng carbon, gan gynnwys teithio egnïol a chynaliadwy, gan sicrhau ein bod yn parhau i ymyrryd ynghynt i atal clefydau yn y lle cyntaf, ac ymyrryd ynghynt pan geir clefydau er mwyn sicrhau deilliannau gwell.

Rydym hefyd wedi cryfhau ein gwaith i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, sef cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn sicrhau ein

bod yn clywed lleisiau pobl ifanc yn uchel, fel eu bod yn dylanwadu ar y modd rydym yn llywio ac yn datblygu ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Ein trefniadau llywodraethu mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd Grŵp Llywio WFG BIP Caerdydd a'r Fro, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn adolygu'r camau sydd angen eu cymryd i ymwreiddio'r gofynion o fewn y Bwrdd Iechyd, ac yn cefnogi'r newid diwylliant sydd ei angen er mwyn i'r Bwrdd Iechyd weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'r drefn arferol. Er mwyn canolbwyntio ar yr ymateb aciwt i'r pandemig, cyfarfu'r grŵp hwn yn ysbeidiol yn ystod 2021/22, a disgwylir y bydd cyfarfodydd rheolaidd yn ailddechrau'n llawn yn ystod 2022/23.

Mae'r Grŵp Llywio yn cynnal ac yn asesu cynnydd yn erbyn rhaglen waith flynyddol, ac yn adrodd wrth Bwyllgor Strategaeth a Chyflawni'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ran y Bwrdd. Byddwn yn cynnal deialog rheolaidd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymunodd un o'r Ysgogwyr Newid o swyddfa'r Comisiynydd â'r Grŵp Llywio fel aelod rheolaidd yn 2021/22.

Ar raddfa partneriaeth, rydym yn cyfrannu at Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Llesiant (y naill ar gyfer Caerdydd; y llall ar gyfer y Fro) drwy gymryd rhan yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyflawni camau allweddol yn y Cynlluniau, ar ein pen ein hunain ac ar y cyd â sefydliadau partner.



Ein hamcanion llesiant

O fewn y Bwrdd Iechyd, caiff yr amcanion llesiant statudol o dan WBFGA eu hadlewyrchu yn amcanion ein strategaeth deng mlynedd (Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol), a restrir isod. Mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Gweithredir y Strategaeth drwy'r cynllun tair blynedd a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol, ein cynllun tymor canolig integredig (CTCI), sy'n cynnwys ein datganiad llesiant blynyddol.

1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd
2. Sicrhau deilliannau sydd o bwys i bobl
3. Bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb dros wella ein hiechyd a'n llesiant
4. Cynnig gwasanaethau sy'n sicrhau iechyd i'r boblogaeth y mae gan ein dinasyddion hawl i'w ddisgwyl.
5. Cael system gofal heb ei drefnu (brys) sy'n darparu'r gofal cywir, yn y man cywir, ar y tro cyntaf.
6. Cael system gofal wedi'i gynllunio lle ceir cydbwysedd rhwng y galw a'r capasiti.
7. Bod yn lle gwyh i weithio ac i ddysgu
8. Cydweithio'n well â'n partneriaid i ddarparu gofal a chefnogaeth ar draws sectorau gofal, gan wneud y defnydd gorau o'n pobl a'n technoleg.
9. Lleihau niwed gwastraff ac amrywio, gan wneud y defnydd cynaliadwy gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni
10. Rhagori o ran addysgu, ymchwil, arloesi a gwella, a chynnig amgylchedd lle mae syniadau arloesol yn ffynnu

Mae'r CTCI, drwyddo draw, yn integreiddio ac yn dangos y pum ffordd o weithio a chatau gweithredu yn erbyn yn nodau llesiant. Mae atal wedi'i ymwreiddio yn ein holl waith, gydag ymyriadau iechyd cyhoeddus arbenigol ychwanegol wedi'u disgrifio yng nghynllun Llunio Iechyd ein Poblogaeth i'r Dyfodol.

Wrth ddatblygu'r CTCI ar gyfer 2022-25, adolygwyd amcanion llesiant y sefydliad, ac ni wnaed unrhyw newidiadau. Wrth i strategaeth drosfwaol Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol gael ei hadolygu'n fanwl yn ystod 2022/23, bydd cyfle i gynnal asesiad pellach i weld a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r amcanion.

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant

Gan mai ein hamcanion corfforaethol yw ein hamcanion llesiant, dangosir cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant drwy ein hadroddiadau perfformiad arferol yn erbyn ein CTCI a'n strategaeth ddeng mlynedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ein perfformiad, a lle adroddir am hynny, yn yr adran Crynodeb o'n perfformiad a'n cyflawniadau allweddol, uchod:

Yn ystod 2021/22 gwnaethom adolygu ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, i sicrhau bod camau gweithredu'n bodloni gofynion cynllun cyflawni strategol GIG Cymru ar gyfer datgarboneiddio, ac yn rhagori ar y gofynion hynny. Gwnaethom hefyd barhau i gefnogi a meithrin prosiectau cynaliadwyedd drwy ein Deorydd Syniadau a Sefydliad Calon y Ddraig, gan gynnwys Iechyd Gwyrdd Cymru, caffael cynaliadwy, a rhaglen SFERIC (cymdeithas cynaliadwyedd ar gyfer



ymgysylltu, ymchwil, arloesi a chydgysylltu). Ym mis Medi 2021, enillodd Bwyd Caerdydd, a gynhelir gan y tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, ddyfarniad Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - un o chwe lle yn unig i ennill y dyfarniad yn y DU. Dyma ddatblygiadau eraill a gafwyd yn ystod y flwyddyn:

- Ailardystio hyd at safon ISO140001 ddwywaith yn 21/22
- Gosod 6,800 o fylbiau golau LED
- Cyflwyno cysyniadau gofal iechyd cynaliadwy i fyfyrwyr meddygol Prifysgol Caerdydd
- Cynnal arolwg o'r staff, a ddangosai y gellid gwneud mwy i wella'r ymwybyddiaeth o'r hyn rydym yn ei wneud yng nghyswllt yr agenda werdd.
- Recriwtio rheolwr cynaliadwyedd amgylcheddol
- Recriwtio carfan o wirfoddolwyr 'cynaliadwyedd' i dderbyn hyfforddiant Gwella Ansawdd Cynaliadwy a chymhwyso'r wybodaeth honno i wasanaeth clinigol.
- Ymunodd ail gymrawd cynaliadwyedd Caerdydd a'r Fro ym mis Medi 2021

Gallwch ddarllen rhagor am brosiectau penodol rydym wedi'u cwblhau sy'n dangos ein hymrwymiad i'r Ddeddf ar dudalennau gwe Llundio Gofal Iechyd Cynaliadwy i'r Dyfodol.

Datblygiadau eraill yn gysylltiedig â WFBGA

Drwy gydol llawer o 2021-22 mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar ei ymateb i'r pandemig. Rydym wedi ceisio gwneud hyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio (integreiddio, cynnwys, hirdymor, atal, cydweithio), gan gynnwys:

- Cyflawni gwaith partneriaeth helaeth dyddiol yn uniongyrchol â phartneriaid statudol, er mwyn cynnal rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu (POD) yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae hon wedi bod yn ymdrech bartneriaethol wirioneddol, lle'r oedd timau'n cynnwys staff o bob rhan o'r bartneriaeth yn arwain strategaeth a goruchwyliaeth hyd at olrhain cysylltiadau. Mae staff a chyllidebau wedi cael eu rhannu, gan weithio mewn modd cwbl integredig yn ddyddiol.
- Gweithio'n agos gyda'n cymunedau lleiafrifol ethnig a'n harweinwyr cymunedol i gynyddu ymgysylltiad a lleihau effeithiau anghyfartal COVID-19.
- Cynllunio a chynnal y rhaglen frechu dorfol, i atal achosion pellach o COVID-19.
- Galluogi cynnydd mawr mewn ymgynghoriadau clinigol o bell
- Cadw'r cyfleusterau i staff weithio gartref lle bynnag y bo modd, gan gydbwysu hynny â chyfarfodydd wyneb yn wyneb diogel i hyrwyddo llesiant ac atal unigrwydd. Mae hyn yn cyfrannu at fwy o hyblygrwydd i'r staff, ynghyd â gostyngiad mewn allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith.



7. Llywodraethu Ansawdd a Pherfformiad

Sefydlwyd y tîm Gweithredu a Thrawsnewid yn hydref 2021 i oruchwylio darpariaeth weithredol y sefydliad, drwy dymor y gaeaf 2021 a thrydedd don COVID-19. Roedd y tîm yn cynnwys triwriaeth o Uwch Rheolwr, Nyrs a Gweithiwr Meddygol. Yn rhan o'r ddarpariaeth weithredol, cafodd y digwyddiad IPC (atal a rheoli haint) a'r achosion eu trafod yn ddyddiol gyda'r uwch dîm OPAT, timau safle a strwythurau nyrsio gweithredol. Drwy hyn bu modd cynnal goruchwyliaeth gyson dros yr holl Fyrddau Clinigol er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r holl benderfyniadau seiliedig ar risg ynghylch symud cleifion.


Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (ADPh) Cleifion

Yn ystod y pandemig, rydym wedi datblygu ein Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gyda'n staff rheng-flaen, cleifion, gofalwyr, perthnasau a rheoleiddwyr allanol. Mae ein ffocws ar ansawdd, diogelwch a phrofiadau cleifion yn ymestyn ar draws pob lleoliad lle ddarperir gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys ein cyfrifoldeb fel corff sy'n comisiynu gwasanaethau gan ystod eang o ddarparwyr i gael y sicrwydd angenrheidiol, os darperir gofal gan eraill i'n poblogaeth.



Mae'r siart isod yn dangos strwythur ein pwyllgorau a'n grwpiau i gefnogi darpariaeth y fframwaith.

Ansawdd, Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Strwythur y Pwyllgor a'r Grŵp Profiad



Bwrdd Clinigol/Cyfarwyddiaeth/Ansawdd Arweinyddiaeth ar y Safle, Grwpiau Diogelwch a Phrofiad



Fel sefydliad gofal iechyd integredig, mae'n rhaid ymestyn ein ffocws ar ansawdd, diogelwch a phrofiadau cleifion ar draws pob lleoliad lle darperir gofal iechyd, wrth inni anelu i fod ymhlith sefydliadau mwyaf diogel y GIG. Byddwn yn sicrhau nad oes gogwydd ormodol tuag at Ofal Eilaidd, gan gydnabod bod y rhan fwyaf o'r gofal y mae cleifion yn ei dderbyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliad Gofal Sylfaenol neu Gymunedol. Rydym yn cydnabod hefyd fod yr elfen Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar lwybr y claf yr un mor allweddol i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel â'r rhan honno o'r llwybr a ddarperir mewn lleoliadau mwy aciwt.

Mae gennym wyth ffactor galluogi allweddol yn ein Fframwaith ADPh ar gyfer y pum mlynedd nesaf: Dyma nhw:


- Diwylliant Diogelwch
- Arweinyddiaeth ar gyfer ADPh
- Profiad a Chynnwys y Claf
- Dysgu a Chyfathrebu ynghylch Diogelwch Cleifion
- Cynnwys ac ymgysylltu â staff
- Data a Mewnwelediad
- Proffesiynoldeb ADPh
- Llywodraethu Ansawdd

Mae'n rhaid i'r hyn sydd o bwys gwirioneddol i ofalwyr ein cleifion a phobl yn ein cymunedau fod yn ganolog i'n penderfyniadau, fel y gallwn wneud defnydd doethach o'n hamser, ein sgiliau a'n hadnoddau eraill.

Ni wynebwyd her mor fawr erioed â'r her o gomisiynu gwasanaethau sy'n gwella iechyd ein preswylwyr yng Nghaerdydd a'r Fro a ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol darbodus ac integredig i boblogaeth leol sy'n tyfu, gan ddarparu gofal brys, dewisol a thrydyddol mwyfwy cymhleth i fodloni galw lleol a rhanbarthol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Rydym bob amser yn ymwybodol ein bod yn Sefydliad Statudol a'n bod hefyd yn rhwym i ddeddfwriaeth sylfaenol, offerynnau statudol a Rheolau Sefydlog (sef y rheolau y mae'r sefydliad yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau'n unol â hwy).

Mae ein cyhoedd, ein cymunedau, ein staff a'n partneriaid wrth graidd popeth a wnawn. Nid oes ffordd well na mwy pwysig o ddatblygu na gwella gwasanaethau na thrwy wrando ar yr hyn y mae unigolion yn ei feddwl, yn ei deimlo ac yn ei brofi ar hyd eu taith wrth ddefnyddio unrhyw un o wasanaethau, rhaglenni neu swyddogaethau GIG Cymru, ac ar ôl hynny. Boed hynny ar ward ysbyty, mewn apwyntiad claf allanol, neu ar unrhyw un o'r rhaglenni Sgrinio cenedlaethol, mewn practis meddyg teulu (Gofal Sylfaenol), wrth ymgysylltu ag ymarferwyd hyrwyddo iechyd neu mewn unrhyw ddigwyddiad a ddarperir gan un o sefydliadau GIG Cymru. Mae'n elfen allweddol o ansawdd, ochr yn ochr â rhoi sicrwydd llywodraethu a ddarparu gwasanaethau mwy diogel. Mae'r modd y mae'r system iechyd ac atal/hyrwyddo ehangach yn ddarparu ei gwasanaeth ac yn cefnogi'r systemau ehangach - o'r ffordd y caiff galwad ffôn ei hateb, hyd at y ffordd mae'r staff glanhau yn siarad â chi, hyd at ymgysylltiad rheolwyr â'r cyhoedd a'r staff



- oll yn cael effaith ar y profiad, a dylid eu defnyddio i wella ansawdd a rhoi sicrwydd ynghylch llywodraethu. Os mai rhagoriaeth glinigol a chyffredinol yw'r agwedd 'beth' ar ofal iechyd a mesurau iechyd ataliol, mae a wnelo profiad â'r agwedd 'sut'. Gan ddechrau gydag anghenion, a gwrando ar yr anghenion hynny, gellir dylunio'r profiad i gyd-fynd â'r anghenion, gan greu amgylchedd lle mae'r unigolyn yn teimlo wedi'i werthfawrogi a'i gefnogi.

Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd dros y blynyddoedd diwethaf yw bod yn rhaid i sefydliadau fod yn uchelgeisiol. Ni fydd y profiad a roddir gennym i'n defnyddwyr gwasanaeth ond yn gwella pan fydd y sefydliad cyfan yn archwilio ac yn ail-greu ei ddiwylliant. Mae hynny'n golygu mwy na geiriau - mae'n rhaid wrth arweinyddiaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau, ymgysylltu â staff a systemau mesur traws-sefydliadol er mwyn gwella ansawdd ac anelu am ragoriaeth.

Dyma brif negeseuon ein galluogwyr:

"Mae Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad o bwys i bawb"

"Mae rheolwyr yn gwneud pethau'n iawn; mae'r arweinyddiaeth yn gwneud y pethau iawn".

"Dim penderfyniad amdana i, heb fy nghynnwys i"

"Ysbrydoli, addysgu, diogelu a darparu sgiliau i weithwyr iechyd, er mwyn cyfrannu at ddyluniad a darpariaeth systemau gofal iechyd"

"Beth am ganolbwyntio ar systemau a ffactorau dynol; nid ar unigolion"

"Heb fesur, fyddwch chi ddim yn gwybod"

"O wneud yr hyn rydyn ni wastad wedi'i wneud, byddwn yn cael yr un canlyniadau"

"Y safon rydych chi'n cerdded heibio iddi yw'r safon rydych chi'n ei derbyn"

Ein blaenoriaethau ADPh ar gyfer 2021-2026

- Sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl mewn niwed y gellir ei osgoi
- Ymwreiddio ymagwedd at ddiogelwch sy'n seiliedig ar systemau a ffactorau dynol
 - Ymchwiliadau a datrysiadau
- Cyflwyno rhaglen waith Diwylliant Diogelwch
- Cytuno ar iaith gyffredin ar yfer ansawdd, diogelwch a phrofiad
- Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o Ddiogelwch 1 – Diogelwch 11
- Hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw



8. Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Ym mis Ionawr 2020, datganodd y Bwrdd lechyd argyfwng hinsawdd, ac ymrwymodd i ymdrechu'n galetach i leihau ein hól troed carbon. Cynhyrchwyd ein cynllun gweithredu cynaliadwyedd cyntaf a nodai'r camau y byddem yn eu cymryd i leihau ein defnydd o garbon i raddau sylweddol. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, gyda'r ymrwymiad i gyrraedd sero carbon erbyn 2030, gwnaethom ailwampio'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a chymeradwyo'r cynllun diwygiedig yng nghyfarfod ein Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r cynllun diweddaraf hwn yn defnyddio Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru fel sylfaen ac yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r Cynllun Gweithredu cyntaf er mwyn herio'r Bwrdd lechyd i gynnig ymateb mwy aeddfed eto i'r Argyfwng Hinsawdd.

Yn ystod 2021/22 ac yn ychwanegol at y datblygiadau y cyfeiriwyd atynt o dan Adran 6.6 uchod (Cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant), tua 33% o apwyntiadau i gleifion allanol yn cael eu cynnal yn rhithiol, gweithio gartref yn gyffredin sy'n lleihau traffig a llygredd yn sgil hynny, a chydweithwyr y Bwrdd lechyd yn arwain y gwaith o ffurfio rhwydwaith lechyd Gwyrdd Cymru o weithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Mae angen gwneud mwy. Gan hynny, yn y flwyddyn sydd i ddod rydym yn rhoi pwyslais ar roi arweiniad er mwyn gwneud gwahaniaeth i'n hól troed carbon ac ystyried sut y byddwn yn dod â'n holl

gydweithwyr ar y daith gyda ni. I'r perwyl hwn, bu cynnydd sylweddol a chyson mewn gohebiaeth ynghylch datgarboneiddio. Gan gofio ein dyhead i ddefnyddio llai o ynni, bydd rhaglen barhaus Re:Fit yn cynnwys gwaith pellach i osod bylbiau led, gwaith uwchraddio systemau awyru er mwyn lleihau carbon, gwelliannau rheolaeth a gosodiadau solar PV.

Rydym bellach yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd ein cynllun lleihau carbon, ac mae grŵp goruchwyllo ar lefel weithredol yn cael ei sefydlu i sicrhau y cyrhaeddir cerrig milltir allweddol ar amser.

Arweinyddiaeth

- Dangos arweiniad ac ymrwymiad i helpu i wneud Sector Cyhoeddus Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030

Egni

- Cadw ISO14001
- Gweithgareddau datgarboneiddio gan gynnwys rhaglen Re:Fit

Gwastraff a Bwyd

- Lleihau gwastraff drwy ein gweithrediadau
- Ailgylchu i'r eithaf

Dŵr

- Lleihau'r defnydd o ddŵr, hyrwyddo pwysigrwydd cael eich hydradu

Caffael

- Gwneud penderfyniadau caffael cynaliadwy



Pobl

- Mae staff a chleifion yn ymwybodol o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ac yn teimlo bod ganddynt ran i'w chwarae

Yr Amgylchedd Adeiledig, Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth

- Mae adeiladau newydd yn gynaliadwy ac yn meithrin mannau allanol iach, gwyrdd a bioamrywiol

Trafnidiaeth

- Lleihau'r nifer y ceir sy'n dod i'n safleoedd, annog teithio llesol a gweithio gartref

Ymarfer Clinigol

- Datblygu gofal carbon isel/gwastraff isel i'n cleifion
- Ymwreiddio cynaliadwyedd ym muddsoddiadau strategol Caerdydd a'r Fro .

Themâu ar gyfer Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 22/23

Daw 20% o allyriadau GIG Cymru o'n hadeiladau a'n defnydd o ynni. Daw 60% o'r cynnyrch a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Yn rhan o fenter gyffrous sy'n cael ei threialu eleni mae gwirfoddolwyr o'n timau'n gweithio ar fentrau gwella ansawdd gyda golwg ar wella effaith y cynnyrch a ddefnyddiwn o ran carbon, neu leihau ein defnydd ohonynt. Fel enghraifft o brosiect lleihau defnydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio tuag at ddiffodd y cyflenwad o ocsid nitrus o amgylch ein cyfleusterau, a darparu'r nwy mewn silindr yn ôl y galw pan fydd angen.

Disgwylir y gellir defnyddio llawer llai o'r nwy tŷ gwydr peryglus hwn gan arbed allyriadau ac arian.

Disgwylir y bydd y data ar y defnydd o ynni, y defnydd o ddŵr a gwastraff ar gael ym mis Awst 2022.

9. Casgliad a Rhagolwg

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod arall heriol i'r Bwrdd Iechyd, ac ystyried natur barhaus ac annarogan y pandemig. Fodd bynnag, y mae hefyd wedi braenaru'r tir i sefydlu nifer o arferion arloesol, ac rydym yn falch o weld bod rhai o'n gwasanaethau bron wedi dychwelyd i lefelau cyn-COVID-19.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adeiladu ar rai o'r ffyrdd arloesol o weithio er mwyn gwella ansawdd gofal iechyd a diogelwch cleifion a staff ar dras yr holl lwybr cleifion. O dan ein Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 2021-2026 sydd newydd gael ei fabwysiadu, byddwn yn parhau i anelu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol sy'n rhoi profiad rhagorol i ddefnyddwyr sy'n gyson â sefydliadau gofal iechyd gorau'r byd.

Wrth inni fwrw ymlaen drwy ein cam adfer ac ailddylunio, byddwn yn parhau i gadw a mireinio rhai o'n ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau gwasanaeth gofal iechyd effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys:

- Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd Pwyllgor rhithiol, oherwydd gwelwyd eu bod yn ffordd effeithlon ac effeithiol o weithio. Byddwn yn dychwelyd i gynnal cyfarfodydd Bwrdd wyneb yn wyneb o fis Mai 2022 er mwyn ceisio dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.



- Byddwn yn cadw ac yn mireinio'r dulliau ystwyth o wneud penderfyniadau er mwyn hwyluso arloesi, trawsnewid a dysgu ar sail barhaus.
- Cynnal a gwella dulliau a ffurfiau newydd ar gyfathrebu a gyflwynwyd yn ystod y pandemig er mwyn parhau i gydweithio, i weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth inni wella ar ôl effeithiau'r pandemig.
- Gan ddefnyddio Sefydliad Calon y Ddraig a sefydlwyd gennym yn ddiweddar i ysgogi trawsnewid o fewn y Bwrdd Iechyd, i arwain syniadau arloesol a gweithredu fel catalydd ar gyfer newid ar draws gwasanaethau cyhoeddus i wella deilliannau i ddinasyddion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Rydym yn bwriadu cryfhau ein perthnasoedd â'n partneriaid ymhellach. Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd enghreifftiau llwyddiannus iawn o gydweithio â'n partneriaid a gwirfoddolwyr (er enghraifft, y rhaglen frechu dorfol) a byddwn yn canolbwyntio mwy ar gydweithio â'n partneriaid ar draws Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Ambiwlans er mwyn rhoi newidiadau ar waith a fydd yn gwella gofal cleifion, yn lleihau oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans, yn osgoi derbyniadau i'r ysbyty ac yn rhyddhau cleifion i leoliadau mwy priodol. Cymerodd Clwstwr Gofal Sylfaenol De Orllewin Caerdydd ran allweddol yn y gwaith a gyflawnwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro o dan y Rhaglen Drawsnewid a gyllidir yn genedlaethol. Gobeithiwn gyflwyno Clystyrau pellach dros y flwyddyn i ddod.

Mae datrysiadau digidol wedi bod yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Er enghraifft, drwy ddefnyddio apwyntiadau rhithiol a chlinigau grŵp fideo bu modd sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gapasiti o fewn ein gwasanaethau cleifion allanol. Mae'r "ward rithiol" wedi helpu i leihau'r amser y bydd cleifion yn ei dreulio yn yr ysbyty. Mae gennym gynlluniau ar y gweill i ehangu'r defnydd o ddatrysiadau digidol er mwyn cefnogi grwpiau eraill o gleifion sy'n disgwyl am driniaethau.

Mae'r cam adfer ac ailddylunio wedi rhoi cyfle inni drawsnewid gofal cleifion, i ddysgu oddi wrth y claf ac o adborth y staff dros y flwyddyn ddiwethaf a sicrhau bod gwelliannau gweithredol yn parhau er mwyn rhwyddhau mynediad. Adlewyrchir hyn yn ein CTCL drafft uchelgeisiol ar gyfer 2022-2025 sy'n anelu i gyflymu ein taith i drawsnewid gwasanaethau, ac i gymryd camau sylweddol i adfer triniaethau gofal wedi'i gynllunio a ohiriwyd yn sgil COVID-19, gwella gwasanaethau brys ac argyfwng yn sgil pwysau'r 2 flynedd ddiwethaf. Ar ben hynny, yn rhan o'n rhaglen Adfer ac Ailddylunio, rydym yn datblygu cynlluniau i ystyried atebion rhanbarthol posibl er mwyn ymdrin â'r ôl-groniat o bobl sy'n disgwyl am driniaethau wedi'u cynllunio.

Rydym yn cydnabod bod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd wedi bod yn heriol iawn i'n staff. Mae diogelwch a llesiant ein staff yn parhau i fod ymhlith prif ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn gweithredu ein Cynllun Pobl a Diwylliant 2022-2025 sy'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf, gyda ffocws clir ar wella llesiant, cynhwysiant, gallu ac ymgysylltiad ein



gweithlu. Wrth inni barhau i lywio ein ffordd drwy'r pandemig ac allan ohono, mae'n hanfodol bod gennym weithlu iach, diogel a galluog i'n helpu i drawsnewid gofal cleifion a darparu gwasanaethau gwell.

Llofnodwyd gan: 

Suzanne Rankin,
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 14 Mehefin 2022



Rhan 2

Adroddiad Atebolrwydd



Rhan 2 - Adroddiad Atebolrwydd

Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd

Diben adran atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol yw bodloni gofynion allweddol o ran ein hatebolrwydd i Lywodraeth Cymru, a rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd ar waith ar draws y Bwrdd lechyd yn ystod 2021-2022. Mae'n cynnwys:

- Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
- Adroddiad ar Daliadau a Staff
- Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

10. Rhan 2a - Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

10.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

10.1.1 Cyfansoddiad y Bwrdd

Yn Rhan 2 o Reoliadau Byrddau lechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau)

(Cymru) 2009 (y Rheoliadau) nodir yr aelodaeth ofynnol ar Fyrddau'r Byrddau lechyd Lleol, gofynion penodi a chymhwystra'r aelodau, cyfnod swydd Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cyswllt. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae ein Bwrdd yn

cynnwys 20 o aelodau â phleidlais, a 3 Aelod Cyswllt arall nad oes ganddynt bleidlais:

- Cadeirydd;
- Is-Gadeirydd;
- aelodau sy'n swyddogion;
- Aelodau Annibynnol; ac
- Aelodau Cyswllt.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad, ac yn gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw drwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Yn sgil y risg barhaus i iechyd y cyhoedd yn gysylltiedig â'r pandemig a'r angen i sicrhau bod y risg o ledaenu COVID-19 yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, mae ein cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Er nad yw hyn yn cydymffurfio'n llwyr â'n Rheolau Sefydlog o ran caniatáu i'r cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, rydym wedi cymryd sawl cam i gryfhau tryloywder y cyfarfodydd hynny i'r cyhoedd (gweler adran 13.7 o'r DLIB). O 26 Mai 2022 mae ein cyfarfodydd Bwrdd wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb, er y bydd cyfarfodydd ein Pwyllgorau'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol am y tro.

Gyda'i gilydd, gelwir aelodau'r Bwrdd yn "y Bwrdd" neu "aelodau'r Bwrdd". Gelwir yr aelodau sy'n Swyddogion yn Gyfarwyddwyr Gweithredol a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol. Mae gan bob Aelod Annibynnol a phob Aelod sy'n Gyfarwyddwr Gweithredol hawliau pleidleisio llawn.



Mae gan y Bwrdd lechyd 11 o Aelodau Annibynnol (gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd) - pob un ohonynt wedi'u penodi gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir 9 Chyfarwyddwr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr).

Yn ogystal â hynny, caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at 3 Aelod Cyswllt ar lefel y Bwrdd. Nid oes gan Aelodau Cyswllt unrhyw hawliau pleidleisio. Ceir hefyd 2 swydd Cyfarwyddwr, sef y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr lechyd a Gwybodaeth Ddigidol, sy'n aelodau o'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ond nad oes ganddynt unrhyw hawliau pleidleisio.

Cyn penodi unigolyn yn aelod neu'n Aelod Cyswllt, bydd yn rhaid iddo fodloni'r gofynion cymhwysra perthnasol, a nodir yn Atodlen 2 o Reoliadau Byrddau lechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, a pharhau i fodloni'r gofynion perthnasol hyd ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Gellir gweld y rheoliadau drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents>

10.1.2 Aelodau o'r Bwrdd â Phleidlais yn ystod 2021-2022

Gweler paragraff 13.13 (hy, y paragraff â'r teitl Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2021/22) o fewn yr Adroddiad Atebolrwydd ac Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

10.1.3 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Dyma oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2021-2022 gan gynnig yr arbenigedd angenrheidiol:

Enw	Rôl	Dyddiadau
AELODAU ANNIBYNNOL		
John Union	Cadeirydd y Pwyllgor	Ebrill 2021 - Mawrth 2022
David Edwards	Is-Gadeirydd y Pwyllgor	Ebrill 2021 - Mawrth 2022
Mike Jones	Aelod Annibynnol yr Undeb Llafur	Ebrill 2021 - Mawrth 2022
Ceri Phillips	Is-Gadeirydd	Ebrill 2021 - Mawrth 2022

10.1.4 Datgan Buddiannau

Caiff manylion swyddi cyfarwyddwr cwmni a buddiannau eraill o bwys a ddelir gan aelodau'r Bwrdd a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau eu cynnal a'u diwedddaru'n rheolaidd. Mae Cofrestr Buddiannau ar gael ar wefan y Bwrdd lechyd. Drwy glicio ar y ddolen ganlynol <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cofrestr-buddiannau/> neu gellir cael copi caled gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ar gais.



10.1.5 Digwyddiadau'n gysylltiedig â data personol

Ceir gwybodaeth am ddigwyddiadau'n gysylltiedig â data personol sydd wedi cael eu cyfeirio'n ffurfiol i sylw swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" lle collwyd data neu lle cafwyd achosion o dorri rheolau cyfrinachedd a manylion ynghylch sut y caiff risgiau gwybodaeth eu rheoli ym mharagraff 15.10 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

10.1.6 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mharagraff 15.5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

10.1.7 Datganiad Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Mae hwn wedi'i gynnwys yn adran 21.3 (Rheoli Arian Cyhoeddus (tudalen 168)) o'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol.

Llofnodwyd gan: 

Suzanne Rankin
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 14 Mehefin 2022

11. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr a ddylai fod yn Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, wedi'u nodi yn y Memorandwm Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ymwybodol ohoni, a'm bod wedi cymryd yr holl gamau y dylid eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae adroddiad a chyfrifon blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy, a chymeraf gyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a'r chyfrifon blynyddol a'r farn sydd ei angen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- Rwyf yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad pan fydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu hardystio.



Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr a'm penododd yn Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan:

Suzanne Rankin,
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 14 Mehefin 2022

12. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon

O dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn creu darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac o incwm a gwariant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifo a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- ffurfio barn ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol a darbodus
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys ai peidio, yn amodol ar unrhyw yriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu'n rhesymol gywir beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw bryd, i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd a grybwyllwyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:

Ar ran y Cadeirydd:

.....

Charles Janczewski

Dyddiedig: 14 Mehefin 2022

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol:

.....

Suzanne Rankin

Dyddiedig: 14 Mehefin 2022

Cyfarwyddwr Cyllid:

.....

Catherine Phillips

Dyddiedig: 14 Mehefin 2022



13. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

13.1 Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, rwyf yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawniad polisiâu, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu cyllid cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhai yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a chyda phartneriaid mewn ymateb i'r pwysau digynsail wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu wedi'u cynnal, risgiau wedi'u nodi a'u lliniaru a sicrwydd wedi'i geisio a'i roi. Lle bo angen darperir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fodd bynnag, y bwriad fu lleihau achosion o ailadrodd lle bo modd. Gan hynny, mae angen adolygu adrannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) hwn.

Mae'r DLIB yn esbonio'r trefniadau a oedd ar waith yn ystod 2021-2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Prif Weithredwr y Bwrdd lechyd, ac i reoli adnoddau'r Bwrdd lechyd. Mae'n manylu hefyd ar y graddau y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'i drefniadau

llywodraethu ei hun, a sefydlwyd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben cyffredinol, sef gweithredu'n effeithiol a darparu gofal diogel a safonol i gleifion, drwy arweinyddiaeth gadarn, stiwardiaeth gref, atebolrwydd clir, craffu a herio cadarn, ymddygiad moesol, a chadw at y gwerthoedd a'r ymddygiadau a sefydlwyd gennym. Bydd yn nodi rhai o'r heriau a'r risgiau y daethom ar ein traws, a'r rhai y byddwn yn parhau i'w wynebu yn y dyfodol.

Ar adeg llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd lechyd a'r GIG yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau digynsail a phwysau cynyddol, yn sgil ymateb i COVID-19, wrth gynllunio a darparu gwasanaethau tra bo'r Bwrdd lechyd yn symud tuag at sefyllfa adferedig yn dilyn ail a thrydedd don COVID-19.

13.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

O dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (Grŵp Teirochrog) ddwywaith y flwyddyn i drafod asesiad cyffredinol o bob Bwrdd lechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod lechyd Arbennig yng nghyswllt y trefniadau.

Ym mis Mawrth 2022, yn dilyn canlyniad cyfarfod y Grŵp Teirochrog, cawsom wybod y byddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru yn argymhell wrth y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid cadw 'trefniadau arferol' ar gyfer Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



Roedd y Grŵp yn cydnabod agwedd agored a thryloywder parhaus y Bwrdd Iechyd mewn trafodaethau â rheoleiddwyr a'r gwelliant a gafwyd o ran trefniadau llywodraethu.

Er na nodwyd unrhyw faterion difrifol, mynegwyd rhai pryderon gan y Grŵp Teirochrog i'w hystyried gan y Bwrdd Iechyd, sef:

- Bu nifer o newidiadau ar lefel swyddogion Gweithredol, felly mae'n bwysig sefydlogi'r sefyllfa a sicrhau bod y swyddi gwag yn cael eu llenwi. Mae camau bod yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf i lenwi swyddi gwag (gweler adran 13.8), gyda chynlluniau pellach ar waith i benodi i rai o'r swyddi Gweithredol sydd wedi'u llenwi ar sail dros dro ar hyn o bryd.
- Mae angen monitro'r sefyllfa ariannol gyfredol. Mae'n bwysig cynnal sgysiau rheolaidd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ynghylch y cynlluniau sydd ar waith gan y Bwrdd Iechyd. Rydym yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i gytuno ar CTCI sy'n ariannol ddichonadwy (gweler Adran 2.9 am ragor o wybodaeth).
- Mynegwyd pryderon ynghylch y lefelau hunanladdiad a adroddwyd yn y gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi gweld cynnydd yn y cleifion ag anghenion iechyd meddwl ac ymddygiadol cymhleth. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 3.7.

- Mae perfformiad gofal argyfwng a brys wedi dirywio dros y misoedd diwethaf, a mynegwyd pryderon hefyd ynghylch perfformiad strôc, a pherfformiad yn erbyn Rhan 1 o'r Mesur iechyd meddwl oedolion. Mae Adran 3.7 yn darparu rhagor o wybodaeth am ein perfformiad strôc a'n perfformiad yn erbyn Rhan 1 o'r Mesur iechyd meddwl oedolion.
- Ceir pryderon ynghylch cynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC), a nodwyd bod practisau wedi ildio eu contractau GMC yn ôl i'r Bwrdd Iechyd. Yn Adran 3.3 o'r Adroddiad ar Berfformiad ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym wedi bod yn rheoli cynaliadwyedd ein GMC.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n ddygn i ymdrin â'r pryderon hyn, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r ddolen hon:

<https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2022-03-31-public-board-papers-v14-pdf/> (gweler eitem 6.7 ar yr agenda)

13.3 Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI)

Gweler paragraff 2.9 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.



Ein Fframwaith Llywodraethu

13.4 Rheolau Sefydlog a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo

Ar raddfa leol, mae'n rhaid i Fyrddau lechyd yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog er mwyn rheoleiddio trafodion a busnes. Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau BILlau (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun materion a gadwir yn ôl i'r Bwrdd; Cynllun Dirprwyo i swyddogion ac eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes y Bwrdd lechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu. Mae'r rhain ar gael yn <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/polisiau-gweithdrefnau-a-chanllawiau/>. Cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog Enghreifftiol Cymru Gyfan, a'r trefniadau ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Rheolau Sefydlog yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2021. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau gyda nifer cyfartal o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol, gan rannu cyfrifoldeb corfforaethol dros yr holl benderfyniadau a chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a chynlluniau strategol.

Prif rôl y Bwrdd yw arfer arweinyddiaeth, cyfarwyddyd a rheolaeth effeithiol, gan gynnwys:

- Pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd lechyd;
- Sefydlu a chynnal lefelau uchel o atebolrwydd a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- Sicrhau bod nodau ac amcanion y Bwrdd lechyd yn cael eu cyflawni drwy herio a chraffu ar berfformiad yn effeithiol ar draws pob maes cyfrifoldeb.
- Sicrhau darpariaeth gofal cleifion safonol a diogel;
- Adeiladu capasiti a meithrin gallu o fewn y gweithlu er mwyn adeiladu ar werthoedd y Bwrdd lechyd a chreu diwylliant dysgu a datblygu cryf;
- Cynnal stiwardiaeth ariannol effeithiol drwy sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cael ei weinyddu mewn modd darbodus ac economaidd, gan ddefnyddio adnoddau mewn modd priodol ac effeithlon.
- Ysgogi cyfathrebu effeithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'i gymuned, er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau wedi'u cynllunio ac yn ymateb i anghenion a nodwyd;

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau posibl gan Weinidogion Cymru, wneud trefniadau priodol i rai swyddogaethau gael eu cyflawni ar ei ran fel bo modd cynnal busnes beunyddiol y Bwrdd lechyd yn effeithiol, ac mewn modd sy'n sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni.



13.5 Bwrdd a'i Bwyllgorau

Mae gan y Bwrdd lechyd gyfansoddiad sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Byrddau lechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ogystal â chyfrifoldebau ac atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau Hyrwyddwyr lle byddant yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion hyn. Cytunwyd ar Rolau Arweinwyr a Hyrwyddwyr y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2021, ynghyd â disgrifiadau o Rolau Hyrwyddwyr y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae'r tabl yn Atodiad 1 y DLIB hwn yn nodi pa Aelodau Annibynnol sydd wedi derbyn y Rolau Hyrwyddwr, a pha swyddogion Gweithredol sydd wedi derbyn rolau Arweinydd y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad, ac yn gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw drwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus, a lle cynhelir cyfarfodydd preifat bydd agendâu'r cyfarfod hefyd yn cael eu cyhoeddi. Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un wedi'i gadeirio gan Aelod Annibynnol. Mae pob Pwyllgor wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru – Pwyllgorau Bwrdd Effeithiol. Mae'r Pwyllgorau (ac eithrio'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth) yn darparu eu cofnodion ac adroddiad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor i bob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae hyn yn galluogi aelodau'r Bwrdd i gadw golwg ar y prif faterion a chyfrannu at asesu sicrwydd a chraffu ar gyflawniad amcanion strategol. Ers mis Mawrth 2020, mae'r Pwyllgorau wedi bod yn cyfarfod yn rhithiol oherwydd

y pandemig, ac mae aelodau o'r cyhoedd wedi gallu gwyllo recordiadau o gyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau ers mis Chwefror 2022. Mae cyfarfodydd ein Bwrdd wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ers mis Gorffennaf 2020, a byddant yn gallu bod yn bresennol go iawn yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd o fis Mai 2022.

Cyhoeddir papurau'r Bwrdd ar wefan y Bwrdd lechyd ddeng diwrnod clir cyn bob cyfarfod, yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Am ragor o wybodaeth, gweler paragraff 13.7 (Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod COVID-19).


Cedwir cofnod tor-rheolau ar gyfer unrhyw achosion o wyro oddi wrth y graddfeydd amser hyn, a'r adroddiadau a ohiriwyd, neu na chyrrhaeddwyd. Gweler adran 2.3 o'r Adroddiad Blynyddol am wybodaeth am gyfrifoldebau, Cynlluniau Gwaith a Chylch Gorchwyl y Pwyllgorau.

Gellir gweld papurau cyfarfod y Bwrdd yn <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cyfarfodydd-bwrdd/>. Gellir gweld papurau cyfarfod y Pwyllgorau ynghyd â chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor yn <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/>.

Bydd pob Pwyllgor yn llunio adroddiad blynyddol i'r Bwrdd. Gwneir hyn i ddangos a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgorau wedi bodloni gofynion y Cylch Gorchwyl perthnasol. Gellir gweld adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2021-2022 yn: <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/>.



Amlinellir strwythur Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd lechyd a oedd ar waith yn ystod 2021-2022 yn Ffigur 1 isod.



Ffigur 1 – Strwythur Llywodraethu Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2021-2022

13.6 Llywodraethu Effeithiol yn ystod Pandemig COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, ac yn rhan o'i ymateb i'r pandemig, canolbwyntiodd y Bwrdd lechyd ar fusnes hanfodol yn unig, a sefydlodd Strwythur Llywodraethu Gorchymyn a Rheoli i hwyluso ei waith cynllunio a'i baratoadau wrth i'r pandemig byd-eang ddod i'r amlwg. Cefnogwyd hyn gan Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19.

Pwrpas Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 oedd sicrhau trefniadau priodol i graffu a llywodraethu'r broses benderfynu dros gyfnod COVID-19 ac i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod hynny'n digwydd. Roedd Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 yn gallu cymeradwyo camau gweithredu'r Cadeirydd

yn ogystal â phenderfyniadau eraill o bwys a fyddai fel arfer yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, ac wrth i'r Bwrdd lechyd symud tuag at sefyllfa adferedig ar ôl ail don COVID-19, dychwelwyd ein trefniadau Llywodraethu i 'fusnes fel arfer' o fis Ebrill 2021. Yn unol â'r trefniadau hynny:

- Ailddechreuodd cyfarfodydd deufisol y Bwrdd, gan barhau i gael eu cynnal yn rhithiol.
- Roedd yr adroddiad newydd ar COVID-19 (a gyflwynwyd yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2020) yn parhau i gael ei ddefnyddio i adrodd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd;

- Daeth cyfarfodydd Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 i ben.
- Dychwelodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd i fusnes fel arfer, yn unol â'u Cylchoedd Gorchwyl a'u cynlluniau gwaith cymeradwy ar gyfer 2021/22.
- Parhaodd y Swyddogion Gweithredol Rheoli i gyfarfod ar ddydd Llun bob wythnos – roedd yr eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys adroddiad ar COVID-19 (ee, Diweddariadau Polisi ac ati) ac ystyried cynlluniau adfer COVID-19.

Ac ystyried natur cyflym-newidiol ac annarogan y pandemig, gwnaethom barhau i adolygu ein trefniadau llywodraethu a pharhau i'w cadw'n hyblyg. Oherwydd y pwysau gweithredol a brofodd y Bwrdd lechyd dros y gaeaf, cafodd ein trefniadau llywodraethu eu diweddaru dros dro ym mis Rhagfyr. Dros gyfnod y gaeaf:


- Ychwanegwyd mwy o gyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus fel bod y Bwrdd yn cyfarfod bob mis. Roedd y cyfarfodydd ychwanegol yn canolbwyntio ar adfer ar ôl COVID-19 a phwysau'r gaeaf.
- Datblygwyd a chyflwynwyd Adroddiad Briffio Cydnerthedd Systemau (ar gyfer COVID a heb fod ar gyfer COVID) ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd a'r Cyhoedd yn cael gwybod am bwysau allweddol ar systemau dros gyfnod y gaeaf.
- Adolygwyd presenoldeb swyddogion gweithredol mewn cyfarfodydd Pwyllgor er mwyn rhyddhau amser Cyfarwyddwyr Gweithredol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'n gysylltiedig â'r pwysau

ar systemau, gan gyfyngu'r gofyniad i fod yn bresennol mewn Pwyllgorau i Arweinwyr Gweithredol yn unig

- Roedd agendâu pwyllgor yn cadw at flaenoriaethau allweddol y Pwyllgorau.
- Ailsefydlwyd Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 ar 6 Ionawr 2022.
- Ailsefydlwyd Cyfarfod Gweithredol COVID-19 gan gyfarfod ddwywaith yr wythnos.
- Symudodd y Bwrdd lechyd at fodel arweinyddiaeth seiliedig ar safle yn YAC, YALL ac mewn Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chymdeithasol.



Ma'r Ffigur isod yn dangos sut y cafodd y Strwythur Llywodraethu ei ehangu i gefnogi'r pwysau gweithredol dros gyfnod y gaeaf.¹



Daeth Trefniadau Llywodraethu'r BILL ar gyfer theoli COVID-10, fel y dangoswyd yn y Ffigur uchod i rym o 21 Rhagfyr 2021, ac fe'u llaciwyd ar ddiwedd mis Chwefror 2022.

Trafodwyd adroddiad llawn ar y trefniadau Llywodraethu yng Ngrŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 ar 6 Ionawr 2022. Adroddwyd ar hynny hefyd gerbron y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 8 Chwefror 2022 (gweler eitem 7.8 ar yr agenda, drwy'r ddolen ganlynol:

<https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/audit-and-assurance-committee-2021-22/audit-080222-final-boardbook-v7-0-pdf/>

Daeth Grŵp Llywodraethu Bwrdd COVID-19 i ben ddiwedd mis Chwefror 2022, ac mae'r Bwrdd bellach wedi dychwelyd i gynnal ei gylch arferol o gyfarfodydd, sef bob yn eilfis. Mae'r Adroddiad ar Gydnerthedd Systemau yn parhau i gael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd ym mhob cyfarfod deufisol, ac mae busnes y Pwyllgorau wedi dychwelyd i 'fusnes fel arfer'. Mae trefniadau llywodraethu a strwythurau adrodd yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus gyda'r gallu, ar ôl trafodaeth a chytundeb y Bwrdd, i gynyddu neu leihau'r trefniadau hynny, fel bo'r angen.

Eleni, dechreuodd y Bwrdd lechyd baratoi am Ymchwiliad Cyhoeddus a oedd ar ddod i bandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Llywio Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 (a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror 2022). Pwrpas y Grŵp Llywio yw ystyried strategaeth yr Ymchwiliad Cyhoeddus a'r ymagwedd ar ei gyfer cyn gwneud argymhellion ynghylch hynny i'r Bwrdd. Mae aelodaeth y Grŵp Llywio yn cynnwys yr Aelod Cyfreithiol Annibynnol, yr Aelod Annibynnol o'r Undeb Llafur, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant, y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, y

Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Gellir gwahodd aelodau allweddol eraill o staff i fod yn bresennol yn y Grŵp Llywio yn ôl yr angen.

13.7 Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod COVID-19

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, parhawyd i gynnal pob cyfarfod yn rhithiol, fel bo modd sicrhau presenoldeb llawn yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, ac i sicrhau proses agored a thryloyw.

Yn y cyfnod digynsail hwn, cydnabyddir bod cyfyngiadau ar allu Byrddau a Phwyllgorau i gyfarfod yn wirioneddol lle nad oes angen hynny, ac y gellir defnyddio dulliau eraill i gynnal cyfarfod. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r sefydliad gyfarfod yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd y cyhoedd yn gysylltiedig â'r pandemig bu cyfyngiadau ar ymgynnull yn gyhoeddus, felly ni fu modd caniatáu i'r cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd ein Bwrdd a'r Pwyllgorau o fis Ebrill 2021 hyd fis Mawrth 2022. Er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau canlynol:

- Defnyddiwyd amrywiaeth o lwyfannau fideo ar-lein i alluogi aelodau'r Cyhoedd i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd, gan sicrhau proses agored a thryloyw. Cyhoeddwyd dolenni a recordiadau ar ein gwefan.



- Cafodd agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau eu cadw mor fyr ag a oedd yn bosibl, ac fe gytunodd y Cadeirydd a'r Arweinydd Gweithredol arnynt yn unol â'r arfer.
- Hyd y bo modd, cafodd agendâu a phapurau cysylltiedig eu cyhoeddi 10 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd, a 7 diwrnod cyn cyfarfodydd Pwyllgor.

Cafodd diweddariadau llafar a roddwyd yn y cyfarfodydd eu cynnwys yn y cofnodion, a lle'r oedd modd, darparwyd cofnodion drafft y Bwrdd i'r cyhoedd cyn pen wythnos ar ôl y cyfarfod.

- Cynigiwyd darpariaeth i gwestiynau ysgrifenedig gael eu derbyn gan Aelodau Bwrdd nad oeddent yn gallu bod yng nghyfarfod y Bwrdd, gan roi ymateb yn syth ar ôl y cyfarfod.
- Roedd ein tudalennau gwe a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn hysbysu ynghylch dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, ac yn cynnwys cyfeiriadau at wybodaeth a oedd wedi'i chyhoeddi.
- Roedd tudalennau cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar y wefan (lle byddai cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu hysbysebu'n swyddogol) yn esbonio pam nad oedd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cyfarfod yn gyhoeddus, a bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithiol.

Fel Swyddog Atebol, ac ystyried sefyllfa barhaus COVID-19, parhawyd i adolygu'r dull hwn yn gyson ar y cyd â'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd. O fis Mai 2022 ymlaen, mae'r Bwrdd wedi cytuno i ailgydio mewn cyfarfodydd gwirioneddol. Bydd y Pwyllgorau'n parhau i gyfarfod yn rhithiol wrth inni barhau i ymateb i COVID-19 ac yn ceisio dychwelyd i fusnes arferol, a chadw at hynny drwy gydol y flwyddyn.

Rydym wedi cymryd sawl cam i gryfhau tryloywder cyfarfodydd ein Bwrdd a'r Pwyllgorau i'r cyhoedd o 1 Chwefror 2022. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi recordiadau o'n cyfarfodydd Pwyllgor rhithiol o fewn ychydig ddyddiau ar ôl y cyfarfodydd, cyfeirio cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau i sylw'r cyhoedd drwy ein cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhestru'r materion sydd i'w trafod yn breifat gan Bwyllgorau ar agenda gyhoeddus y Pwyllgorau.

13.8 Cyfansoddiad y Bwrdd

Gweler adran 10.1.1 o fewn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

Dyma rai o'r eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2021-2022:

- Cymeradwyo Adroddiad ar Berfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol 2020-21;
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- CTCL drafft 2022-2025;
- Adroddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd;



- Gwasanaethau Fasgwlaidd;
- Partneriaeth Llawfeddygaeth Robotig Cymru Gyfan;
- Storiâu cleifion;
- Asesiad o Anghenion Fferyllol;
- Perfformiad ariannol;
- Adroddiadau rheolaidd ar Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
- Adroddiadau Rheolaidd ar y Coronafeirws a Briffiau Cydnerthedd Systemau;
- Adroddiadau ar berfformiad mewn perthynas â thargedau lleol a chenedlaethol allweddol;
- Adroddiadau sicrwydd oddi wrth Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori'r Bwrdd;
- Cylchoedd Gorchwyl a Chynlluniau Gwaith;
- Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru).

Cyflwynir aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau a'r Rolau Hyrwyddwr yn ystod 2021-2022 er gwybodaeth yn Atodiad 1 i'r DLIB hwn.

Cafwyd nifer o newidiadau i gyfansoddiad y bwrdd dros y 12 mis diwethaf.

Ffarweliodd y Bwrdd lechyd â:

- Len Richards, Prif Weithredwr ar 30 Medi 2021.
- Steve Curry – Prif Swyddog Gweithredu ar 31 Rhagfyr 2021.
- Stuart Walker – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr ar 18 Chwefror 2022.

Achosodd y newidiadau uchod swyddi gwag ar lefel swyddog a arweiniodd at y canlynol:

- Camodd Stuart Walker (Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr) i rôl Prif Weithredwr Dros Dro o 1 Hydref 2021 hyd 31 Ionawr 2022.
- Penodwyd Meriel Kenney (Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol) i rôl Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro o 1 Hydref 2021; a
- Chamodd Caroline Bird (Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu) i rôl y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro ar 1 Ionawr 2022 pan adawodd Steve Curry ar 31 Rhagfyr 2021.

Rhoddwyd hefyd groeso cynnes i'r canlynol i'r Tîm Gweithredol:

- Rachel Gidman – Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant o 3 Mai 2021.
- David Thomas, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol o 1 Mehefin 2021.
- Meriel Jenney - Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro o 1 Hydref 2021.
- Caroline Bird – Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro o 1 Ionawr 2022.
- Suzanne Rankin – Prif Weithredwr o 1 Chwefror 2022.
- Ymunodd yr Athro Ceri Phillips a David Edwards â'n Bwrdd fel Aelodau Annibynnol ar 1 Ebrill 2021.



13.9 Y Pwyllgorau

Yn unol ag Adran 2 o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, ceir darpariaeth y "Caiff y Bwrdd, ac os yw'n derbyn cyfarwyddyd i wneud hynny gan LLC, mae'n rhaid iddo benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd, naill ai i gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau", mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau,

gyda phob Pwyllgor Statudol wedi'i gadeirio gan Aelod Annibynnol. Cymeradwywyd y strwythur Pwyllgorau cyfredol yng nghyfarfod y Bwrdd ar 31 Mawrth 2022. Ar ran y Bwrdd, mae'r Pwyllgorau'n craffu, yn cynnal trafodaethau datblygu, ac yn asesu risgiau cyfredol a gwaith monitro perfformiad yng nghyswllt sbectrwm eang o swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd a'i rolau a'i gyfrifoldebau.

Roedd y Pwyllgorau Bwrdd canlynol wedi'u sefydlu yn ystod 2021-2022:

Pwyllgor	Eitemau a Ystyriwyd
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Rôl y Pwyllgor Archwilio yw cynghori a sicrhau'r Bwrdd, a'r Swyddog Atebol, ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith i'w cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, yn unol â'r safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru.	- Cyflwynwyd Cynlluniau Archwilio Mewnol i bob cyfarfod yn rhoi manylion am ddeilliannau, canfyddiadau allweddol a chasgliadau; - Cynllun Archwilio gan Archwilio Cymru 2021, adroddiadau diweddarar ar archwiliadau cyfredol ac wedi'u cynllunio, a chynnyrch a gyhoeddwyd; - Adroddiadau Datgan Buddiant; - Adroddiadau Orlhain Cydymffurfiaeth Reoleiddiol; - Adroddiadau Orlhain Archwiliadau Mewnol ac Allanol; - Adroddiadau Cydymffurfio Caffael, Cydymffurfio'r Gweithlu ac Atal Twyll; - Cyfrifon Blynyddol, Adroddiadau Atebolrwydd a Thaliadau ar gyfer 2020-2021; - Colledion a Thaliadau Arbennig.
Pwyllgor Cyllid Diben y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni ei gyfrifoldebau o ran ei sefyllfa ariannol, ei berfformiad a'i ddarpariaeth gyfredol, a'r hyn a ragwelir i'r dyfodol.	- Rhaglen Lleihau Costau; - Y Gofrestr Risg Ariannol; - Ffurflenni Monitro Ariannol - CTCI



Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni Diben y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch datblygu a gweithredu strategaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd, "Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol", a chynlluniau galluogi allweddol. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar gyflawni'r strategaeth drwy' CTCI, ac unrhyw risgiau a allai amharu ar gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth, gan gynnwys camau lliniaru yn erbyn y rhain.	• Adroddiadau Cynnydd Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol; • Cynllun Cyfalaf • Cynllun Gwasanaethau Clinigol; • Cymru Iachach; • Datblygiadau Masnachol; • Polisiâu Cyflogaeth; • Dangosyddion Perfformiad Sefydliadol Allweddol; • Cynllun y Gweithlu; • CTCI
Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol Mae'r Pwyllgor hwn yn hysbysu'r Bwrdd am unrhyw bryderon yn gysylltiedig â chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, ac yn rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.	• Adroddiadau Monitro'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl; • Adroddiad Archwilio Mewnol ar Drefniadau Diogelu wrth • Amddifadu o Ryddid • Mesur Iechyd Meddwl; • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; • Ymweliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yw rhoi cyngor i'r Bwrdd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiadau cleifion, gan gynnwys gweithgarwch iechyd cyhoeddus, hyrwyddo iechyd a diogelu iechyd.	• Adroddiadau'r Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) • Storiâu cleifion • Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Adroddiadau AGIC a chynnydd • Adroddiad Blynyddol ar Bryderon • Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon • Adroddiadau Sicrwydd gan y Byrddau Clinigol • Monitro ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Ansawdd Allweddol



Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Diben y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yw gwneud trefniadau i reoli Cronfeydd Elusennol y BIP. Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro (yr Elusen) yw'r elusen swyddogol sy'n cefnogi holl waith y Bwrdd Iechyd. Crëwyd yr Elusen ar 3 Mehefin 1996 drwy Ddatganiad Ymddiriedaeth ar ôl ad-drefnu gwasanaethau iechyd, ac fe'i diwygiwyd drwy Weithredoedd Atodol ar 12 Gorffennaf 2001 a 2 Rhagfyr 2010. Y Bwrdd Iechyd yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli'r gronfa i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (yr Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio arian elusennol isicrhau'r budd mwyaf posibl i gleifion y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ychwanegu at gyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG yn hytrach na chymryd ei le.	• Adroddiad y Panel Ceisiadau Cronfeydd Elusennol • Adroddiad Monitro Cyllid • Adroddiad y Grŵp Buddion Staff • Ceisiadau newydd i'r Cronfeydd Elusennol • Strategaeth cronfeydd elusennol • Adroddiad Blynyddol yr Elusen Iechyd • Adroddiad Blynyddol y Celfyddydau • Diweddariad ynghylch buddsoddi
Pwyllgor Gwybodaeth Iechyd Digidol Pwrpas y Pwyllgor hwn yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y canlynol: • Bod prosesau a systemau priodol ar waith ar gyfer data, rheoli gwybodaeth a llywodraethu er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion datganedig, ei gyfrifoldebau deddfwriaethol ac unrhyw ofynion a safonau perthnasol a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru; • Bod gwelliant parhaus o ran llywodraethu gwybodaeth o fewn y Bwrdd Iechyd, a bod risgiau'n deillio o hyn yn cael eu rheoli'n briodol; • Bod trefniadau cyfathrebu, ymgysylltu a hyfforddi effeithiol ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth.	• Gofynion gwarcheidwad Caldicott; • Rhyddid Gwybodaeth; • Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); • Adroddiadau ar Dor Diogelwch Data; • Polisiâu a gweithdrefn; • Strategaeth Ddigidol



Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Diben y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth drwy'r sefydliad â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd, cymeradwyo a monitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Gwella Blaenoriaeth Iechyd a Diogelwch, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau perthnasol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.	• Gorfodaeth Tân; • Arolygiadau Iechyd yr Amgylchedd; • Arolygiadau asiantaethau gorfodi; • Cydymffurfiaeth rheoli gwastraff; • Dyfeisiau gweithiwr unigol; • Adroddiad olrhain corff rheoleiddio ac adolygu; • Cofrestr Risg
Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth Diben y Pwyllgor yw rhoi: (i) cyngor i'r Bwrdd ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau eraill uwch o'r staff o fewn y fframwaith a osodir gan Lywodraeth Cymru. (ii) sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y taliadau a'r telerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau contractiol, ar gyfer yr holl staff, yn unol â'r gofynion a'r safonau a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru.	• Materion yn ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth
Pwyllgor Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol Mae'r Pwyllgor hwn yn goruchwyllo datblygiad y rhaglen gyffredinol "Llundio Ein Hysbytai i'r Dyfodol". Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n gadarn, ac wedi'u cyflawni'n briodol i sicrhau canlyniadau a buddion y Rhaglen.	• Achos Busnes y Rhaglen • Cwmpasu'r Achos Amlinellol Strategol • Cofrestr Risg y Rhaglen



Cyhoeddir adroddiadau, cynllun gwaith a chylch gorchwyl y Pwyllgorau ar ein gwefan: <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/>

Mae'r tabl yn Atodiad 1 y DLIB hwn yn nodi manylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol ac yn cadarnhau aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer 2021-2022, y cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod deiliadaeth yr unigolyn ac unrhyw rolau Hyrwyddwr a gyflawnwyd. Mae Tabl 1 yn Atodiad 2 y DLIB yn nodi Dyddiadau Cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer 2021-2022.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd wrth y Bwrdd am weithgareddau'r Pwyllgor, yn amlinellu'r risgiau allweddol ac yn amlygu meysydd y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at ei asesiad o sicrwydd a chraffu ar gyflawniad amcanion. Mae'r Pwyllgorau, yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau, lle bo angen, eu bod yn adrodd ac yn rhoi ystyriaeth y naill i'r llall, a bod sicrwydd a chynghori yn cael ei roi i'r Bwrdd ac i'r sefydliad ehangach. Ar ben hynny, yn unol â Rheolau Sefydlog, mae pob Pwyllgor wedi llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 yn rhoi crynodeb defnyddiol o'i waith.

Cynhaliodd pob Pwyllgor adolygiad o'i Gylch Gorchwyl yn 2021-2022, a chymeradwywyd y rhain yn ffurfiol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2022.

Ceir crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor ar wefan y Bwrdd lechyd: <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/>

Mae pob Pwyllgor yn cadw Cofnod o Gamau Gweithredu a gaiff ei fonitro ym mhob cyfarfod.

I gefnogi pob un o brif Bwyllgorau'r Bwrdd ceir strwythur o is-bwyllgorau tanategol, sy'n adlewyrchu cwmipas rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor dan sylw.

13.10 Grŵpiau Cynghori a Chydbwyllgorau

I gefnogi'r Bwrdd, mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd hefyd gael tri Grŵp Cynghori.

Mae'r Grwpiau Cynghori yn cynnwys:

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi'i ffurfio o amrywiaeth o sefydliadau partner o bob rhan o ardal y Bwrdd lechyd. Ei rôl yw rhoi cyngor annibynnol ar unrhyw agwedd ar fusnes y Bwrdd lechyd. Mae'n hwyluso ymgysylltiad llawn a thrafodaeth fywiog ymhlith rhanddeiliaid o'r holl gymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd lechyd, gan anelu i gyflwyno safbwyntiau rhanddeiliaid mewn modd ystyrlon a chytbwys yn sail ar gyfer gwaith cynllunio a phenderfyniadau'r Bwrdd lechyd.

Gall hyn gynnwys:

- Ymgysylltiad ac ymglymiad cynnar wrth bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd lechyd;
- Rhoi cyngor ar gynigion gwella gwasanaethau penodol, cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol; ac
- Adborth ar effaith gweithrediadau'r Bwrdd lechyd ar y cymunedau a wasanaethir ganddo.



Dyma faterion o bwys y bu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn eu trafod yn ystod 2021-2022:

- Cynllunio i Adfer
- Llunio Ein Gwasanaethau Clinigol
- Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25
- Pennu Blaenoriaethau,
- Gwasanaethau Canser Acíwt
- Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Ysbyty Athrofaol Cymru 2.

Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLI)

Gweler paragraff 6.3 o adran Trosolwg o Berfformiad yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r Cydbwyllgorau'n cynnwys:

Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd

Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o broffesiynau clinigol a gofal iechyd o fewn y Bwrdd Iechyd ac ar draws gofal sylfaenol. Mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r Grŵp Cyngori ar hyn o bryd, ac felly nid yw wedi cyfarfod yn ystod 2021-2022. Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl mecanwaith i geisio mewnbwn clinigol, er enghraifft daeth cynrychiolydd o'r corff Ymgynghori i gyfarfodydd y Bwrdd, gan roi sylwadau ar ôl ymgysylltu â meddygon ymgynghorol ar faterion allweddol fel llawdriniaethau trauma mawr a thorasig. Bydd adolygu Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Cyngori hwn, a datblygu ei raglen waith a'i swyddogaeth i wneud y

defnydd gorau o'r mecanweithiau hyn, sefydlu strwythur cadarn ac osgoi ail-wneud gwaith yn flaenoriaeth wrth lywodraethu ar gyfer 2022-23. Cyn gynted ag y bydd y darn hwn o waith wedi'i gwblhau, byddwn yn diweddarau ein gwefan i gynnwys gwybodaeth bellach, gan gynnwys copïau wedi'u diweddar o Gylch Gorchwyl a rhaglen waith y Fforwm.

Mae Cylch Gorchwyl a chofnodion y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Fforwm Partneriaeth Lleol ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

<https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/lywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/>

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)

Sefydlwyd PGIAC yn 2010 gan y saith bwrdd iechyd i sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad teg a chyfartal at yr ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Mae Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn aelod o'r Cydbwyllgor hwn, a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Mae tair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru yn Aelodau Cysylltiol o PGIAC. Bydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ganddo.

Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (PGAB)

Cydbwyllgor o'r saith bwrdd iechyd yw PGAB, gyda thair ymddiriedolaeth y GIG yn aelodau cysylltiol. Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014. Mae'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynau gwasanaethau ambiwlans brys ar raddfa Cymru gyfan. Cynhelir y Pwyllgor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac



mae'r Prif Weithredwr yn cynrychioli'r Bwrdd lechyd ar y Pwyllgor, ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

Pwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC)

Sefydlwyd Pwyllgor PCGC yn 2012, ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Nid Cydbwyllgor mohono. Mae'n gofalu am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, fel gwasanaethau caffael, recriwtio a chyfreithiol. Cynrychiolydd y Bwrdd lechyd yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant, ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor.

13.11 Penodiadau Cyhoeddus

Ymunodd yr Athro Ceri Phillips a David Edwards â'n Bwrdd fel Aelodau Annibynnol ar 1 Ebrill 2021.

Cafodd Lance Carver, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, ei ailbenodi'n Aelod Cyswllt o'n Bwrdd ar 2 Tachwedd 2021. Penodwyd Sam Austin yn Gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar 1 Tachwedd 2020 hyd 31 Hydref 2022, a oedd yn benodiad ôl-weithredol yn sgil COVID-19.

13.12 Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae pob Aelod Bwrdd wedi datgan yn ysgrifenedig eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel Cyfarwyddwr i sicrhau bod archwilyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol. Mae'r holl Aelodau Bwrdd ac Uwch Reolwyr a'u perthnasau agos (gan gynnwys Cyfarwyddwyr yr holl Sefydliadau a Gynhelir) wedi datgan unrhyw fuddiannau ariannol a swyddi awdurdodol a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau. Ceir cofrestr lawn o'r buddiannau ar gyfer 2021-2022 ar gais gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol neu drwy'r ddolen ganlynol <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cofrestr-buddiannau/>.

13.13 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2021-2022

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau lechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Tabl sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r DLIB hwn yn amlinellu Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau a'r Cofnod Presenoldeb ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021- Mawrth 2022.



13.14 Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol

Yn ystod y flwyddyn, drwy ein systemau rheolaeth fewnol, nodwyd achosion o dorri rheolau yn gysylltiedig â chynlluniau cyfalaf a gwariant, yn enwedig yn gysylltiedig â chaffael, llywodraethu a gwaith monitro ariannol ar gynlluniau cyfalaf a gwariant cyfalaf. Cynhaliwyd adolygiad gan y Bwrdd lechyd, a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, ac na cheir unrhyw achosion o dorri rheolau eto yn y dyfodol. Gweler eitem 8.1 ar yr agenda drwy'r ddolen ganlynol: <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2021-11-25-final-boardbook-v9-pdf1/>.

Cafodd Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio eu briffio ar y materion cyn gynted ag y'u nodwyd, a brifiwyd y Bwrdd yng Nghyfarfod Preifat y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi cynnal sgwrs 'dim bydd annisgwyl' gyda Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru. Cafodd Archwilio Cymru hefyd eu briffio ynghylch y sefyllfa, ac ar ôl trafodaeth ac adolygu'r cynllun gweithredu a oedd wedi cael ei sefydlu, cytunwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae Archwilwyr Mewnol y Bwrdd lechyd hefyd yn cynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, ac mae eu gwaith yn y maes hwn yn parhau.

13.15 Y gallu i ymdrin â risg

Mae systemau rheoli'r Bwrdd lechyd wedi'u dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na chael gwared â phob risg; ni all ond felly roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae system reolaeth y Bwrdd lechyd wedi'i seilio ar broses barhaus a ddyluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i ddatblygu a gweithredu Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd sy'n nodi, yn dadansoddi, yn gwerthuso ac yn rheoli'r risgiau sy'n bygwth cyflawniad ei amcanion strategol. Defnyddir Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd lechyd (FfSB) gan y Bwrdd i nodi, monitro a gwerthuso risgiau a fydd yn effeithio ar Amcanion Strategol, ac fe'i hystyrir ochr yn ochr ag offer rheoli allweddol eraill, fel y Gofrestr Risg Gorfforaethol, dangosfyrddau perfformiad ac ansawdd ac adroddiadau ariannol, i greu darlun cynhwysfawr i'r Bwrdd o broffil risg y sefydliad.

Cafodd Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (y Strategaeth) ei diweddarau a'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021, ac mae'n nodi'r




cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r staff drwy'r holl sefydliad ar gyfer rheoli risg strategol a gweithredol, ac yn disgrifio'r gweithdrefnau i'w defnyddio er mwyn nodi, dadansoddi, gwerthuso a rheoli risgiau i gyflawni amcanion strategol.

Mae risgiau strategol yn risgiau o bwys a chanddynt y potensial i effeithio ar gyflawniad amcanion strategol, ac fe'u codir

gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd, a'u monitro ganddynt. Mae risgiau gweithredol yn risgiau allweddol sy'n effeithio ar Fyrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol unigol, ac fe'u rheolir o fewn y Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, a'u huwchgyfeirio, os oes angen, drwy strwythur adrodd risg y Bwrdd Iechyd (Gweler Ffigur 1).

Ffigur 1 – Strwythur Adrodd Rheoli Risg



Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) yn rhan annatod o'r system rheolaeth fewnol ac yn diffinio'r risgiau eithafol posibl sy'n effeithio ar gyflawniad amcanion strategol. Y mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r mesurau rheoli a'r sicrwydd sydd ar waith neu'r cynlluniau i'w lliniaru. Mae FfSB yn alinio prif risgiau, mesurau rheoli allweddol a sicrwydd ynghylch y mesurau rheoli ochr yn ochr â phob un o amcanion strategol y Bwrdd lechyd.

Nodir bylchau lle bo mesurau rheoli allweddol a sicrwydd yn annigonol i leihau'r risg o beidio cyflawni'r amcanion. Drwy hyn gellir datblygu cynllun gweithredu i gau'r bylchau a lliniaru'r risgiau, a gaiff ei fonitro wedyn gan y Bwrdd i'w weithredu.

Mae'r Strategaeth yn berthnasol i'r aelodau hynny o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Bwrdd lechyd ac y mae gan y Bwrdd lechyd gyfrifoldeb cyfreithiol drostynt, a bwriedir iddi drafod yr holl risgiau posibl y gallai'r sefydliad ddod i gysylltiad â hwy.

Ceir copi o'r Strategaeth drwy'r ddolen ganlynol:

<https://cavuhb.nhs.wales/files/policies-procedures-and-guidelines/corporate-policy/r-corporate-policy/risk-management-and-baf-strategy/>

Dyma amcanion y Strategaeth:

- lleihau effaith risgiau, digwyddiadau andwyol, a chwynion hyd yr eithaf drwy nodi risgiau'n effeithiol, eu blaenoriaethu, eu trafod a'u rheoli;
- cynnal fframwaith rheoli risg, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod risgiau strategol a gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol;

- cynnal ymagwedd gydlynol at lywodraethu corfforaethol a rheoli adnoddau rheoli risg yn effeithiol;
- sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant y Bwrdd lechyd;
- lleihau colledion ariannol y gellir eu hosgoi, neu'r gost o drosglwyddo risg, hyd yr eithaf drwy strategaeth ariannol gadarn;
- sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn bodloni ei ymrwymadau o ran lechyd a Diogelwch; a
- Disgrifio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn rheoli risg yn y sefydliad.

Ym mis Mawrth 2022, roedd y risgiau canlynol wedi'u nodi fel rhai a oedd yn achosi'r risg fwyaf i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd lechyd:

1. Y Gweithlu
2. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy
3. Diogelwch Cleifion
4. Newid Diwylliant mewn modd Cynaliadwy
5. Asedau Cyfalaf
6. Capasiti Gofal wedi'i Gynllunio
7. Cyflawni Cynllun Blynyddol
8. Llesiant y Staff
9. Bod Anghydraddoldebau lechyd yn Gwaethygu yng Nghaerdydd a'r Fro



Yn ogystal â'r risg uchod, caiff Cynaliadwyedd Ariannol y Bwrdd lechyd ei adolygu'n barhaus, ac adroddir amdano wrth y Bwrdd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Hyd ddiwedd mis Mawrth 2022 nid yw Cynaliadwyedd Ariannol wedi'i restru fel risg yn FfSB gan fod y Bwrdd lechyd wedi cyrraedd ei sgôr targed drwy gyflawni'r Cynllun Ariannol ar gyfer 2021/22 yn ôl y disgwyl.

Ochr yn ochr â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n nodi'r risgiau gweithredol eithafol (y rhai â sgôr 20/25 neu'n uwch) o flaen y Bwrdd lechyd.

Mae pob un o'r risgiau a nodir ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd wedi'i chysylltu ag un o Bwyllgorau'r Bwrdd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Ym mis Mawrth 2022, roedd 17 o risgiau eithafol wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a chanddynt y proffil sgoriau canlynol:

- 1 risg â sgôr o 15/25 a oedd wedi gostwng o'r sgôr 20/25 a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2022; ac
- 16 o risgiau â sgôr o 20/25.

Gellir gweld manylion y risgiau hyn ac Adroddiad y Bwrdd lechyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd lechyd, a'r adroddiad cyflwyno ar gyfer Mawrth 2022 drwy'r ddolen ganlynol:

<https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2022-03-31-public-board-papers-v14-pdf/>

Fel yr amlygwyd o'r blaen, wynebair sefydliad nifer o heriau yn sgil yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19. Nodwyd nifer o risgiau newydd a risgiau a oedd yn dod i'r amlwg. Er bod gan y sefydliad gynllun digwyddiad mawr a pharhad busnes, fel sy'n ofynnol yn Neddf Argyfyngau Sifil 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail. Rydym wedi cymryd camau sylweddol ar raddfa leol a chenedlaethol i baratoi am yr effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth, ac i ymateb i hynny. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb aml-asiantaeth fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Erys lefel o ansicrwydd ynghylch effaith gyffredinol hyn ar ddarpariaeth gwasanaethau'r sefydliad yn y presennol, ac yn y tymor hwy, ond hyderaf ein bod yn cymryd pob cam priodol.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau â'i hymateb, a chynllunio am y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn sail ar gyfer hyn, ynghyd â'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

13.16 Rheoli Risg

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae gan y Cyfarwyddwr gyfrifoldeb dirprwyol i reoli datblygiad a gweithrediad y Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae



trefniadau ar waith i asesu a rheoli risgiau'n effeithiol ar draws y sefydliad yn effeithiol, sy'n cynnwys adolygu a diweddarau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn barhaus fel bod y Bwrdd yn cadw golwg ar brif risgiau strategol a gweithredol y Bwrdd lechyd.

Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn cadw rheolaeth ar FfSB ac yn cyfarfod ag Arweinwyr Gweithredol risgiau FfSB bob deufis i sicrhau bod y risgiau a nodir yn FfSB yn cael eu diweddarau'n rheolaidd i gynnwys risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd gwasanaeth, fel bod y cofnodion yn rhoi adlewyrchiad cywir a chyfredol o'r risgiau o flaen y Bwrdd lechyd.

Cyflwynir FfSB hefyd i'r Bwrdd er mwyn craffu arno a'i gymeradwyo bob deufis, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, is-bwyllgor o'r Bwrdd, yn goruchwyllo'r broses a ddefnyddir i'r Bwrdd gael sicrwydd yn gysylltiedig â rheoli FfSB.

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn monitro ac yn cynnal y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae pob Adran Gorfforaethol a Bwrdd Clinigol yn gyfrifol am gadw cofrestr risgiau gynhwysfawr a ddefnyddir yn sail ar gyfer y risgiau a adlewyrchir ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr risg y Bwrdd Clinigol a'r Adran Gorfforaethol i adolygu a monitro cofrestrau Risg y Bwrdd Clinigol/yr Adran Gorfforaethol i sicrhau eu bod yn cofnodi'n gywir y risgiau y mae eu hardaloedd yn dod ar eu traws ac i gynorthwyo'r meysydd hynny i ystyried risgiau newydd, a risgiau sy'n dod i'r amlwg i'w gwasanaeth. Yn dilyn yr ymarfer hwnnw, caiff risgiau gweithredol eithafol, y rhai a gafodd sgôr o 20/25 neu uwch, eu

cofnodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'u hadrodd wrth y Bwrdd er mwyn craffu arnynt a'u cymeradwyo'n ddeufisol (yn gyhoeddus ers mis Ionawr 2021). Caiff unrhyw risgiau a nodir fel risgiau a allai gael effaith ar amcanion strategol y Bwrdd lechyd eu hychwanegu at FfSB. Mae pob risg a nodir ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd wedi'i chysylltu â Risg Strategol a geir yn FfSB er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro a'u huwchgyfeirio'n briodol.

Caiff risgiau allweddol a nodir yn FfSB ac ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd eu rhannu mewn is-bwyllgorau o'r Bwrdd i'w trafod ac i graffu arnynt ymhellach. Caiff risgiau FfSB eu hadolygu yn is-bwyllgorau canlynol y Bwrdd:

1. Y Gweithlu – Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
2. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy – Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
3. Diogelwch Cleifion – Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
4. Diwylliant Cynaliadwy – Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
5. Asedau Cyfalaf - Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Strategaeth a Chyflawni
6. Capasiti Gofal Wedi'i Gynllunio - Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
7. Cyflawni'r Cynllun Blynnyddol - Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
8. Llesiant y Staff – Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
9. Anghydraddoldebau lechyd yng Nghaerdydd a'r Fro yn Gwaethygu - Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni



Cyfeirir cofnodion y Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd i sylw'r Pwyllgorau hynny y mae'r cofnodion yn gysylltiedig â hwy ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Yn dilyn cyfarfod mis Ionawr 2022 o'r Bwrdd, bu'r holl Risgiau Iechyd Meddwl a gofnodwyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn destun trafodaeth a chraffu ym Mhwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ym mis Chwefror 2022, a rhannwyd yr holl Risgiau Diogelwch Cleifion yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y mis Chwefror hwnnw. Trafodwyd y risgiau hynny a oedd yn gysylltiedig â'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yng nghyfarfod Pwyllgor mis Mawrth 2022.

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi hyfforddiant i'r staff ar reoli prosesau ac asesiadau rheoli risg yn y gweithle. Rheolir Hyfforddiant Rheoli Risgiau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd gan yr Adran Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn cynnig sesiynau hyfforddi i arweinwyr risg drwy raglenni hyfforddi wedi'u targedu sy'n seiliedig ar ryngweithio rheolaidd y tîm â Byrddau Clinigol ac Adrannau Corfforaethol. Ochr yn ochr â hyn, ers mis Mawrth 2021 mae'r tîm wedi darparu sesiwn hyfforddi wythnosol rithiol ar-lein ar Reoli Risg, sydd ar gael i'r holl aelodau staff. Mae cynllun hyfforddi'r Adran Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gynllunio i ymwreiddio dull cyson o reoli, sgorio a chofnodi risg o'r ward i'r bwrdd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Caiff y risgiau a nodir yn FfSB ac ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol eu hystyried wrth bennu awydd y Bwrdd Iechyd am risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod na ellir darparu

gofal iechyd heb wynebu rhai risgiau, ynghyd â'r canlyniadau a'r camau lliniaru sy'n deillio o hynny. Y mae hefyd yn sicrhau na chaiff risgiau eu hystyried yn ynysig, ac y cymerir risgiau ar ôl ystyried yr holl risgiau sy'n llifo drwy'r sefydliad.

Hefyd edrychodd y Bwrdd eto ar ei Awydd am Risg mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Mehefin 2021. Gwnaed hyn i drafod yr Awydd am Risg a hefyd i wirio bod y Bwrdd yn symud i'r cyfeiriad cywir, o fod mewn sefyllfa "Ochelgar" i "Geisio". O ran Archwaeth Risg, mae ein FfSB yn diffinio "Gochelgar" fel "Ffatrio opsiynau darparu diogel lle ceir lefel isel o risg gysylltiedig, nad oes iddynt ryw lawer o enillion posibl", a "Cheisio" fel "Bod yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau a allai gynnig enillion busnes uwch (er bod y risg gysylltiedig yn fwy)".

Mae'n bwysig cyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol, fel bo'n briodol, ar bob cam o'r broses rheoli risg ac ynghylch y broses gyfan. Bydd mynychder y cyfathrebu yn amrywio yn ôl pa mor ddifrifol yw'r risg, a bydd yn destun trafodaeth a chytundeb â rhanddeiliaid a phartneriaid fel bo'r angen. Arweinir y broses gan unigolyn a enwebir fel yr arweinydd i reoli'r risg ac i gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol, a'r unigolyn hwnnw fydd y Cyfarwyddwr Gweithredol a benodwyd i arwain y risg. Fel yr arweinydd dynodedig ar gyfer Rheoli Risg, bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn mynychu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd i frifio rhanddeiliaid o blith y cyhoedd ynghylch gweithgareddau'r Bwrdd, gan gynnwys rheoli risg.



13.17 Rheoli Risg yn ystod COVID-19

Gweler adran 13.16 (Rheoli Risg) uchod.

14. Trefniadau Cynllunio

Ar gyfer 2021/2022, nid oedd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu CTCI tair blynedd llawn gan fod Llywodraeth Cymru wedi atal y gofyniad am CTCI mewn ymateb i'r pandemig. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun blynyddol ar gyfer 2021/2022 a gymeradwywyd gan y Bwrdd, ac a oedd yn unol â'r canllawiau cynllunio a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd CTCI 2019 – 2022 yn dal i fodoli felly cyflawnwyd y ddyletswydd i sicrhau cydbwysedd dros y cyfnod o dair blynedd erbyn diwedd 2022.

Yn ystod hydref 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yn cael ei ailgychwyn, a chyhoeddwyd canllawiau cynllunio. Dechreuwyd gwaith cynllunio ar CTCI 2022-2025 ymhell cyn cyhoeddi'r canllawiau cynllunio, a chymeradwywyd drafft o'r CTCI gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cytuno â swyddogion Llywodraeth Cymru ar estyniad o dri mis fel bo modd gwneud gwaith pellach i gwblhau'r cynllun adfer ariannol, gyda golwg ar gyflwyno CTCI terfynol i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf 2022, neu tua'r adeg honno.

15. Datgeliadau Gordodol

15.1 Safonau Iechyd a Gofal

Yn 2017-18, cyflwynwyd cyfres ddiwygiedig o Safonau Iechyd a Gofal i GIG Cymru. Yn benodol, cyflwynwyd safon newydd ar gyfer Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd. Mae angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol er mwyn cyrraedd y safon:

- Bod gwasanaethau iechyd yn dangos arweinyddiaeth effeithiol trwy bennu cyfeiriad, ysgogi brwdfrydedd, cyflymder ac egni, a datblygu pobl.
- Y caiff strategaeth ei phennu gyda ffocws ar ganlyniadau, ac mae dewisiadau'n seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth pobl. Bod y dull yn un cydweithredol gan adeiladu ar ddiben cyffredin.
- Bod gwasanaethau iechyd yn arloesi ac yn gwella trefniadau cyflenwi, yn cynllunio yn neilltuo adnoddau ac yn blaenoriaethu, yn datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau cyflenwi eglur, ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian.
- Bod gwasanaethau iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu a hunanymwybyddiaeth, ac uniondeb personol a phroffesiynol.
- Bod y Safonau Iechyd a Gofal yn tanategu ein holl weithgarwch ADPh - ein bod yn ystyried effaith a'r hyn a ddysgwyd yn sgil pob arolygiad ac adroddiad mewnol ac allanol. Gan rannu a monitro manylion am statws neu gynlluniau gwella os oes angen drwy'r broses ADPh, fel y disgrifir yn adran 15.7 (Trefniadau Llywodraethu Ansawdd).



- Drwy gyflwyno Tendable ar draws meysydd clinigol byddwn yn datblygu ymhellach, yn mesur ac yn monitro cyfres o ddangosyddion ansawdd.



15.2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Gweler adran 6.4 o'r Adroddiad ar Berfformiad.

15.3 Rheoliadau'r Gymraeg - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (RhSG)

Mae Safonau'r Gymraeg wedi rhoi cyfle i'r sefydliad wella lefel y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gennym i'n cleifion, i'n defnyddwyr gwasanaeth ac i'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, oherwydd COVID-19

a'r cyfnod adfer a gafwyd wedi hynny bu'r broses o weithredu'r Safonau'n arafach na'r disgwyl mewn rhai meysydd allweddol.



Yn 2021/22 gwnaethom barhau â'r ymgyrch fewnol i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr iaith, gan ofyn i'r staff 'Feddwl' sut y gallai ystyriaeth o'r Gymraeg wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Mae hyn yn annog staff i ystyried sut y gallant gynnwys y Gymraeg yn eu rolau beunyddiol, a'r rôl y gallant ei chwarae er mwyn annog twf yr iaith o fewn y Bwrdd Iechyd ac ymhlith cydweithwyr.

Mae'r canlynol wedi cael eu rhoi ar waith yn unol â delfrydau a dyheadau Safonau'r Gymraeg ac ymgyrch Meddwl Cymraeg:

- Adolygwyd yr holl Safonau gan roi diweddariadau drwy berchnogion y safonau drwy ddefnyddio meddalwedd rheoli prosiect 'Verto', sy'n monitro gweithrediad a chynnydd ein camau gweithredu i fodloni Safonau'r Gymraeg. Bydd y system yn ein galluogi i bennu llwyddiant yr ymgyrch a gweithrediad y safonau gan ddefnyddio system graddio CAG sy'n amlinellu pa safonau sydd wedi cau, ar agor ac ar y gweill. Bydd y cynllun cyffredinol yn llwyddiannus pan fydd mwy o safonau gwyrdd 'wedi cau' na'r safonau 'ar agor' ac 'ar y gweill', gan olygu bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd tuag at gydymffurfiaeth lawn. Rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith

ar 79 o'r 120 o Safonau, ac yn parhau i adolygu'r Safonau sy'n weddill. Sefydlwyd y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg i gael sicrwydd oddi wrth y Byrddau Clinigol eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Maent hefyd yn adrodd yn ôl ar risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio a pha gamau y byddant yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau rheng flaen lleol, fel gwasanaeth ffôn (y prif switsfwrdd ffôn), i sicrhau ei fod yn darparu'r lefel orau o wasanaethau yn Gymraeg. Mae'r Grŵp hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r tîm Cofnodion Cleifion i sicrhau y gall gynnig gohebiaeth yn Gymraeg (hy, llythyrau apwyntiad cleifion) i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n ffafrio hynny.

- Rydym wedi sicrhau bod ein rhaglen frechu ar gyfer COVID-19 yn cydymffurfio â'r Safonau drwy gynnig gwasanaeth dwyieithog yn y system archebu apwyntiadau, drwy negeseuon awtomatig ac asiant Cymraeg ei iaith i dderbyn archebion.
- Wedi cyflwyno'r pecyn derbyn cleifion arloesol i gleifion sy'n siarad Cymraeg o fewn lechyd Meddwl, Paediatreg a'r Uned Gofal Dwys. Mae'r pecyn yn cynorthwyo cleifion i sicrhau eu bod yn gallu derbyn gofal iechyd yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Parhau i hyrwyddo'r ymgyrch 'Meddwl Cymraeg' drwy ddiwrnodiau codi ymwybyddiaeth penodol, gan gynnwys Diwrnod Shwmae, Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Ddewi.


- Gweithio gyda Thîm Cedar yn sefydliad Cymru gyfan 'Gwerth mewn lechyd y GIG' i sefydlu rôl Cydgysylltydd y Gymraeg er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod eu proses ar gyfer Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Mae dau Uwch Gyfieithydd y Gymraeg wedi cyfieithu dros filiwn o eiriau ers ymuno â'r sefydliad.
- Mae gwefan y Bwrdd lechyd bellach ar gael yn ddwyieithog.
- Sefydlu Eisteddfod o fewn y sefydliad. Roedd yn gystadleuaeth agored i'r staff ennill gwobr mewn pedwar categori gwahanol.
- Gosod geiriau o groeso a brawddegau dwyieithog ar wal ar risiau Woodland House, sy'n dangos brawddegau syml y gall staff eu dysgu wrth gerdded o amgylch y swyddfa.

Cawsom gyfanswm o 9 cwyn yn 2021/22 oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd ymchwiliad i'r holl bryderon cyn i argymhellion gael eu cyflwyno y mae disgwyl i'r Bwrdd gydymffurfio â hwy. Y sgil gweithredu'r argymhellion mae'r sefydliad wedi gwella'r graddau y mae'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, ar ei wefan ac wrth gynnig gwasanaeth dros y ffôn.

Roedd gwaith ar yr holl bryderon wedi'i gwblhau ar 17/3/2022.

Mae 31% o'r staff wedi cofrestru eu sgiliau iaith ac ym mis Ebrill 2022 bydd ymgyrch yn cael ei chynnal i annog staff i gofrestru eu sgiliau Cymraeg.





Mae'r sefydliad yn dal i weithio i rannu swyddi i gategorïau yn ôl a yw'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Mae canllawiau wedi cael eu datblygu, gohiriwyd gweithredu'r canllawiau yn sgil pwysau gweithredol oherwydd COVID-19 a'r cyfnod adfer dilynol. Bydd y canllawiau hyn a'r gofyniad i hysbysebu'n ddwyieithog yn cael eu gweithredu fesul cam, gan ddechrau gyda'r adrannau Corfforaethol o fis Ebrill 2022.

15.4 Parodrwydd am Argyfwng

Fel yr amlygwyd o'r blaen, wynebair sefydliad nifer o heriau yn sgil yr angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig. Nodwyd nifer o risgiau newydd a risgiau a oedd yn dod i'r amlwg. Er bod gan y sefydliad gynllun digwyddiad mawr a pharhad busnes, fel sy'n ofynnol yn Neddf Argyfyngau Sifil 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail. Rydym wedi cymryd camau sylweddol ar raddfa leol a chenedlaethol i baratoi am yr effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth, ac i ymateb i hynny. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb aml-asiantaeth fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Erys lefel o ansicrwydd ynghylch effaith gyffredinol hyn ar ddarpariaeth gwasanaethau'r sefydliad yn y presennol, ac yn y tymor hwy, ond hyderwn ein bod yn cymryd pob cam priodol.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau â'i hymateb, a chynllunio am y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn sail ar gyfer hyn, ynghyd â'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

Yn ystod 2021/2022, cafodd y Cynllun Digwyddiad Mawr ei ddiweddarau a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 30 Medi 2021.

15.5 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Ein cenhadaeth yw **"Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach"**, a'n gweledigaeth yw y dylai pawb gael yr un cyfle i fyw bywyd iach, waeth lle bynnag y maent yn byw a phwy yr ydynt.

Strategaeth trawsnewid a gwella 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, Llundain Ein Llesiant i'r Dyfodol, yw ein cyfle i gydweithio â'r cyhoedd a gweithlu'r Bwrdd Iechyd i wneud ein bwrdd iechyd yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol. Gyda'n gilydd, gallwn wella cydraddoldeb i'n holl gleifion - heddiw ac yfory. Cliciwch yma i weld y Strategaeth: <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/our-mission-vision/shaping-our-future-wellbeing-strategy/>.

Credwn y dylai pawb gael cyfle i fyw bywyd hirach, iachach a hapusach. Ond wrth i'n poblogaeth heneiddio a'n harferion byw newid, mae ein systemau iechyd a gofal o dan bwysau cynyddol.

Mae cyflawni ein cyfrifoldebau i leihau ein hól troed carbon wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ers cydnabod yr argyfwng hinsawdd ym mis Ionawr 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a gafodd ei ddiweddarau i adlewyrchu Cynllun Datgarboneiddio GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Siarter Newid Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg Mae partneriaid o'r sector cyhoeddus ym Mro Morgannwg wedi mynegi eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd drwy gytuno ar Siarter Newid Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

<https://www.valepsb.wales/en/Our-Progress/Tackling-Climate-Change-in-the-Vale-of-Glamorgan.aspx>.

Cafodd y Siarter ei llunio yn dilyn 14 mis o drafodaethau, gan gynnwys gweithdy a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019 gyda phobl ifanc, lle daeth aelodau o Fwrdd Ieuenctid y Bwrdd Iechyd i ymuno â ni ochr yn ochr â phobl ifanc frwdfrydig o'r ysgolion lleol a Fforwm Ieuenctid Cyngor y Fro. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain y gwaith hwn, sy'n gwbl gyson â Chynllun Gweithredu Cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Drwy'r Siarter mae partneriaid yn ymrwymo i gyfres o egwyddorion, gan gynnwys arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ein heffaith, gan gydnabod y gallai'r ymagweddau a'r cynlluniau i weithredu o fewn Sefydliadau unigol amrywio. Roeddem am ddwyn y gwaith hwn i sylw'r Bwrdd ac i'r Bwrdd gefnogi'r Siarter cyn iddi gael ei lansio'n ffurfiol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mis Chwefror; nod hyn yw creu catalydd i ymgysylltu â'r gymuned ehangach ynghylch y materion, ac i drafod sut y gallwn wneud gwahaniaeth yn unol â'r ymrwymadau yn y siarter.

Yn yr un modd, mae'r BGC yng Nghaerdydd wedi nodi lleihau carbon yn flaenoriaeth allweddol ac mae rhaglen bartneriaeth wedi cael ei datblygu, o dan arweiniad y Cyngor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn weithredol yn y gwaith hwn, ac mae'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Mae Elusen Iechyd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi rhaglen wobrweddig i wella'n hamgylchedd, yn gysylltiedig â'n Cynllun Bioamrywiaeth. Mae datblygiad y Berllan yng Ngardd Horatio



yn YALL, a phrosiect y Ddôl yn YAC yn enghreifftiau o'r gwaith gwych sy'n cael ei gyflawni i ddefnyddio ein hardaloedd glas allanol er iechyd a llesiant ein cleifion, ein staff ac ymwelwyr.

Mae gennym hefyd dimau clinigol sy'n hybu newidiadau mewn modelau gwasanaeth ac arferion clinigol i leihau ein hól troed carbon, fel y manylwyd yn yr adran flaenorol ar ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (gweler paragraff 8 o'r Adroddiad ar Berfformiad).

Rydym hefyd yn gweithio gydag ystod eang o grwpiau trydydd sector a chymunedol ac ar y cynllun presgripsiynau cymdeithasol sy'n cael ei arwain gan Glwstwr De Orllewin Caerdydd. Mae'r cynllun hwnnw'n rhoi enghreifftiau o'r budd i iechyd yn sgil cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, fel y gwelwyd drwy'r canlyniadau a sicrhawyd yn sgil mentrau garddio a cherdded cymunedol.

Mae holl dir yr ysbyty yn Ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro bellach yn Ddi-fwg. Mae tir ein hysbytai bellach yn ddi-fwg. Mae deddfau newydd a gyflwynwyd ledled Cymru ar 1 Mawrth, yn adeiladu ar y gwaharddiad ar ysmegu a gyflwynwyd yn 2007, a byddant yn diogelu mwy o bobl rhag mwg ail-law ac yn helpu'r rhai sy'n trio rhoi'r gorau iddi. Os ceir hyd i unrhyw un yn torri'r gyfraith drwy ysmegu ar dir ysbyty, gall wynebu dirwy o £100. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi chwarae rhan allweddol er mwyn cefnogi amgylchedd di-fwg yn yr ysbytai, a'r Bwrdd Iechyd hefyd oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Gwaharddiad ar Ysmegu ar draws yr holl safleoedd ysbyty.

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Nod cyffredinol y Ddyletswydd yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cefnogi hyn drwy sicrhau'r canlynol, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau strategol fel corff cyhoeddus:

- ein bod yn ystyried y dystiolaeth a'r effaith bosibl
- drwy ymgynghori ac ymgysylltu
- ein bod yn deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- ein bod yn croesawu her a chraffu
- ein bod yn ysgogi newid i'r modd y gwneir penderfyniadau, a'r ffordd mae penderfynwyr yn gweithredu.

Mae'r Ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried yn iawn pa effaith gadarnhaol y gall ac y dylai ein penderfyniadau strategol ei chael ar anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth fodloni gofynion y Ddyletswydd hon, rydym yn adeiladu ar y gwaith da rydym eisoes wedi bod yn ei wneud o ran gwella cyfleoedd bywyd pobl, drwy'r gwaith a wnawn gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y mae hefyd yn adeiladu ar waith rydym yn ei ddatblygu drwy ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.



Mae'n ofynnol eisoes inni gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac Iechyd i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o effaith cynlluniau, strategaethau a pholisïau allweddol ar y grwpiau a adlewyrchir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.

Rydym wedi ymgorffori gofynion yn y Ddyletswydd yn ein trefniadau llywodraethu presennol, gydag adroddiadau cyflwyno i'r Bwrdd yn cadarnhau'n eglur beth fydd effaith penderfyniad strategol o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

15.6 Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Lleihau Carbon

Gweler adran 8 (Adroddiad Cynaliadwyedd) o'r Adroddiad ar Berfformiad.

15.7 Trefniadau Llywodraethu

Un o nodweddion hanfodol ein fframwaith rheoli yw sicrhau bod system gadarn ar waith i fesur ac adrodd ar ansawdd ein gwasanaethau. Mae ein Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn rhoi cyngor amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd, i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a bodloni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelwch, a hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch gwella profiadau pawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau. Gweler hefyd adran 7 o'r Adroddiad ar Berfformiad am ragor o wybodaeth.

15.8 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru (CICau)

Mae Cyfarwyddydau Gweinidogol a CICau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2022 wedi cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo'n briodol. Ceir manylion llawn pob WHC drwy glacio ar y ddolen ganlynol: <https://llyw.cymru/cylchlythyrau-iechyd/>.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, cafwyd diweddariadau rheolaidd ar weithredu Cylchlythyrau Iechyd Cymru ac mae manylion CICau newydd wedi cael eu rhannu â Thîm Rheolwyr Gweithredol y Bwrdd Iechyd er mwyn goruchwyllo'r broses.

Mae manylion y Cyfarwyddydau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22 sydd wedi cael eu hystyried a, lle bo'n briodol, eu gweithredu, wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 y DLLB hwn.

15.9 Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn olrhain yr holl adroddiadau rheoleiddio ac arolygu drwy adroddiad Olrhain Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a gyflwynir gerbron pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Cyn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio caiff yr olrheinydd ei lenwi â gwybodaeth gan Gyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol ac unigolion sy'n gyfrifol am gydymffurfio â rheoliadau.



Mae'r Olrheinydd Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yn cynnwys y canlynol:

- Pob Corff Rheoleiddio sy'n arolygu'r Bwrdd Iechyd.
- Y Safon Reoleiddio sy'n cael ei harolygu.
- Arweinydd Gweithredol ar gyfer pob arolygiad.
- Pwyllgor sicrwydd lle gellir hefyd gyflwyno adroddiadau rheoleiddio, ynghyd â chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella lle bo angen.

Cafodd yr Olrheinydd Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ei adolygu ddiwethaf gan yr Adran Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2021, gan dderbyn sgôr sicrwydd rhesymol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn olrhain holl Argymhellion Archwilio Mewnol a holl Argymhellion Archwilio Cymru ynghyd ag ymateb rheolwyr. Caiff argymhellion eu hychwanegu at yr olrheinwyr i'w monitro ar ôl i'r adroddiadau gae gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Mae system ffurfiol ar waith i olrhain adroddiadau rheoleiddio ac arolygu yn erbyn gofynion statudol.

Darperir yr adroddiadau hyn i Bwyllgor priodol y Bwrdd, ac fe'u trafodir yng nghyfarfod y Bwrdd Rheolwyr Gweithredu a Rheoli Systemau Iechyd sy'n cynnwys holl dîm arweinyddol y sefydliad. Ceir dilyniant chwarterol hefyd gyda'r Arweinwyr Gweithredol.

15.10 Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth

Caiff risgiau'n gysylltiedig â gwybodaeth eu rheoli'n unol â Pholisi Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol a gaiff ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, fel Gwarcheidwad Caldicott, yn gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth cleifion. Caiff yr holl faterion Llywodraethu Gwybodaeth eu huwchgyfeirio drwy'r Pwyllgor Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol (Pwyllgor IGDd). Gellir gweld papurau'r Pwyllgor IGDd yma: <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-deallusrwydd-iechyd-a-digidol/>.

Cafodd yr eitemau canlynol eu hystyried gan y Pwyllgor IGDd:

- Strategaeth Ddigidol;
- Cynllun Gweithredu Archwiliad GDPR;
- Rhaglen Gyflawni TG;
- Adroddiadau Cydymffurfio Llywodraethu Gwybodaeth;
- Cofrestr Risg Llywodraethu Gwybodaeth;
- Polisi Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Cyfarwyddwr Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol yn ysgwyddo rôl yr Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth sy'n cyflawni rôl hanfodol o ran sicrhau yr ymdrinnir â risgiau diogelwch gwybodaeth a nodwyd, a bod digwyddiadau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn dilyn archwiliad



Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 'sicrwydd rhesymol' ynghylch ei sicrwydd a'i gydymffurfiaeth, a oedd yn cynnwys argymhellion a oedd yn weddill o archwiliad yr ICO yn 2016, yr Archwiliad Mewnol o gydymffurfiaeth â'r GDPR, Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2018 ac Egwyddorion Caldicott ar Waith, a ddisodlwyd gan argymhellion o archwiliad 2020 yr ICO. Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu'n rheolaidd yn y Pwyllgor IGDD. Yn ystod 2021/2022, parhaodd yr Adran Llywodraethu Gwybodaeth i weithio i gwblhau'r camau gweithredu a oedd yn weddill.

Cynhaliodd yr ICO adolygiad dilynol ym mis Tachwedd 2021. Caewyd 15 o argymhellion, a chadw 10 yn agored, yr oedd 5 ohonynt yn 'uchel' ond roedd yr argymhelliad 'brys' wedi'i gau.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldebau llym i sicrhau bod data a gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ymchwilio i bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth, ac yn adolygu'r digwyddiadau hynny.

Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2021 hyd fis Mawrth 2022, cafwyd 4 digwyddiad diogelwch data personol yr oedd angen adrodd amdanynt wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Tor rheol adroddadwy rhif 1

Datgelodd aelod o staff ddata troseddu yn gysylltiedig â chlaf.

Tor rheol adroddadwy rhif 2

Edrychodd aelod o staff ar gofnod perthynas yn rheolaidd.

Tor rheol adroddadwy rhif 3

Cyrchodd aelod o staff gofnodion iechyd ei reolwr ar dri achlysur.

Tor rheol adroddadwy rhif 4

Cafwyd llifogydd mewn cyfleuster storio oddi ar-ar-safle a oedd yn cynnwys cofnodion wedi'u harchifo gan y Bwrdd Iechyd.

Bu ffocws ar feysydd allweddol sy'n cael y mwyaf o effaith yn nhermau cydymffurfio, gan fwrw ymlaen â'r meysydd allweddol canlynol:

- Cynllun gwaith y Datrysiaid Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol
- Lleihau nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a oedd yn weddill, wedi iddynt ôl-gronni yn ystod y pandemig
- Lleihau nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a oedd yn weddill, wedi iddynt ôl-gronni yn ystod y pandemig
- Adolygiadau rheolaidd a ffurfiol o gyflenwyr sy'n darparu gweithgareddau prosesu data newydd a phresennol i'r Bwrdd Iechyd.



- Gwaith datblygu gyda Heddlu De Cymru i sicrhau bod ymrwymïadau Diogelu Data yn cael eu bodloni mewn perthynas â cheisiadau'r Heddlu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau'r ymwybyddiaeth o egwyddorion allweddol deddfwriaeth Diogelu Data. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor gyffredinol na chaiff defnyddwyr ond trin data yn unol â hawliau diogelu data pobl.

15.11 Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr â staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau cydymffurfir â holl ymrwymïadau'r cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, taliadau a chyfraniadau'r cyflog i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelod yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r graddfeydd amser a nodir yn y Rheoliadau.

15.12 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Yn syml, llywodraethu corfforaethol yw'r modd y caiff sefydliadau eu cyfarwyddo, eu rheoli a'u harwain. Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol er mwyn i sefydliad fod yn effeithiol a chael ei reoli'n dda.

Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y Cod) yw'r brif ddogfen gyfeiriol sy'n rhoi trosolwg

o arfer da ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn Adrannau o'r Llywodraeth Ganolog. Er nad yw'n ofynnol i gydymffurfio â holl elfennau'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, lle bo'n berthnasol, ac yn cadw at ysbryd y Cod yn effeithiol, yn cynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw, ac yn unol â'r Cod.

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Cod ym mis Ebrill 2021, ynghyd ag asesiad pellach a gynhaliwyd yn rhan o'r Arolwg o Effeithiolrwydd Pwyllgorau ym mis Ebrill 2022. Ni nodwyd/adroddwyd am unrhyw achosion o wyro oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.



15.13 Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith archwilyr allanol, a'r swyddogion Gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Ffynonellau Mewnol	Ffynonellau Allanol
- Adroddiadau rheoli perfformiad - Adroddiadau rheoli newid gwasanaethau - Arolygon a gwybodaeth am y gweithlu - Meincnodi - Adroddiadau archwilio mewnol a chlinigol - Adroddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau - Gwaith Atal Twyll Lleol - Asesiadau Safonau Iechyd a Gofal - Rhawdiau Diogelwch Aelodau Gweithredol ac Aelodau Annibynnol - Canlyniadau Adroddiadau ar Ymchwiliadau Mewnol a Digwyddiadau Difrifol - Pryderon a Chanmolïaeth - Chwythu'r Chwiban a'r Falf Diogelwch - Adroddiadau ar atal a rheoli heintiau - Hunanasesiad y pecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth - Arolygon ac adroddiadau ynghylch profiadau cleifion - Cydymffurfio â deddfwriaeth (ee Deddf Iechyd Meddwl/Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data)	- Gwybodaeth am Iechyd y Boblogaeth - Archwilio Cymru - Adroddiadau asesu Cronfa Risg Cymru (WRP). - Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). - Ymweliadau Cyngorau Iechyd Cymuned ac adroddiadau craffu - Adborth gan bartneriaid gofal iechyd a'r trydydd sector - Ymweliadau'r Coleg Brenhinol a'r Ddeoniaeth - Cyrff rheoleiddio, trwyddedu ac arolygu - Meincnodi allanol ac ystadegau - Cynlluniau Achredu - Archwiliadau cenedlaethol - Adolygiadau gan gymheiriaid - Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth - Rhwydweithiau lleol (ee, rhwydweithiau canser) - Adroddiadau ac adborth Llywodraeth Cymru



Nodir ffynonellau sicrwydd pellach yn fframwaith rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd ei hun, ac maent yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- Sicrwydd uniongyrchol gan reolwyr ynghylch gweithrediad rheolaethau mewnol tuag at i fyny drwy'r gadwyn atebolrwydd.
- Perfformiad a aseswyd yn fewnol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal
- Canlyniadau swyddogaethau cydymffurfio mewnol, gan gynnwys Atal Twyll Lleol, Dilysu Ar Ôl Talu, a rheoli risg.
- Adroddiadau am gydymffurfiaeth drwy Gronfa Risg Cymru ynghylch safonau hawliadau ac unrhyw safonau eraill sy'n ymwneud â maes arbenigol penodol a adolygwyd dros y cyfnod.
- Adolygiadau a gwblhawyd gan gyrff rheoleiddio ac arolygu allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Caiiff effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei gynnal a'i adolygu gan Bwyllgorau'r Bwrdd o ran y sicrwydd a gafwyd. Cefnogir hyn hefyd gan FfSB, gyda'r risgiau uchel yn cael eu monitro'n agos gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau perthnasol.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

15.14 Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae monitro effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau'n rheolaidd yn hollbwysig er mwyn sicrhau llywodraethu cryf ac effeithiol o fewn strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. O dan ei Reolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno proses hunanasesu reolaidd a thrwyadl, a gwerthuso ei weithrediadau a'i berfformiad ei hun a gweithrediadau a pherfformiad ei Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori. Yn ychwanegol at hynny, a lle bo'n briodol, efallai y bydd y Bwrdd yn penderfynu y gellid cynnal gwerthusiad o'r fath yn annibynnol.

Er mwyn gwerthuso a dangos effeithiolrwydd y Bwrdd, a Phwyllgorau'r Bwrdd, cymerwyd y camau canlynol yn ystod 2021-2022:

- Bydd Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd pob Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd unigol yn rhan o'r agenda ym mhob cyfarfod perthnasol.
- Lluniodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd Adroddiad Blynyddol, a gaiff ei adolygu gan bob Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mawrth. Bydd Cadeirydd pob Pwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiadau Blynyddol, a bydd yr adroddiadau hynny'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgorau wedi cyflawni eu Cylch Gorchwyl.



- Cynhelir adolygiad o hunaneffeithiolrwydd gan Aelodau Pwyllgorau, Mynychwyr Pwyllgorau ac Aelodau'r Bwrdd. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn ychydig ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, a dangosir crynodeb isod o'r canlyniadau (gweler paragraff 15.15).

15.15 Arolwg o Effeithiolrwydd y Pwyllgorau

Cynhaliodd y Bwrdd lechyd adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei Fwrdd a'i Bwyllgorau ym mis Ebrill 2022 drwy ddefnyddio cwestiynau arolwg a ddeilliai o ganllawiau arfer gorau, gan gynnwys Llawlyfr y GIG, a defnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

- yr angen i is-bwyllgorau gryfhau trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd a chynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni'r amcanion strategol;
- yr angen am strwythur Pwyllgorau sy'n cryfhau rôl y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau strategol, ac sy'n cefnogi rôl cyfarwyddwyr anweithredol wrth herio gweithredoedd rheolwyr Gweithredol.
- sicrhau'r gwerth mwyaf o fewnbwn cyfarwyddwyr anweithredol, ac ystyried na allant ymrwymo llawer o amser,
- cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei rôl, ac ystyried natur ac ehangder agenda'r Bwrdd lechyd.

Gellir gweld canfyddiadau'r Arolwg Blynyddol o Effeithiolrwydd Pwyllgorau 2021-2022 yma - <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/audit-assurance-committee-2022-23/12522-audit-public-final-boardbookpdf/> - (gweler eitem 7.2 ar yr agenda). Caiff y canlyniadau a'r cynlluniau gweithredu, lle bont yn berthnasol, eu cyflwyno gerbron pob Pwyllgor ac wedyn gerbron y Bwrdd.

Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan ac yn datgelu rhai gwelliannau yn dilyn arolygon y llynedd, gan roi sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu a'r strwythur Pwyllgorau yn effeithiol, a bod y Pwyllgorau yn effeithiol wrth gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei rôl.

15.16 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Gweler adran 13.2 o'r DLLB.

16. Archwilio Mewnol

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn rhoi llif o sicrwydd i mi fel Swyddog Atebol, ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio, ynghylch y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sydd wedi'i chyflawni'n unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg o bwys a blaenoriaethau gwella lleol.



Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch am welliant parhaus.

Mae'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 wedi amharu ar y rhaglen, gyda rhai archwiliadau wedi'u gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu cwmphas archwiliadau mewnol yn ddigonol yn ystod y cyfnod adrodd i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ffurfio Barn Flynyddol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

16.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn flynyddol, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd, ac ar y gwaith hwnnw'n unig, ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Bwrdd Iechyd. Cyflawnir hyn drwy gynllun archwilio sy'n canolbwyntio ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol, a chyfleoedd gwella hysbys, y cytunwyd arnynt â rheolwyr Gweithredol ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor archwilio a Sicrwydd, a ddylai roi lefel briodol o sicrwydd.

Oherwydd effaith sylweddol COVID-19 ar y Bwrdd Iechyd, bu'n rhaid i'r cynllun archwilio mewnol fod yn ystwyth ac yn ymatebol, fel bo modd ymdrin â risgiau datblygu allweddol. O ganlyniad i'r dull hwn, a chyda chefnogaeth swyddogion ac aelodau annibynnol ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r cynllun wedi cael ei gyflawni i raddau sylweddol yn unol â'r amserlen gytunedig a'r newidiadau fu angen yn ystod y flwyddyn, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (y 'Pwyllgor'). Yn ogystal â hynny, mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor. Er bod newidiadau wedi'u cyflwyno i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gallaf gadarnhau fy mod wedi cyflawni gwaith archwilio digonol yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Cafodd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn 2021/22 ei gyflwyno'n wreiddiol gerbron y Pwyllgor ym mis Ebrill 2021. Cyflwynwyd newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, ac mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hadrodd gerbron y Pwyllgor yn rhan o'n hadroddiadau rheolaidd ar gynnydd.


Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhelir archwiliadau gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, sy'n cefnogi barn gyffredinol cyrff iechyd GIG Cymru.

Mae ein Hasesiad Ansawdd Allanol diweddaraf, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (yn 2018), a'n Rhaglen Sicrwydd a Gwella Ansawdd blynyddol ein hunain, y naill a'r llall, wedi cadarnhau bod ein gwaith archwilio mewnol



yn parhau i 'gydymffurfio'n gyffredinol' â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer 2021/22. Ar gyfer eleni, fel 2020/21, rhoddodd ein Rhaglen Sicrwydd a Gwella Ansawdd ystyriaeth benodol i effaith COVID-19 ar ein dull a'n rhaglenni archwilio. Gallwn ddatgan bod ein gwasanaeth 'yn cydymffurfio â safonau proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.'

Nodir isod farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Bwrdd Iechyd.

Sicrwydd Rhesymol		Gall y Bwrdd fod â 'sicrwydd rhesymol' bod trefniadau i ddiogelu llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygir, wedi'u dylunio mewn modd addas a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion, o ran cydymffurfiaeth neu ddyluniad mesurau rheoli, gyda lefel isel i ganolig o effaith ar gysylltiad gweddilliol â risg nes i'r materion hynny gael eu datrys.
--------------------------	---	--

Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod mwyafrif yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at gasgliad cadarnhaol, gyda threfniadau rheoli cadarn ar waith mewn rhai meysydd.

O'r barnau a roddwyd yn ystod y flwyddyn, pennwyd Sicrwydd Sylweddol yn achos saith, Sicrwydd Rhesymol yn achos deuddeg, a Sicrwydd Cyfyngedig yn achos saith. Ni chafwyd unrhyw farn 'dim sicrwydd' mewn unrhyw adroddiad. Yn ogystal â hynny, cafodd tri adroddiad cynghorol neu heb farn yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Trefniadau i gefnogi darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl.
- Cynllun Cyfalaf Mawr – YAC II
- Datblygu Cynlluniau Archwilio Integredig

Ar adeg llunio'r Adroddiad Blynyddol, roedd tri archwiliad yn dal ar y gweill, ond nid oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol i bennu'r sicrwydd yn ddibynadwy.

16.2 Sicrwydd Cyfyngedig

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd yr Adran Archwilio Mewnol saith adroddiad archwilio â chasgliad sicrwydd cyfyngedig. Roeddent yn cynnwys:

Llywodraethu uwchsain y Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg

Yn yr adroddiad archwilio nodwyd diffyg cyfathrebu ynghylch y fersiwn ddiwygiedig y Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Risg Uwchsain Meddygol. Casglwyd hefyd bod angen adolygu'r trefniadau llywodraethu Uwchsain.

Mewn ymateb i'r argymhellion, rhoddodd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu ar waith a oedd yn cynnwys y camau a ganlyn:



(i) Hyrwyddo'r Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Risg Uwchsain Meddygol drwy'r grwpiau priodol o fewn y Bwrdd Iechyd.

(ii) Cynnal Grŵp Llywodraethu Clinigol Uwchsain wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiâu a Gwyddorau Iechyd, gan gasglu aelodau o'r Grŵp o bob Cyfarwyddiaeth sy'n defnyddio uwchsain. Byddai'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cynnwys trefniadau llywodraethu priodol.

Archwilio Clinigol

Roedd y sgôr sicrwydd cyfyngedig yn adlewyrchu'r gwelliannau sydd eu hangen i strwythurau a threfniadau llywodraethu Archwilio Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'r meysydd allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi sylw iddynt yn ymwneud â (i) datblygu a chyflwyno Strategaeth, Polisi a Gweithdrefnau Archwilio Clinigol, a (ii) datblygu adnoddau a systemau i fonitro'r holl weithgarwch Archwilio Clinigol yn effeithiol.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd ar y camau canlynol i ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Archwilio.

(i) Datblygu Strategaeth Archwilio Clinigol, Polisi Archwilio Clinigol a Gweithdrefn ddilynol, a gorfodi'r staff i weithredu'r rheiny'n gyson.

(ii) Sicrhau bod system reoli'n cael ei darparu i fonitro ac olrhain archwiliadau clinigol.

Pum Cam at Lawfeddygaeth Ddiogelach

Roedd y sgôr sicrwydd cyffredinol yn adlewyrchu'r gwelliannau yr oedd eu hangen i systemau a phrosesau'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Pum Cam at Lawfeddygaeth Ddiogelach, a bod modd rhoi tystiolaeth o gydymffurfiaeth.

Yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol, nodwyd mai'r meysydd allweddol yr oedd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy oedd: (i) rhoi mecanweithiau ar waith i gofnodi dau o'r Pum Cam at Lawfeddygaeth Ddiogelach (yn enwedig cam un - briffio, a cham pump - ôl-drafodaeth), a (ii) sicrhau bod ffeiliau cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn i roi tystiolaeth o'r Pum Cam at Lawfeddygaeth Ddiogelach (Camau 2, 3 a 4).

Roedd cynllun gweithredu cytunedig y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn cynnwys: -

(i) datblygu (mewn cydweithrediad â thrydydd parti) meddalwedd gweithredu'r theatr er mwyn i'r feddalwedd gofnodi pob un o'r 5 cyfnod yn y '5 Cam at Lawfeddygaeth Ddiogelach' yn electronig; a

(ii) sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r newid i'r broses, a darparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol.

Rheoli Gwasanaethau TG (ITIL)

Canfu'r archwiliad fod mesurau rheolaeth ar gyfer swyddogaeth y Ddesg Gwasanaethau TG yn wael. Cydnabuwyd yn yr adroddiad fod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio gwelliannau mawr drwy weithredu system trin galwadau



newydd, ailstrwythuro adran y ddesg wasanaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn seiliedig ar Fframwaith ITIL.

Cyfarwydddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth

Nododd yr archwiliad nifer fach o fesurau ar gyfer gwella, o ran y Fframwaith Seiberasesu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n weithredol i ymdrin â'r mesurau hynny.

Ar adeg llunio'r Adroddiad Blynyddol hwn, roedd y Bwrdd Iechyd newydd dderbyn adroddiadau archwilio a roddai sicrwydd cyfyngedig yn gysylltiedig â'r canlynol:

Banc Nyrsys (Adran Staffio Dros Dro)

Ni roddodd yr asesiad cyffredinol ar gyfer yr archwiliad hwn ond sicrwydd cyfyngedig oherwydd diffyg gwytnwch o fewn strwythur presennol yr Adran Staffio Dros Dro, sy'n effeithio ar effeithiolrwydd gweithredol y Banc Nyrsys. Nodai'r archwiliad hefyd broblemau'n gysylltiedig â recriwtio i'r Banc Nyrsio, taliadau i asiantaethau a diffyg ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth yn gyffredinol.

System TG ChemoCare

Nodwyd yn yr adroddiad archwilio fod fframwaith i gadw rheolaeth ar system ChemoCare, a bod rhai meysydd lle ceir arfer da, ond nododd hefyd rai meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cynnwys diweddarau rhai fersiynau o'r feddalwedd a oedd wedi dyddio, cryfhau gwendidau o fewn y Cynllun Parhad Buses, Trefniadau Lletya ac Wrth Gefn a'r polisi cyfrineiriau. Ceir hefyd ddiffyg mecanwaith ffurfiol i fonitro perfformiad cyflenwyr.

Nid oedd unrhyw feysydd a archwiliwyd lle cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr asesu "Dim sicrwydd".

17. Archwilio Allanol - Archwilio Cymru

- Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar ei ran. Ers 1 Ebrill 2020 adwaenir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i gilydd fel Archwilio Cymru.
- O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (2004), mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- ei fodloni ei hun fod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; ac
- ei fodloni ei hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.



17.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021

Mae rhaglen waith flynyddol Archwilio Cymru yn y Bwrdd Iechyd wedi'i hamlinellu yn y Cynllun Archwilio. Cymeradwywyd Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2021 gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 9 Chwefror 2021.

Caiff adroddiadau a gynhyrchir gan Archwilio Cymru yn unol â'r Cynllun Archwilio eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Caiff Ymateb gan y Rheolwyr ei baratoi ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Caiff pob argymhelliad wedyn ei gofnodi ar yr Orlheinydd Argymhellion Archwilio Allanol. Darperir Adroddiad Orlhain i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd ynghylch gweithredu.

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Bwrdd Iechyd, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd:

Adroddiad	Mis
Adroddiadau archwilio ariannol	
Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2020-21) - Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol	Ion 2022
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Meh 2021
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Meh 2021
Atodiad i'r Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol	Awst 2021

Adroddiadau archwilio perfformiad

Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn lawn? (Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan yn gysylltiedig â llywodraethu'r GIG yn ystod COVID-19)	Ion 2022
Asesiad Strwythuredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2021: Cam 1 Trefniadau Cynllunio Gweithredol	Ebrill 2021
Trefniant Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Mai 2021
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	Meh 2021
Gofalu am y Gofalwyr? (Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan yn gysylltiedig â llesiant staff y GIG yn ystod COVID-19)	Hyd 2021
Gwasanaethau Radioleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Y Diweddaraf am Gynnydd	Rhag 2021
Asesiad Strwythuredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2021: Cam 2 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Ariannol	Rhag 2021

Arall

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 (ceir copi llawn o'r adroddiad hwn yn - https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/cardiff_vale_health_board_annual_audit_report_2021_welsh.pdf)	Ion 2022
Cynllun Archwilio 2022	Ebrill 2022



Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn adolygu canlyniadau adolygiadau cenedlaethol ar draws y sector yn y cyfarfod cynharaf posibl ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'r archwiliad). O ran gwaith archwilio perfformiad, casglodd yr Adroddiad Archwilio Blynyddol:

- er bod y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu wedi'i chael hi'n anodd ymdopi â phlegynau cynharach yn nhrosglwyddiad y feirws, yr oedd wedi dangos y gallu i ddysgu ac esblygu'n gyflym mewn ymateb i'r heriau oedd o'i blaen.
- Mae rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru wedi cael ei chyflwyno ar gyflymder sylweddol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol ac o'r DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Mae angen cynllun clir bellach ar gyfer yr heriau sydd o'n blaen.
- O ran Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, mae'r trefniadau llywodraethu, rheoli a chynllunio wedi gwella, ond oherwydd effaith COVID-19 bydd bellach angen strategaeth glir i adfer gwasanaethau, a byddai'n dal yn fuddiol adolygu'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer gwasanaethau arbenigol, yn unol â'r ymrwymïadau yn 'Cymru Iachach'.

- Mae holl gyrff y GIG wedi cadw ffocws clir ar lesiant staff drwy gydol y pandemig, ac wedi gweithredu ystod eang o fesurau i gefnogi iechyd corfforol a lesiant meddyliol eu staff yn ystod yr argyfwng. Mae'n hanfodol adeiladu ar y gweithgareddau hyn, a bod lesiant y staff yn dal i fod yn flaenoriaeth greiddiol i gyrff y GIG wrth iddynt ymdrin â chyfuniad o heriau - adfer gwasanaethau, parhau i ymateb i bandemig COVID-19 a rheoli pwysau tymhorol.

- Mewn perthynas â'r casgliadau a gafwyd yn Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru, gweler paragraff 17.2 isod.

Er na nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd yn yr adroddiad archwilio, roedd yn tynnu sylw at effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei chyfarwyddo i gyllido rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20.

Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ac arweiniodd hynny at farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant cyfalaf dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, ni wnaeth fantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant refeniw dros yr un cyfnod, gan greu diffyg o £9.724 miliwn dros yr un cyfnod. Arweiniodd hyn at farn amodol ar reoleidd-dra trafodion ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Ar wahân i fethiant y Bwrdd Iechyd i fantoli ei wariant refeniw, nid oedd unrhyw



elfennau o bwys o ran incwm na gwariant nad oedd gan y Bwrdd lechyd yr awdurdod i'w derbyn neu eu hysgwyddo.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle bo rheolau treth pensiynau yn effeithio ar staff clinigol sydd am weithio oriau ychwanegol, ac wedi penderfynu:

- gall staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu gorfod talu treth ar dwf eu buddion pensiwn GIG, ddewis talu'r dreth honno drwy Gynllun Pensiwn y GIG, gan dderbyn gostyngiad i'w pensiwn wrth ymddeol.
- Ar ran BIP Caerdydd a'r Fro, bydd Llywodraeth Cymru yn talu i'r aelodau sy'n dewis cael ad-daliad o'u pensiwn, swm cyfatebol wrth ymddeol, gan sicrhau eu bod wedi'u digolledu'n llwyr am effaith y didyniad.
- Arhosodd y cyfnod hawlio yn agored yn 2020-21 a datgelwyd rhwymedigaeth wrth gefn yng Nghyfrifon Blynyddol 2020/21. Gan hynny, rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru bwyslais ar y mater hwn yn 2020/21.
- Daeth cyfnod hawlio'r cynllun i ben ar 31 Mawrth 2022 ac mae darpariaeth o £2.193m mewn perthynas â hyn wedi'i chodi yng Nghyfrifon 2021/22.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau ei barn bod hyn yn cynrychioli gwariant afreolaidd gan y Bwrdd lechyd ac wedi gosod amod rheoleidd-dra yn gysylltiedig â'r cyfrifon yn unol â hynny.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 5 Ebrill 2022. Mae'r Cynllun Archwilio yn cynnwys amserlen gychwynnol ar gyfer cwblhau gwaith archwilio Archwilio Cymru. Fodd bynnag, ac ystyried yr ansicrwydd parhaus yn gysylltiedig ag effaith COVID-19 ar y sector, efallai y bydd angen ailystyried rhannau ohoni. Adroddir wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd am unrhyw newidiadau, fel bo'n briodol.

17.2 Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Asesiad Strwythuredig

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn rhoi asesiad o drefniadau corfforaethol y Bwrdd lechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Cynhaliwyd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru mewn dau gam yn ystod 2021/22.

Yng Ngham 1 ystyriwyd y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yng Ngham 2 ystyrir sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol wedi cael eu haddasu dros y 12 mis diwethaf.

Dyma ganfyddiadau'r Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2021:

- Ar y cyfan, mae trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol yn effeithiol, ond erys cyfleoedd i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad



cynlluniau gweithredol. Er mwyn cryfhau ein trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad cyffredinol ein Cynllun Blynyddol a Chynlluniau Canolig Integredig y dyfodol, gwnaed argymhelliad yn yr Asesiad Strwythuredig ynghylch sicrhau bod y cynlluniau hynny'n cynnwys crynodebau clir o gamau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni a mesurau i gefnogi monitro ac adrodd effeithiol.

- Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol o ran y Bwrdd a'r Pwyllgorau, a danategir gan systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, ond erys cyfleoedd i gryfhau tryloywder busnes y Bwrdd i'r cyhoedd. Gwnaed sawl argymhelliad yn gysylltiedig â thryloywder busnes y Bwrdd i'r cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod holl recordiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau'n cael eu huwchlwytho i wefan y Bwrdd lechyd yn brydlon ar ôl pob cyfarfod, a rhestru'r materion i'w trafod yn breifat gan y Pwyllgorau ar agenda eu cyfarfodydd cyhoeddus.
- Mae'r Bwrdd yn cadw goruchwyliaeth gadarn dros gyllid y Bwrdd lechyd. Nododd y Bwrdd lechyd rai gwendidau yn y rheolaethau ariannol yn gysylltiedig â chaffael a gwariant ar brosiectau cyfalaf mawr, ac mae'n mynd i'r afael â hyn.
- Mae'r pandemig yn dal i achosi i risg i allu'r Bwrdd lechyd i fantoli'r cyfrifon.

Gellir gweld yr Asesiad Strwythuredig drwy ddilyn y dolenni canlynol:

Cam 1

https://audit.wales/sites/default/files/publications/cvuhb_sa.pdf

Cam 2

https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/cardiff_vale_health_board_structured_assessment_2021_phase_two_welsh_1.pdf

18. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mai 2017 i dynnu sylw at yr angen, ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da ar waith i bob gweithiwr, yn y DU ac mewn gwledydd tramor. Disgwylir i holl sefydliadau GIG Cymru yn ymrwymo i'r Cod.

Mae'r Bwrdd lechyd yn cefnogi egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn llawn, ac wedi ymrwymo i chwarae ei ran fel cyflogwr o bwys yn y sector cyhoeddus, i gael gwared ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol yn gysylltiedig â:

- Sathru ar Hawliau Dynol a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cadw cofrestrau/rhestrau gwaharddedig;
- Hunangyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- Thalu'r cyflog byw.



Mae'r camau canlynol wedi'u sefydlu sy'n bodloni ymrwymïadau'r Cod:

- Mae gennym Bolisi Rhannu Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'w gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i rannu amheuon ynghylch unrhyw fath o gamarfer naill ai gan ein staff neu ein cyflenwyr/contractwyr sy'n gweithio ar eiddo'r Bwrdd Iechyd;
- Rydym wedi gosod targed i dalu ein cyflenwyr cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys;
- Rydym yn cydymffurfio â chwe gofyniad gwirio cyn cyflogi y GIG, er mwyn cadarnhau bod ymgeiswyr yn bodloni'r rhag-amodau ar gyfer y rôl y maent yn ymgeisio amdani. Mae hyn yn cynnwys gwirio'r hawl i weithio;
- Rydym wedi cyflwyno prosesau IR35 cadarn i sicrhau ymgysylltiad teg a phriodol â phob gweithiwr, sydd hefyd yn atal unigolion rhag osgoi talu cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol;
- Nid ydym yn defnyddio nac yn cyflogi staff neu weithwyr ar gcontractau dim oriau;
- Rydym wedi sefydlu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n sicrhau na chaiff unrhyw ddarpar ymgeisydd, cyflogai na gweithiwr a ddefnyddir ei roi dan anfantais ddiangen mewn unrhyw ffordd yn nhermau cyflog, hawliau cyflogaeth, cyfleoedd cyflogaeth neu yrfa;
- Rydym hefyd yn gofyn am sicrwydd gan gyflenwyr, drwy'r broses dendro na fyddant yn gwneud defnydd o gosbrestrau/rhestrau gwaharddedig. Gallwn hefyd gael cadarnhad a sicrwydd na fyddant yn defnyddio gwybodaeth oddi ar gosbrestrau/rhestrau gwaharddedig;
- Yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), bydd unrhyw aelodau o staff y Bwrdd Iechyd y gallai fod angen iddynt drosglwyddo i drydydd parti yn cadw Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG;
- Rydym yn defnyddio olrheinydd cydymffurfiaeth y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (2015) drwy gcontractau a gafaelir drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae PCGC wedi ymrwymo i'r un graddau i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gynhelir ar ran GIG Cymru yn cael ei gyflawni mewn modd moesegol. Ar ein rhan, maent yn sicrhau bod gweithwyr o fewn y cadwyni cyflenwi a ddefnyddir gennym i gyrchu ein nwyddau a'n gwasanaethau yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol a phartneriaid mewn undebau llafur i ddatblygu a rhoi camau ar waith sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau y gweithredir, ac y cedwir at egwyddorion cyflogaeth foesegol o fewn ein cadwyni cyflenwi.



19. Casgliad

Fel Swyddog Atebol, ar sail y broses sicrwydd a amlinellwyd uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth berthnasol a'r sicrwydd mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w cyfrifoldebau mewn perthynas â rheolaeth fewnol.

Yn ystod 2021-2022, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol unwaith eto i nodi meysydd sydd angen eu gwella, ac wedi gofyn i'r Adran Archwilio Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Adran Archwilio Mewnol yn cyd-fynd â'n barn ac maent felly wedi rhoi argymhellion clir i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod rheolwyr yn gweithredu camau manwl ar frys i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Caiff y camau hyn wedyn eu monitro drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i sicrhau y gellir rhoi sicrwydd priodol. Roedd Asesiadau Strwythuredig 2021 y Bwrdd lechyd a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn rhoi darlun cadarnhaol o drefniadau'r sefydliad mewn perthynas â Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Ariannol a'r trefniadau cynllunio sy'n sail i ddatblygu'r Cynllun Gweithredol. Nododd y Bwrdd lechyd hefyd broblemau'n gysylltiedig â chynlluniau cyfalaf a gwariant, yn enwedig o ran gwaith caffael, llywodraethu a monitro ariannol ar gyfer cynlluniau cyfalaf a gwariant cyfalaf. Cynhaliwyd adolygiad gan y Bwrdd lechyd a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac na fyddai rheolau'n cael eu torri yn y dyfodol.

Fel y nodwyd drwy'r holl ddatganiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol, parhawyd

i lywodraethu'n effeithiol drwy gydol y pandemig, gyda threfniadau llywodraethu a chraffu priodol dros y broses benderfynu drwy gydol Pandemig COVID-19. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, symudodd y Bwrdd lechyd tuag at sefyllfa adfer, gyda'r trefniadau Llywodraethu yn dychwelyd i 'fusnes fel arfer'. Fodd bynnag, ac ystyried natur cyflym-newidiol ac annarogan y pandemig, gwnaethom barhau i adolygu ein trefniadau Llywodraethu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyblyg i ymaddasu i unrhyw sefyllfa a allai godi.

Mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Bu'n rhaid mabwysiadu ymateb deinamig sydd wedi cynnig nifer o gyfleoedd yn ogystal â chreu risgiau. Bydd angen i'r sefydliad a'r gymdeithas yn ehangach barhau i adfer ar ôl y pandemig drwy gydol 2022-2023 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Rwy'n hyderus bod ein systemau rheolaeth fewnol wedi parhau'n gadarn drwy gydol y pandemig, ac wrth inni nawr fynd drwy'r cyfnod gwella, ac rwyf wedi fy sicrhau na chododd unrhyw faterion o bwys yn gysylltiedig â llywodraethu na rheolaeth fewnol yn ystod 2021-22.

I grynhoi, mae fy adolygiad yn cadarnhau bod gan y Bwrdd systemau rheolaeth fewnol cadarn ar waith i gefnogi cyflawniad nodau polisi a'n hamcanion corfforaethol, ac nad oes unrhyw faterion o bwys i adrodd amdanynt yng nghyswllt rheolaeth fewnol na llywodraethu ar gyfer 2021-2022.



Llofnodwyd gan: 

Suzanne Rankin
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 14 Mehefin 2022



Atodiad 1

Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2021-2022

Enw	Swydd a dyddiadau	Maes Arbenigol /Rôl Cynrychiolydd	Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rolau Hyrwyddwyr
Yr Athro Charles Janczewski	Cadeirydd 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cadeirydd	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 6/6	Gweithio i Wella Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Yr Athro Ceri Phillips	Is-Gadeirydd 1 Ebrill 2021 hyd heddiw		• Y Bwrdd 10/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 2/3 • Archwilio 6/7 • ADPh 3/4 • Strategaeth a Chyflawni 2/4 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 4/4 • Iechyd a Diogelwch 1/2 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 1/1 • IGDD 1/1 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 6/6	Iechyd Meddwl
Yr Athro Gary Baxter	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Prifysgol	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 2/3 • ADPh 6/6 • IGDD 3/3 • Strategaeth a Chyflawni 4/6 • Llundio Ein Hysbytai i'r Dyfodol 4/4	Pobl Hŷn



Michael Imperato	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cyfreithiol	• Y Bwrdd 9/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 3/3 • Archwilio 4/7 • IGDD 3/3 • Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol 3/4 • Cyllid 4/8	
David Edwards	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	• Board 9/11 • Board of Trustee 1/3 • MHCL 3/3 • Audit 4/7 • DHIC 3/3 • SoFH 3/4 • Finance 4/8	
Cynghorydd Susan Elsmore	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Awdurdod Lleol	• Y Bwrdd 9/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Cronfeydd Elusennol • ADPh 5/6 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 2/6	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Akmal Hanuk	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Y Gymuned Leol	• Y Bwrdd 9/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Cronfeydd Elusennol 4/4 • Iechyd a Diogelwch 3/3 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 0/4 • ADPh 2/4 • Taliadau a Thelerau	Atal a Rheoli Heintiau



Sara Moseley	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Y Trydydd Sector (Gwirfoddol)	• Y Bwrdd 9/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Cronfeydd Elusennol 2/4 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 2/4 • Strategaeth a Chyflawni 6/6 • IGDd 1/2	Cydraddoldeb
Dr Rhian Thomas	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cyfalaf ac Ystadau	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Iechyd a Diogelwch 1/1 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 6/6 • Strategaeth a Chyflawni 6/6 • Iechyd a Diogelwch 1/1 • Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol 4/4 • Cyllid 11/12	Plant a Phobl Ifanc
John Union	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cyllid	• Y Bwrdd 10/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Archwilio 7/7 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 4/6 • Cyllid 12/12 • Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol 3/4	



Mike Jones	Aelod Annibynnol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Undeb Llafur	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Iechyd a Diogelwch 3/3 • ADPh 5/6 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 4/4 • Archwilio 7/7	Mynegi Pryderon
Sam Austin	Aelod Cyswllt 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	• Y Bwrdd 9/11	
Lance Carver	Aelod Cyswllt 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg	• Y Bwrdd 5/11	
Len Richards	Y Prif Weithredwr Ebrill 2021 hyd 30 Medi 2021		• Y Bwrdd 5/5 • Archwilio 0/5 • Cyllid 4/6 • Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol 0/2 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 3/3	
Dr Stuart Walker	Prif Weithredwr Dros Dro 1 Hydref 2021 hyd 31 Ionawr 2022 Dirprwy Brif Weithredwr 1 Mawrth 2021 hyd 30 Medi 2021 ac 1 Chwefror 2022 hyd 18 Chwefror 2022		• Y Bwrdd 5/5 • Archwilio 0/2 • Cyllid 6/10 • Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol 1/3 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 2/3	



Suzanne Rankin	1 Chwefror 2022 hyd heddiw		• Y Bwrdd 2/2 • Cyllid 1/2 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 1/1	
Catherine Phillips	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Cyllid	• Y Bwrdd 10/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Archwilio 7/7 • Cyllid 9/12 • Strategaeth a Chyflawni 3/6 • Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol 4/4	
Dr Stuart Walker	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Ebrill 2021 hyd 30 Medi 2021	Meddygol / Ansawdd a Diogelwch	• ADPh 3/5 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 0/3 • Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol 1/1 • Y Bwrdd 6/6	
Yr Athro Meriel Jenney	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro 1 Hydref hyd heddiw	Meddygol / Ansawdd a Diogelwch	• Y Bwrdd 4/6 • ADPh 3/3 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 0/1 • Archwilio 1/1 • Strategaeth a Chyflawni 1/1 • Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol 0/3	Caldicott



Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso 1 Ebrill hyd heddiw	Nyrso / Ansawdd a Diogelwch	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Cronfeydd Elusennol 4/4 • ADPh 5/6 • Pwyllgor Deddfwriaeth lechyd Meddwl 3/4 • Cyllid 4/12 • Strategaeth a Chyflawni 1/6	Plant a Phobl Ifanc Gweithio i Wella
Steve Curry	Prif Swyddog Gweithredu (1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2021) Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro 1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2021	Gweithrediadau	• Y Bwrdd 8/8 • Pwyllgor Deddfwriaeth lechyd Meddwl 2/3 • ADPh 3/5 • Cyllid 7/8 • Archwilio 1/7 • Strategaeth a Chyflawni 2/4 • Cyllid 7/8	Oedran fel Nodwedd Warchodedig
Caroline Bird	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro (1 Ionawr 2022 hyd heddiw)	Gweithrediadau	• Y Bwrdd 3/3 • Pwyllgor Deddfwriaeth lechyd Meddwl 2/2 • ADPh 0/2 • Cyllid 4/4 • Strategaeth a Chyflawni 1/2	



Abigail Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro 1 Ionawr – 31 Ionawr 2021	Ystadau a Chynllunio	• Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 0/3 • Strategaeth a Chyflawni 5/6 • ADPh 1/6 • Cyllid 8/12 • Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol 4/4 • Iechyd a Diogelwch 0/3	Cynllunio ar gyfer Argyfwng
Dr Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Therapïau a Gwyddorau Bywyd	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Cronfeydd Elusennol 3/4 • ADPh 5/6 • Strategaeth a Chyflawni 1/1 • Iechyd a Diogelwch 0/3	Y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr
Rachel Gidman	Cyfarwyddwr Dros Dro Pobl a Diwylliant 1 Ebrill 2021 hyd 2 Mai 2021 Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant 3 Mai 2021 hyd heddiw	Y Gweithlu	• Bwrdd 7/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 1/3 • Iechyd a Diogelwch 2/3 • Archwilio 6/7 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 0/4 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 4/6 • Cyllid 4/12 • Strategaeth a Chyflawni 5/6	Diogelwch Tân Trais ac Ymddygiad Ymosodol Y Gymraeg



Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Iechyd y Cyhoedd	• Y Bwrdd 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 2/3 • ADPh 2/6 • Iechyd a Diogelwch 2/3 • Strategaeth a Chyflawni 5/6	Rhyw fel Nodwedd Warchodedig
----------------	--	------------------	---	------------------------------

Enw	Swydd	Maes Arbenigol / Rôl Cynrychiolydd	Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rolau Hyrwyddwyr
-----	-------	------------------------------------	--	------------------

Yn bresennol-Aelodau

Nicola Foreman	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol 1 Ebrill 2021 hyd heddiw	Bwrdd	• Llywodraethu 11/11 • Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 3/3 • Cronfeydd Elusennol 2/4 • Iechyd a Diogelwch 2/3 • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 4/4 • ADPh 5/6 • Archwilio 7/7 • IGDd 3/3 • Taliadau a Thelerau Gwasanaeth 6/6 • Strategaeth a Chyflawni 6/6 • Llundio ein Hysbytai i'r Dyfodol 4/4 • Cyllid 10/12	
David Thomas	Cyfarwyddwr Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol 1 Mehefin 2021 hyd heddiw	Digidol	• Y Bwrdd 10/11 • IGDd 3/3 • Strategaeth a Chyflawni 3/5	
Allan Wardaugh	Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mai 2021	Digidol	• Y Bwrdd 1/1	



Atodiad 2

Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022

Mae Tabl 1 yn amlinellu dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022 a Thabl 2 yn amlinellu dyddiadau cyfarfodydd Grwpiau Cyngori a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022, gan nodi unrhyw gyfarfodydd lle nad oedd cworwm:

Tabl 1 - Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022

Bwrdd/Pwyllgor	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mawrth
Y Bwrdd	29	27	10 a 24 Y ddau'n Arbennig	29	26 (Bwrdd Preifat yn unig)	30	X	25	16	27	24	31
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr				15 Arbennig			12			20		
Pwyllgor Archwilio	06	13 Gweithdy	10 Arbennig	06		07		09			08	
Cronfeydd Elusennol			29			21			07			01
Iechyd Digidol a Gwybodaeth			01				05				01	
Cyllid	28	26	23	28	25	29	27	24	30	05 a 26	16	23
Iechyd a Diogelwch				27			12			25		30
Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol	20			20			19				09 Heb gwor- wm	
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	13		15			15	26 Arbennig		14		22	
Taliadau a Thelerau Gwasanaeth		25		14		15			16	27	09	
Strategaeth a Chyflawni		11		13		14		16		01		15
Llunio Ein Hysbytai i'r Dyfodol				21			13			12		09



Cafwyd cworwm yn yr holl gyfarfodydd, ac eithrio yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.

Lle nad oedd cworwm mewn cyfarfodydd, roedd trefniadau uwchgyfeirio ar waith i sicrhau bod modd cyfeirio unrhyw bryderon o bwys, na ellid eu dwyn gerbron y Pwyllgor, i sylw Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Tabl 2 - Dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Cyngori a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022

Grwpiau Cyngori	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mawrth
Cyfeirio Rhanddeiliaid		25		27		29		23		25		22
Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd												
Fforwm Partneriaeth Lleol	22		17		18		21		01		17	

Cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd hefyd ar y Cydbwyllgorau a ganlyn:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
- Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB)

Caiff adroddiadau/bwletinâu sicrwydd gan y Pwyllgorau uchod eu cynnwys ar agenda'r Bwrdd yn ôl yr angen.



Atodiad 3

Cyfarwyddydau Gweinidogol

Cyfarwyddydau Gweinidogol (CGau)	Dyddiad/ Blwyddyn Mabwysiadu	Camau i ddangos gweithred/ymateb
2021. Rhif 41 – Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) 2021	Ebrill 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 59 – Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar Cyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth 2021	Gorffennaf 2021	Cyflawnir y Cyfarwyddyd hwn drwy Wasanaeth Awtistiaeth Integredig y Bwrdd Iechyd - Ceir gwasanaeth Anhwylder Niwroddatblygol pwrpasol i blant a phobl ifanc.
2021. Rhif 65 – Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn PfizerBioNTech) 2021	Gorffennaf 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 70 – Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau wedi'u Contractio: Imiwneiddio)2021	Awst 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 75 – Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif.2) 2021	Medi 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 77 – Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre Cylchol yn ystod Pandemig COVID-19) (Cymru) (Dirymu) 2021	Medi 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 83 – Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2021	Hydref 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 84 – Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2021	Hydref 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.



2021. Rhif 85 – Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 2) 2021	Hydref 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 88 – Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 3) 2021	Hydref 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 89 – Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) (Rhif 3) 2021	Hydref 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 90 – Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Ychwanegol Dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2021	Tachwedd 2021	Os bydd contractwyr Gofal Sylfaenol yn bwriadu darparu'r brechlyn ceir Fframwaith ar gyfer hynny.
2021. Rhif 93 – Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif.3) 2021	Rhagfyr 2021	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.
2021. Rhif 97 – Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau wedi'u Contractio: Imiwneiddio) (Diwygio) 2021	Rhagfyr 2021	Os bydd contractwyr Gofal Sylfaenol yn bwriadu darparu'r brechlyn ceir Fframwaith ar gyfer hynny.
2022. Rhif 06 – Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022	Mawrth 2022	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i gyflawni.



2022. Rhif 13 – Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022	Mawrth 2022	Amh - i'w gweithredu gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.
---	-------------	--

Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar ofal iechyd trawsffiniol ac ad-dalu costau triniaethau yn yr UE (WHC/2021/005)

Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Caiff holl Gylchlythyrau Iechyd Cymru eu hadolygu a'u brysennu i'r Arweinwyr Gweithredol a Gweithredu o fewn y sefydliad. Caiff y cynnydd a gyflawnir yn erbyn pob cylchlythyr ei olrhain gan Dîm Risg a Rheoleiddio'r Bwrdd Iechyd, a'i adrodd yn gyfnodol mewn Cyfarfodydd Swyddogion Rheoli Gweithredol.

Cyfarwyddydau Gweinidogol/Dyddiad Cydydffurfio	Dyddiad/ Blwyddyn Mabwysiadu	Gweithred i Ddangos Gweithrediad/ Ymateb
Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar ofal iechyd trawsffiniol ac ad-dalu costau triniaethau yn yr UE (WHC/2021/005)	06 Ebrill 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinydd Gweithredol a'i raeadu i gydweithwyr.
Protocol ar gyfer ymdrin â thrais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff y GIG (WHC/2021/012)	22 Ebrill 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinydd Gweithredol a'i raeadu i gydweithwyr.
2021/2022 Canllawiau Ffurflenni Monitro Ariannol Misol i Fyrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau Iechyd WHC/2021/011	23 Ebrill 2021	Wedi'i rannu â rheolwyr a staff allweddol a'i drafod mewn cyfarfod priodol.
Cerdyn triniaeth steroid cenedlaethol diwygiedig (WHC/2021/008)	27 Mai 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r arweinydd Gweithredol a chydweithwyr priodol. Y cerdyn triniaeth newydd yn cael ei ddefnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd, ac fe'i trafodwyd yn rhifyn Awst 2021 o Gylchlythyr Diogelwch Meddyginiaethau y BIP.



Rhaglen genedlaethol imiwneiddio rhag y fflw 2021 i 2022 (WHC/2021/019)	04 Awst 2021	Mae'r camau gweithredu y manylir arnynt yn y Cylchlythyr wedi'u cyfeirio i sylw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a'i Thîm. Adroddwyd
Cyflwyno Shingrix® ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan o fis Medi 2021 (WHC/2021/021)	01 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i gyfeirio at sylw'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er mwyn gweithredu - O fis Medi 2021 rheolwyr y camau gweithredu gan Bractisau Meddyg Teulu.
Cyfraniad GIG Cymru tuag at sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 (WHC/2021/024)	08 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a Rheolwr y Rhaglen Datgarboneiddio i wneud cynnydd cysylltiedig yn unol â chynlluniau Datgarboneiddio'r Bwrdd Iechyd.
Llwybr Syndrom Twnnel y Carpws Cymru Gyfan (WHC 2021/025)	15 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu a llwybr wedi'i weithredu a'i gymeradwyo gan lawfeddygon a meddygon teulu arweiniol. Adborth wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru ynghylch y llwybr atgyfeirio.
Adolygiad o reolau sefydlog, a chadw a dirprwyo pwerau (WHC/2021/010)	16 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, sydd wedi rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.
Cyhoeddi'r fframwaith ansawdd a diogelwch (WHC/2021/022)	17 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â chydweithwyr Gweithredol a'i raeadru i'r tîm nysio Corfforaethol i sicrhau bod y ddogfen a'r argymhellion wedi'u cynnwys mewn cynlluniau i ehangu Fframwaith y Bwrdd Iechyd
Penderfyniadau gofal ar gyfer dyddiau olaf bywyd (WHC/2021/023)	23 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r arweinydd Gweithredol a'i raeadru i gydweithwyr clinigol.
Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a Nodau Gwellu Gwrthficrobaidd (WHC/2021/028)	27 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r arweinydd Gweithredol a'i raeadru i gydweithwyr clinigol ac Arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau.
Cynllun iechyd gwaed GIG Cymru (WHC/2021/027)	27 Medi 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu.
Cymhwystra ymwelwyr tramor i dderbyn gofal sylfaenol am ddim (WHC/021/026)	06 Hydref 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr gweithredu priodol i'w adolygu a'i weithredu.



Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 i 2025 (WHC/2021/031)	09 Tachwedd 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a'i raeadru i'r arweinwyr cynllunio i'w adolygu a'i ymgorffori ym mhrosesau CTCL y Bwrdd Iechyd.
Role and provision of dental public health in Wales (WHC/2021/032)	16 Tachwedd 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu.
Rôl a darpariaeth llawdriniaethau'r geg yng Nghymru (WHC/2021/033)	14 Rhagfyr 2021	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu. Mae adborth a dderbyniwyd yn cadarnhau bod cyfeiriad y gwasanaeth deintyddol o fewn y Bwrdd Iechyd yn gyson â Llundio ein Gwasanaethau Iechyd i'r Dyfodol.
Dyraniadau byrddau iechyd 2022 i 2023 (WHC/2021/034)	09 Chwefror 2022	Cylchlythyr wedi'i dderbyn a'i rannu â'r Arweinwyr Gweithredol.
Cofnodi codau darllen dementia (WHC/2022/007)	15 Chwefror 2022	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu.
Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru: gofynion data (WHC/2022/005)	24 Mawrth 2022	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu.
Fframwaith Profi Cleifion – Canllawiau wedi'u diweddarau (WHC/2022/011)	24 Mawrth 2022	Rhannwyd copi o'r Cylchlythyr drwy e-bost i holl gydweithwyr y Bwrdd Iechyd gael golwg arno.
Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer rhaglen frechu rhag ffliw tymhorol (ffliw) y GIG 2022 i 2023 (WHC/2022/010)	29 Mawrth 2022	Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol a'i raeadru i arweinwyr a meysydd clinigol i'w adolygu a'i weithredu.



Rhan 2b

Adroddiad ar Daliadau a Staff



Rhan 2b

20. Adroddiad ar Dadliadau a Staff

20.1 Niferoedd y Staff

Mae proffil gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn dangos bod tua 76% o'r gweithlu yn fenywod. Nid yw hyn yn cynrychioli'r gymuned leol lle mae ychydig dros hanner y boblogaeth yn fenywod. Dyma oedd nifer y dynion a'r menywod o blith y cyfarwyddwyr, y rheolwyr a'r gweithwyr ar 31 Mawrth 2022:

	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Cyfarwyddwr	12	9	21
Rheolwr	167	99	263
Gweithiwr	12548	3852	16403
Cyfanswm	12727	3960	16687

20.2 Cyfansoddiad y Staff

Mae gennym weithlu amrywiol o bron i 16,000 o staff yn gweithio mewn llawer o wahanol fathau o rolau, ac ynghyd â gwirfoddolwyr, cydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol a gofalwyr, rydym yn cael effaith aruthrol ar ein poblogaeth. Mae'n rhaid inni wybod a deall siâp ein gweithlu os ydym am fonitro a diwygio'n llwyddiannus y cynlluniau sy'n arwain at y gweithlu cywir ar yr adeg gywir, gan alluogi a grymuso'r gweithlu i weithio ar 'ben uchaf eu trwydded' neu gwmpas ymarfer. Yn ogystal â'r heriau a gafwyd yn sgil y pandemig a'r cyfnod adfer angenrheidiol, mae'r Cynllun Pobl a Diwylliant yn cydnabod ein bod ni, ynghyd â'r GIG ehangach yng Nghymru, yn wynebu newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol a demograffig. O ganlyniad i hyn mae angen i ddemograffeg

ein gweithlu hefyd newid, ac mae'n rhaid inni addasu'r ffordd rydym yn recriwtio, yn cadw ac yn cefnogi ein pobl.

Mae'r siartiau isod yn dangos yr heriau canlynol wrth ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r gweithlu presennol, a gweithlu'r dyfodol, a sut i ystyried cyflenwad y dyfodol yn erbyn blaenoriaethau gwasanaeth:


- Mae gan y Bwrdd Iechyd weithlu sy'n heneiddio a'r categorïau oedran mwyaf yw 31-35 oed (2,193 o staff) a 51-55 oed (2,122 o staff). Mae'n allweddol bod Byrddau Clinigol sy'n cynllunio'r gweithlu lleol yn ystyried effaith gweithwyr sy'n ymddeol o feysydd gwasanaeth tyngedfennol.
- Y categorïau gradd mwyaf yw staff ym Mandiau 2, 5 a 6 yr Agenda ar gyfer Newid. Mae'n bwysig adolygu'r gymysgedd o sgiliau a ffyrdd newydd o weithio yn barhaus er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o sgiliau i'r dyfodol, yn y man cywir ac ar y radd gywir. Mae angen moderneiddio'r gweithlu ymhellach hefyd, gan greu rolau newydd ac ymestyn sgiliau, a gwella gwybodaeth am y gweithlu a sgiliau cynllunio'r gweithlu i gefnogi hynny. Mae hyn yn cynnwys datblygu mesurau effeithlonrwydd a chynhyrchiant priodol sy'n helpu i hwyluso meincnodi a dangos gwerth wrth i siâp ein gweithlu barhau i newid.
- Mae mwyafrif y gweithlu yn fenywod (76%) gydag ymraniad cyfartal o fewn y grŵp hwn rhwng gweithwyr amser llawn (39%) a rhan-amser (37%). Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein polisïau cyflogaeth, fel y Polisi Gweithlu Addasadwy a'r Weithdrefn Gweithio Hyblyg, er mwyn cadw talent a chadw ymroddiad staff.




- Mae mwyafrif y gweithlu yn wyn (77%) gydag 11% mewn categorïau Du a Lleiafrifol Ethnig a 12% heb ddatgan eu hethnigrwydd. Ceir nifer o gamau ynn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i barhau i adolygu ein gweithlu yn hyn o beth, er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrechu i adlewyrchu'r boblogaeth leol, lle bo'n berthnasol ee, mewn arferion recriwtio.
- Staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig a staff nyrsio anghofrestredig sydd i gyfrif am ychydig dros 42% o gyfanswm y gweithlu. Ac ystyried bod prinder cenedlaethol cydnabyddedig o nyrsys cofrestredig, mae'r Bwrdd lechyd wedi

rhoi blaenoriaeth uchel i gynaliadwyedd nyrsys ar agenda ei weithlu. Er na allwn ddylanwadu ar gyflenwad gwirioneddol y gweithlu cofrestredig yn y tymor byr, gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddenu pobl drwy wella brand y Bwrdd lechyd gan hyrwyddo manteision gweithio yma, a thargedu grwpiau penodol mewn cymdeithas.


Dengys gwybodaeth am broffil y gweithlu a gasglwyd i'r BIP ym mis Mawrth 2022 fod 5% o staff yn ystyried bod ganddynt anabledd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn hysbys ar gyfer nifer sylweddol o'r staff (31%).




Rhywedd a Chontract




Grŵp Ethnig




Cyfeiriadedd Rhywiol




Grŵp Staff



Coeden Nadolig fesul Band Tâl



Anabledd



20.3 Data Absenoldeb Salwch

Mae iechyd a llesiant staff y Bwrdd Iechyd o'r pwys mwyaf, yn enwedig ar yr adeg ddigynsail hon, ac mae llawer o'r gwaith a gyflawnwyd yn 2021/22 wedi'i ddisgrifio yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

Mae **absenoldeb salwch** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Y gyfradd salwch gronnus ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at ac yn cynnwys mis Mawrth 2022 yw 6.92% sydd 2.32% yn uwch na tharged diwedd blwyddyn 2021-22 o 4.60%. Mae 12.57% o gyfanswm y salwch a gofnodwyd wedi'i briodoli i COVID-19.

Roedd 70% o'r salwch hwn i'w briodoli i absenoldeb hirdymor a 30% i absenoldeb byrdymor. Y prif resymau a gofnodwyd ar gyfer absenoldeb o fewn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2021-22 oedd Gorbryder/Straen a Phroblemau'r Frest ac Anadlu.

Dengys y tabl isod wybodaeth am nifer y diwrnodiau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2020-21 a 2021-22.

	2021-22	2020-21
	Nifer	Nifer
Dyddiau a gollwyd (hirdymor)	247,568.4	213,428.31
Dyddiau a gollwyd (byrdymor)	101,921.9	83,687.6
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd	349,490.38	297,115.98
Cyfanswm blynyddoedd y staff	13828.4	13,560.93
Dyddiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	15.78	13.68
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y gweithwyr)	15,915	15,580
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb unrhyw absenoldeb (nifer y gweithwyr)	6,274	7,602
Canran y staff heb absenoldeb salwch	39.42%	47.49%



20.4 Polisiâu Staff

Yn y Bwrdd Iechyd mae gennym 6 o Bolisiâu Cyflogaeth Bwrdd Iechyd Lleol:

- Recriwtio a Dethol
- Gweithlu Addasadwy
- Iechyd a Llesiant Gweithwyr
- Dysgu, Addysg a Datblygu
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae'r rhain yn nodi ein hymrwymadau fel sefydliad, a'r hyn rydym yn anelu i'w gyflawni. Cefnogir pob un ohonynt gan nifer o Weithdrefnau sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn, y rolau a'r cyfrifoldebau, ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau. Mae hyn yn golygu bod llai o ddyblygu, mwy o dryloywder a gwybodaeth sy'n haws ei deall. Mae'r rhain yn ychwanegol at Bolisiâu CYMRU GYFAN sy'n berthnasol i ni ac i bob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru

Mae'n ofynnol cael dau awdur ar gyfer yr holl bolisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau cyflogaeth, a'r polisiâu, y gweithdrefnau a'r canllawiau cysylltiedig ynghylch Adnoddau Dynol a'r Gweithlu a Datblygu Trefniadol, hy, cynrychiolydd y rheolwyr a'r staff, a chynnal proses ymgynghori gadarn ar y dogfennau hynny. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r dogfennau ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd am isafswm o 28 diwrnod a'u hystyried yn Is-Grŵp Polisiâu Cyflogaeth y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Fel cyflogwr rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal a chynhwysiant ystyrlon i bob gweithiwr, waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig (hy, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, hil, tarddiad ethnig, statws mamolaeth, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu oedran), fel y dangosir yn ein **Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol**. Mae ei gylch gwaith yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio'n llwyr â'r gyfraith ac yn gweithredu fel man cyfeirio os bydd unrhyw anghydfodau dilynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses o recriwtio a dethol staff yn cael ei chynnal mewn modd systematig, gynhwysfawr a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal bob amser, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pawb. Mae'r **Polisi Recriwtio a Dethol** yn esbonio sut y byddwn yn denu, yn penodi ac yn cadw staff cymwys â chymhelliant, â'r sgiliau a'r profiad cywir i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu, gan gefnogi gwerthoedd y polisi. Ategir hyn gan nifer o weithdrefnau gan gynnwys y Weithdrefn Recriwtio a Dethol, Gweithdrefn Contract Cyfnod Penodol a Gweithdrefn Cofrestru Proffesiynol. Recriwtio, Denu a Chadw gweithwyr yw un o themâu'r Cynllun Pobl a Diwylliant. Mae'r gallu i ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel yn dibynnu ar y gallu i recriwtio a chadw unigolion sydd â'r sgiliau, y galluoedd, y gwerthoedd a'r profiadau cywir. Mae hyn wedi datblygu'n fwyfwy anodd yn dilyn y pwysau ar wasanaethau a'r effaith ar wytnwch y gweithlu yn gysylltiedig â'r pandemig. Mae'r hinsawdd bresennol wedi creu prinder ymgeiswyr addas mewn llawer o broffesiynau, ac mae angen inni feddwl



yn wahanol am sut rydym yn denu ac yn recriwtio ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid gofal cymdeithasol i ddatblygu gweithlu integredig, ac i gefnogi gweithlu amrywiol a diwylliant cynhwysol. Fodd bynnag, ni allwn ddibynnu ar y gallu i ddenu pobl newydd i'n gweithlu yn unig; mae angen inni wella'r modd yr ydym yn cadw, yn rheoli, yn datblygu ac yn gofalu am lesiant y gweithlu sydd gennym eisoes.

- Sefydlu Tîm Adnoddau'r Gweithlu newydd
- Datblygu prosesau recriwtio 'llwybr carlam' ar gyfer rhai swyddi
- Cyhoeddi Arolwg Bodlonrwydd Cyflogaeth ('arolwg dechreuwyd') ar gyfer nyrsys newydd gymhwyso
- Creu cysylltiadau â'r ganolfan waith ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers cyfnod hir
- Trefnu 3 diwrnod o ffug-gyfweliadau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ym mis Chwefror 2022

- Cynnal trafodaethau i wella prosesau recriwtio Staff Swyddfa Dros Dro
- Datblygu Strategaeth/Cynllun Cadw Drafft
- Cysylltu â Wallich, sefydliad sy'n cefnogi'r digartref a Shelter Cymru i roi cefnogaeth i'w cleientiaid gael swydd.
- Cynnal cyfarfod â'r Bartneriaeth Newid Gyrfa i helpu cyn-filwyr i gael gwaith. (Digwyddiad gyrfaoedd Bryste wedi'i gynllunio ar gyfer Mehefin 22).
- Cymryd rhan mewn 2 ffair recriwtio 'Into Work' a 4 arall wedi'u harchebu

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal wrth recriwtio, ac yn dangos hyn drwy arddangos y Symbol Hyderus o ran Anabledd (sy'n disodli'r cynllun 'dau dic') ym mhob hysbyseb, yn ogystal â symbolau Cadarnhaol ynghylch Oedran, Cyflogwr Ystyriol a Stonewall Cymru.



INVESTORS
IN PEOPLE



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi ei weithwyr a'u cadw'n iach. Y **Polisi Iechyd a Llesiant Gweithwyr** sy'n nodi ein hymrwymiad i annog a grymuso gweithwyr i gymryd cyfrifoldeb personol dros eu ffordd o fyw, a'u hiechyd a'u llesiant, ac i roi arweiniad i reolwyr ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Yn dilyn ailasesiad yn nhymor yr hydref 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw'r **Safonau Iechyd Corfforaethol** Aur a Phlatinwm ac wedi'i gydnabod fel sefydliad enghreifftiol. Bydd y dyfarniad hwn yn weithredol dros y 12 mis nesaf, gydag asesiad llawn wedi'i aildrefnu ar gyfer hydref 2022. Mae'r Grŵp Strategaeth Llesiant sydd



bellach wedi'i sefydlu yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Safon Iechyd Gorfforaethol, a gwnaed llawer o gynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gweithredu gorsafoedd hydradu, a gefnogir gan yr Elusen Iechyd, a datblygu cymorth cymheiriaid.

Mae **Polisi Rheoli Absenoldeb yn y Gwaith** GIG Cymru yn cynorthwyo rheolwyr i gefnogi staff pan fyddant yn sâl, i reoli eu habsenoldeb a'u helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn amserol, mewn modd tosturiol. Mae'r polisi'n rhagweithiol drwy osod cyfrifoldeb ar reolwyr llinell i adnabod eu staff ac i ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant i'w cadw'n iach ac yn y gwaith.

Mae'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith yn cynnwys nifer o becynnau cymorth. Mae un o'r rhain yn ymdrin ag addasiadau rhesymol/wedi'u teilwra – mae'n atgoffa rheolwyr o'n dyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw gweithwyr ag anableddau, neu amhariadau iechyd corfforol neu feddyliol, o dan anfantais wrth gyflawni eu swydd neu yn ystod y broses recriwtio. Nodir yn y Polisi nad yw pob salwch yn anabledd, ond os yw gweithiwr yn gofyn am gymorth gyda chyflwr iechyd a llesiant, mae'n well darparu'r cymorth a geisir, gan dybio bod gwneud hynny'n weithred gymesur. Ceir llawer o fanteision yn gysylltiedig â hyn, gan gynnwys helpu'r gweithiwr i ddychwelyd i'w waith a'u helpu i aros yn y gwaith.

Cafodd tîm arbenigol Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith ei ffurfio ym mis Rhagfyr 2021 mewn ymateb i'r pwysau gweithredol ar y gweithlu, gan gynnwys pwysau oherwydd COVID-19 a phwysau'r gaeaf. Pwrpas y tîm oedd rhoi cyngor arbenigol a chefnogaeth

i reolwyr a chydweithwyr ar bob mater yn gysylltiedig â rheoli presenoldeb. Amcanion y tîm oedd adolygu pob achos o salwch hirdymor, rheoli prosesau adleoli, adolygu achosion Covid hir gan ganfod rolau eraill lle bo modd, a gweithio gyda'r Tîm Iechyd a Llesiant i gefnogi'r strategaeth llesiant er mwyn helpu i atal salwch. Mae'r tîm wedi cefnogi a hyfforddi rheolwyr, yn ystod cyfnod anodd ac annarogan wrth adfer ar ôl COVID-19. Mae hyfforddiant Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith wedi cael ei gyflwyno'n rhithiol i 90 o reolwyr, gyda sesiynau rheolaidd wedi'u cynllunio wyneb yn wyneb ac yn rhithiol yn 2022. Mae staff sy'n absennol am gyfnod hir gyda salwch syndrom ôl-COVID-19 wedi cael eu cefnogi gan reolwyr ac wedi cael eu cyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael i'w cynorthwyo i wella. Mae absenoldeb cyffredinol yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn lleihau yn sgil dull penodol ac ymroddedig y Tîm Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith.

Mae'r **Weithdrefn Adleoli** yn nodi'r broses ar gyfer chwilio am swydd arall i weithwyr os nad ydynt yn ddigon iach i gyflawni dyletswyddau eu swydd gyfredol, neu os nad ydynt yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hynny, naill ai ar sail dros dro neu barhaol. Gall hyn fod am nifer o resymau, gan gynnwys iechyd. Mae'n bwysig bod staff a rheolwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'r broses i'w dilyn i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Un newid pwysig oedd nad yw unigolion y mae angen eu hadleoli oherwydd eu hiechyd yn dibynnu ar gyngor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i gael gwybod am swyddi gwag, nac yn gorfod gwneud cais am swydd wag wedi iddi gyrraedd y cam hysbysebu. Mae staff y mae angen rolau eraill arnynt yn cael eu cynnwys yn system recriwtio Trac ac yn



cael gwybod yn awtomatig am swydd a allai fod yn addas iddynt cyn caniatáu i'r cais swydd wag symud ymhellach drwy'r system. Er bod y broses o ganfod cyfle adleoli yn cael ei chydgyssylltu i ddechrau gan yr Adran Adnoddau Dynol, rhennir y cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, a'r berchnogaeth ar hynny, rhwng yr unigolyn dan sylw a'i reolwr llinell ar y pryd. Mae disgwyl i'r naill a'r llall gymryd pob cam posibl i ganfod cyfleoedd addas. Mae'r Weithdrefn wedi cryfhau atebolrwydd rheolwyr nad ydynt yn derbyn ymgeisydd addas ar gyfer cyfnod prawf adleoli. Nod y Weithdrefn yw sicrhau bod cyngor, cefnogaeth ac arweiniad clir yn cael ei roi i reolwyr a gweithwyr ynghylch eu rôl(au) wrth reoli sefyllfaoedd lle mae angen trosglwyddo gweithwyr i swyddi eraill addas.

Drwy wneud addasiadau rhesymol i staff ag anableddau rydym wedi gallu cadw nifer o weithwyr gwerthfawr yn eu rôl barhaol. Mae'r newidiadau nodweddiadol yn cynnwys adolygu llwythi achosion, newid offer a ddefnyddir, prynu offer arbenigol ac addasu eu gweithleoedd. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau fel Mynediad at Waith i gefnogi ein gweithwyr anabl.

Cafodd **Canllawiau Cefnogi Gofalwyr** eu datblygu ym mis Medi 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai fod ar weithwyr â chyfrifoldebau gofalu fod angen trefniadau byrdymor i ofalu am blentyn neu ddibynnydd, neu gael 'hawl i wneud gwaith' am drefniadau gwaith hyblyg ar gyfer gofynion tymor hwy. Gallai'r cyfrifoldebau gofalu effeithio ar allu aelod o staff i wneud ei swydd.

Pwrpas y Canllawiau yw helpu'r staff i daro cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith/bywyd gyda chyfrifoldebau gofal, fel eu bod yn debygol o deimlo wedi'i gwerthfawrogi'n

fwy, ac felly'n fwy cynhyrchiol a bodlon yn y gwaith. Mae'n sicrhau nad yw staff o dan anfantais annheg oherwydd cyfrifoldebau o'r fath a'u bod yn gallu cyfuno eu gwaith â'u cyfrifoldebau gofalu yn llwyddiannus. Mae'r sefydliad yn gwerthfawrogi pob unigolyn ac yn ymdrechu i gadw staff a darparu ar gyfer eu hamgylchiadau newidiol lle bo modd, tra'n cydbwysu anghenion y gwasanaeth.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi ystod o opsiynau byrdymor a hirdymor sydd ar gael i staff drwy gytundeb â'u rheolwr llinell. Amlinellir cyfrifoldebau'r rheolwr llinell, yr aelod staff, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chynrychiolydd yr Undebau Llafur yn y canllawiau. Gall aelod o staff â chyfrifoldebau gofalu a'i reolwr llinell lenwi cynllun gofalwr. Gall y cynllun fanylu ar y cyfrifoldebau gofalu a'r trefniadau y cytunodd y naill ochr a'r llall arnynt ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. Cymhwysir y canllawiau hyn yn unol ag egwyddorion Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol, Polisi Absenoldeb Arbennig a Gweithdrefn Gweithio Hyblyg y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar y cyfle i ddatblygu dull partneriaeth ar y cyd â **DFN Project Search**. Rhaglen flwyddyn o hyd i baratoi am gyflogaeth yw DFN Project Search, a gynhelir yn gyfan gwbl o fewn y gweithle. Bydd hyn o gymorth i sicrhau'r deilliannau cyflogaeth gorau i oedolion ifanc o ddarparwyr addysg AAA ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ar draws Caerdydd a'r Fro, sydd wedi'u tangynrychioli o fewn y gweithlu. Bydd hyn o gymorth i gyflawni rhan o'r agenda ehangu mynediad i gyflogaeth. Eleni, cafwyd 7 o interniaid, y mae 2 ohonynt bellach wedi cael swydd o fewn Caerdydd a'r Fro, ac rydym ar ganol recriwtio tua 12 o interniaid ar gyfer y flwyddyn nesaf.



Oherwydd y tirlun economaidd presennol yn sgil COVID-19, mae llawer o bobl yn ddi-waith. Mae cyfran fawr o'r unigolion hyn yn bobl ifanc. Mae'r llywodraeth wedi lansio cynllun arloesol newydd, sef **KICKSTART** sy'n rhoi dyfodol sy'n llawn cyfle i bobl ifanc 16-24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol drwy greu swyddi o ansawdd uchel drwy gymhorthdal gan y Llywodraeth ar draws y DU. Llwyddodd Caerdydd a'r Fro i ddod yn gyflogwr uniongyrchol ym mis Ionawr 2020. Bydd lleoliadau Kickstart yn chwe mis o hyd, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd yr unigolyn yn ennill sgiliau cyflogadwyedd ychwanegol ac yn cael ei fentora i'w helpu i lwyddo i gael cyflogaeth hirdymor. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio cyfanswm o 162 o unigolion i'r sefydliad, ac o'r rhain, mae 2 wedi symud ymlaen i gynlluniau prentisiaeth, 32 wedi ennill rolau o fewn y Bwrdd Iechyd, 66 yn dal i fod ar y cynllun, a'r 62 sy'n weddill bellach wedi gorffen eu lleoliadau gyda ni. Daeth y cynllun i ben ar 31 Mawrth 2022.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r **Academi Brentisiaethau** wedi parhau i gynyddu rhywfaint o fomentwm wrth inni adfer o effeithiau'r pandemig. Rydym wedi llwyddo i recriwtio 8 prentis arall ac mae 1 wedi cwblhau'r brentisiaeth ac wedi llwyddo i gael swydd yn yr adran a oedd yn ei gynnal. Mae trafodaethau cadarnhaol yn cael eu cynnal ym maes Ystadau, Cofnodion Iechyd a Digidol ac rydym yn disgwyl recriwtio i'r swyddi hyn yn nhymor y gwanwyn. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau cynnar â'n cydweithwyr o fewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Cyllid, Nyrsio Deintyddol, Profiad Cleifion a pheirianeg Adsefydlu gan fod cymwysterau a llwybrau dilyniant bellach ar gael i gefnogi'r rhannau hyn o'r gweithlu. Rydym yn parhau i adolygu cymwysterau wrth iddynt ddod ar gael ac yn targedu'r

meysydd lle gellir defnyddio'r rhain. Mae cyflwyno prentisiaid Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn dal i fod yn gadarn ar yr agenda ac mae sgysiau'n parhau â chydweithwyr nyrsio ynghylch sut y gellir cyflwyno'r rhain a'r cymorth sydd ei angen. I gefnogi ein prentisiaid presennol a'n cyn brentisiaid rydym wedi'u gwahodd i ymuno â Rhwydwaith Arweinwyr y Dyfodol. Cefnogir y Rhwydwaith i ddechrau gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant, ond y grŵp ei hun fydd yn arwain y Rhwydwaith yn y pen draw, gan lywio'r agenda wrth symud ymlaen. Bydd y rhwydwaith hwn yn rhoi cymorth a datblygiad ychwanegol iddynt i'w galluogi i ffynnu a dod yn Arweinwyr y Dyfodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer y staff presennol sy'n manteisio ar brentisiaethau wedi cynyddu'n sylweddol ers haf 2021 gyda 236 o ddechreuwyd newydd yn cwmpasu pynciau fel rheolaeth, iechyd, Gweinyddu Busnes a Defnyddwyr TG. Yn ystod y cyfnod hwn, mae 134 o staff presennol wedi cwblhau eu cymwysterau. Drwy gydol y pandemig mae ein staff presennol a phrentisiaid lefel mynediad wedi cael cymorth i gwblhau eu cymwysterau. Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant, i gynnig dulliau asesu amgen. Rydym hefyd wedi cytuno ar seibiannau dysgu gydag unigolion i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi dan unrhyw anfantais dros y cyfnod digynsail hwn.

20.5 Cyflog a Hawliau Pensiwn Uwch Reolwyr 2021-2022

Rhoddir manylion llawn taliadau uwch reolwyr ar gyfer 2021-22 yn y tablau archwiledig a ganlyn:



ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL BIP CAERDYDD A'R FRO 2021-22

ADRODDIAD TALIADAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2021-22

Cyflogau Uwch Reolwyr

31-Mar-2022

Enw a theitl	Cyflog Cyfwerth â Blwyddyn Lawn (bandiau o £5,000)	Cyflog (bandiau o £5,000)	Taliadau Eraill (bandiau o £5,000)	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000)	Buddion mewn nwyddau (Talgrynnydd i'r £00 agosaf)	Buddion Pensiwn (Talgrynnydd i'r £000 agosaf)	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
	£000	£000	£000	£000	£00	£000	£000
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro							
<u>Swyddog Aelodau</u>							
Suzanne Rankin, Prif Weithredwr (1)	215-220	35-40	0	0	14	0	35-40
Leonard Richards, Prif Weithredwr (1)	230-235	115-120	0	0	0	59	170-175
Dr Stuart Walker, Prif Weithredwr Dros Dro (1)	255-260	95-100	0	0	0	39	135-140
Dr Stuart Walker, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (5)	235-240	115-120	0	0	0	51	165-170
Ruth Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys	145-150	145-150	0	0	0	0	145-150
Steve Curry, Prif Swyddog Gweithredol (1) a (2)	155-160	115-120	0	0	0	75	190-195
Caroline Bird, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro (2)	135-140	30-35	0	0	0	110	140-145
Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol (1)	135-140	135-140	0	0	0	59	195-200
Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	175-180	175-180	5-10	0	4	198	380-385
Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant (3)	135-140	135-140	0	0	3	369	505-510
Dr Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd (4)	70-75	70-75	0	0	0	109	180-185
Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	125-130	125-130	0	0	0	52	175-180
yr Athro Meriel Jenney, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro (5)	180-185	80-85	0	0	0	0	80-85
<u>Cyfarwyddwr Eraill</u>							
Nicola Foreman, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	110-115	110-115	0	0	0	35	145-150
Allan Wardhaugh, Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol (6)	140-145	20-25	0	0	0	7	30-35
David Thomas, Cyfarwyddwr Deallusrwydd Digidol ac Iechyd (6)	115-120	95-100	0	0	7	19	115-120
<u>Aelodau Annibynnol (AA)</u>							
Charles Janczewski, Cadeirydd	65-70	65-70	0	0	0	0	65-70
Ceri Phillips, Is-gadeirydd (7)	55-60	55-60					55-60
Michael Imperato, AA - Cyfreithiol	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
John Union - AA - Cyllid	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
David Edwards, AA - Cyfathrebu Gwybodaeth a Thechnoleg (8)	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Yr Athro Gary Baxter, AA - Prifysgol	0	0	0	0	0	0	0
Sara Moseley, AA - Trydydd Sector (Gwifoddol)	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Y Cynghorydd Susan Elsmore, AA - Awdurdod Lleol	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Akmal Hanuk, AA - Cymuned Leol	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Rhian Thomas, AA - Cyfalaf ac Ystadau	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Mike Jones, AI - Undeb Llafur	0	0	45-50	0	0	0	45-50
<u>Aelodau Cyswllt</u>							
Sam Austin, Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	0	0	0	0	0	0	0
Lance Carver, Aelod Cyswllt - Awdurdod Lleol	0	0	0	0	0	0	0

Nid yw'r buddion pensiwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y BIP yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

Roedd gan Stuart Walker ddwy rôl fwrdd yn ystod y flwyddyn - mae ei gyflog cyfunol yn rhan o'r band 210-215, gyda chyfanswm cyflog gan gynnwys buddion pensiwn yn dod o dan band 305-310.

Yn ystod 2021-22, cyflwynwyd gofyniad adrodd newydd y dylai'r Bwrdd Iechyd Ddatgan cyflog cyfwerth â Blwyddyn Lawn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd ond yn aelod o'r bwrdd am ran o'r flwyddyn ariannol. Felly, mae colofn ychwanegol wedi'i chynnwys uchod ac yn nhabl 2020-21. Sylwer bod cyfanswm ffigurau'r Taliadau Cydnabyddiaeth yn seiliedig ar y symiau a dalwyd mewn gwirionedd yn y flwyddyn, nid cyflog y Flwyddyn Lawn.

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL BIP CAERDYDD A'R FRO 2021-22

CARDIFF AND VALE UNIVERSITY LOCAL HEALTH BOARD REMUNERATION REPORT 2021-22

Cyflogau Uwch Reolwyr

Enw a theitl	31-Mar-2021						
	Cyflog Cyfwerth â Blwyddyn Lawn (bandiau o £5,000)	Cyflog (bandiau o £5,000)	Taliadau Eraill (bandiau o £5,000)	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000)	Buddion mewn nwyddau (Talgrynwyd i'r £00 agosaf)	Buddion Pensiwn (Talgrynwyd i'r £000 agosaf)	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
	£000	£000	£000	£000	£00	£000	£000
<u>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro</u>							
<u>Swyddog Aelodau</u>							
Leonard Richards, Prif Weithredwr	210-215	210-215	0	0	0	54	265-270
Ruth Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys	140-145	140-145	0	0	0	0	140-145
Steve Curry, Prif Swyddog Gweithredol	140-145	140-145	0	0	0	39	180-185
Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol	130-135	130-135	0	0	0	36	170-175
Robert Chadwick, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	175-180	85-90	0	0	0	0	85-90
Christopher Lewis, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro	140-145	70-75	0	0	0	0	70-75
Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	170-175	10-15	0	0	0	5	15-20
Martin Driscoll, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	150-155	140-145	0	0	0	32	170-175
Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	130-135	10-15	0	0	0	1	10-15
Dr Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd	90-95	90-95	0	0	0	89	180-185
Dr Stuart Walker, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	225-230	225-230	0	0	0	85	310-315
Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	120-125	120-125	0	0	0	33	155-160
<u>Cyfarwyddwyr Eraill</u>							
Nicola Foreman, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	105-110	105-110	0	0	0	28	135-140
Jonathon Gray, Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwybodeg	155-160	35-40	0	0	0	4	40-45
Allan Wardhaugh, Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol	135-140	95-100	0	0	0	7	105-110
<u>Aelodau Annibynnol (AA)</u>							
Charles Janczewski, Cadeirydd	65-70	65-70	0	0	0	0	65-70
Michael Imperato, AI - Is-gadeirydd Dros Dro	55-60	55-60	0	0	0	0	55-60
John Union - Cyllid	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Eileen Brandreth, AI - Cyfathrebu Gwybodaeth a Thechnoleg	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Yr Athro Gary Baxter, AA - Prifysgol	0	0	0	0	0	0	0
Sara Moseley, AA - Trydydd Sector (Gwirfoddol)	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Y Cynghorydd Susan Elsmore, AA - Awdurdod Lleol	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Akmal Hanuk, AA - Cymuned Leol	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Rhian Thomas, AA - Cyfalaf ac Ystadau	15-20	15-20	0	0	0	0	15-20
Dawn Ward, AI - Undeb Llafur	40-45	0	35-40	0	0	0	35-40
Mike Jones, AI - Undeb Llafur	40-45	0	0-5	0	0	0	0-5
<u>Aelodau Cyswllt</u>							
Richard Thomas, Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	0	0	0	0	0	0	0
Geoffrey Simpson, Cadeirydd Dros Dro, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	0	0	0	0	0	0	0
Sam Austin, Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	0	0	0	0	0	0	0
Susan Bailey, Cadeirydd, Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol	85-90	0	75-80	0	0	0	75-80
Lance Carver, Aelod Cyswllt - Awdurdod Lleol	0	0	0	0	0	0	0

Nid yw'r buddion pensiwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y BIP yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflwng person, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau priso eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

Nid yw bonws y cynllun cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer gweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol o £735 i wobrwyo staff cymwys wedi'i gynnwys yng nghyfrifiadau adroddiad Taliadau'r GIG. Nid taliad cytundebol yw'r taliad bonws hwn, ond taliad untro i wobrwyo staff cymwys am eu hymrwymiad a'u hymdrechion diflino dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

Yn ystod 2021-22, cyflwynwyd gofyniad adrodd newydd y dylai'r Bwrdd Iechyd Ddatgan cyflog cyfwerth â Blwyddyn Lawn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd ond yn aelod o'r bwrdd am ran o'r flwyddyn ariannol. Felly, mae colofn ychwanegol wedi'i chynnwys uchod ac yn nhabl 2021-22. Sylwer bod cyfanswm ffigurau'r Taliadau Cydnabyddiaeth yn seiliedig ar y symiau a dalwyd mewn gwirionedd yn y flwyddyn, nid cyflog y Flwyddyn Lawn.

CARDIFF AND VALE UNIVERSITY LOCAL HEALTH BOARD REMUNERATION REPORT 2021-22**Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr**

Nid yw Mike Jones yn cael ei dalu fel Aelod Bwrdd, ond mae'n gyflogai i'r Bwrdd Iechyd a dangosir ei gostau cyflog yn y golofn Taliadau Eraill.

Roedd Suzanne Rankin, Catherine Phillips, Rachel Gidman a David Thomas yn aelodau o gynllun budd Cyflog Car Prydlesu GIG Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol, sy'n agored i holl gyflogeion y BIP. Mae elfen o gyflog cyflogai yn cael ei 'chyfnewid' am ddefnyddio car newydd. Yn y tabl Taliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2020-21 mae'r swm o £10,627 a gyfnewidwyd at ddefnydd y car wedi'i gynnwys yn y golofn Cyflog fel a ganlyn:

S Rankin £608
C Phillips £3,419
R Gidman £3,928
D Thomas £2,672

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cael £8,000 o dreuliau adleoli ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y golofn Taliadau Eraill ar gyfer tabl Taliadau Cydnabyddiaeth 2021-22.

Newidiadau i Aelodaeth y Bwrdd yn 2021-22

(1) **Suzanne Rankin** dechrau fel Prif Weithredwr 1 Chwefror 2022. **Len Richards** ddaeth ei rôl i ben ar 30 Medi 2021. **Stuart Walker** oedd y Prif Weithredwr Dros Dro rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Ionawr 2022 ac yna gadawodd y bwrdd Iechyd ar 18 Chwefror 2022, rhannwyd ei gyflog i adlewyrchu'r ddwy rôl bwrdd a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn.

Stuart Walker oedd y Dirprwy Brif Weithredwr tan 30 Medi 2021. **Steve Curry** oedd y Dirprwy Brif Weithredwr rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Rhagfyr 2021. **Abigail Harris** oedd y Dirprwy Brif Weithredwr rhwng 1 a 31 Ionawr 2022. **Stuart Walker** oedd y Dirprwy Brif Weithredwr rhwng 1 Chwefror 2022 a 18 Chwefror 2022.

(2) **Steve Curry** ddaeth ei rôl yn Brif Swyddog Gweithredu i ben 31 Rhagfyr 2021. **Caroline Bird** a ddechreuodd fel Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro 1 Ionawr 2022.

(3) **Rachel Gidman** a ddechreuodd fel Cyfarwyddwr Dros Dro Pobl a Diwylliant 1 Mawrth 2021 ac fe'i penodwyd yn barhaol i'r rôl o 3 Mai 2021.

(3) Mae **Fiona Jenkins** wedi bod yn gweithio fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddor Iechyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ers 2 Tachwedd 2020, daeth y trefniadau hyn i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae ei hamser wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y ddau Fwrdd Iechyd. Ymddeolodd **Fiona Jenkins** ar 31 Mawrth ac wedi dychwelyd i gyflogaeth ar 2 Ebrill o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y GIG.

(5) **Stuart Walker**, daeth e rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol i ben ar 30 Medi 2021. **Meriel Jenney**, dechreuodd fel Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro 1 Hydref 2021.

(6) **Allan Wardhaugh**, gadawodd y bwrdd ar 31 Mai 2021, ond mae'n dal i gael ei gyflogi gan y BILI. **David Thomas**, dechreuodd fel aelod o'r bwrdd ar 1 Mehefin 2021.

(7) **Ceri Phillips**, dechreuodd ar 1 Ebrill 2021.

(8) **David Edwards** dechreuodd ar 1 Ebrill 2021.

Perthynas â'r Taliadau

Adroddir ar fanylion y Berthynas Taliadau yn adran 9.6 o'r Datganiadau Ariannol.

Gofyniad newydd i'r adroddiad staff a thaliadau ar gyfer 2021-22 yw i'r BILI gyflwyno datgeliadau o ran y 25^{fed} a 75^{fed} cymhareb canradd a hefyd y newid canrannol yng nghyflog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf a chyflogeion yr endid yn ei gyfanrwydd. Mae'r datgeliadau newydd hyn wedi'u cynnwys yn adran 9.6 o'r Datganiadau Ariannol.



ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL BIP CAERDYDD A'R FRO 2021-22

CARDIFF AND VALE UNIVERSITY LOCAL HEALTH BOARD REMUNERATION REPORT 2021-22

Buddion Pensiwn

Enw a theitl	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ôl oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000	Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/22 (bandiau o £5,000) £000	Cyfandaliad ar oedran pensiwn sy'n gysylltiedig â phensiwn cronedig ar 31/03/2022 (bandiau o £000)	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 £000	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 £000	Cynnydd (gostyngiad) gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo o sy'n Gyfwerth ag £000	Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn cyfrandeiliaid I'r £100
Leonard Richards, Prif Weithredwr Daeth i ben 30/09/21.	2.5-5	(7.5) - (5)	55-60	135-140	1,285	1,209	53	0
Steve Curry - Prif Swyddog Gweithredol	2.5-5	5-7.5	65-70	160-165	1,482	1,364	94	0
Caroline Bird - Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro	0-2.5	2.5-5	40-45	80-85	736	619	24	0
Abigail Harris - Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio	2.5-5	2.5-5	50-55	95-100	913	833	56	0
Rachel Gidman - Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant	15-17.5	42.5-45	40-45	95-100	786	449	315	0
Catherine Phillips - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	10-12.5	10-12.5	70-75	160-165	1,401	1,247	120	0
Dr Fiona Jenkins - Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd (Nodyn 2)	10-12.5	30-32.5	70-75	210-215	0	0	0	0
Fiona Kinghorn - Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	2.5-5	2.5-5	45-50	100-105	1,009	928	58	0
Stuart Walker - Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro 1/10/21 i 31/01/22. Cyfarwyddwr Meddygaeth Weithredol tan 30/09/21.	5-7.5	2.5-5	80-85	185-190	1,639	1,505	95	0
Nicola Foreman - Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	2.5-5	0	25-30	0	314	277	6	0
David Thomas, Cyfarwyddwr Deallusrwydd Digidol ac Iechyd	0-2.5	0	0-5	0	62	30	11	0
Allan Wardhaugh - Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol	0-2.5	0-2.5	50-55	95-100	1,008	936	8	0

Nodyn 1 - Nid yw Suzanne Rankin yn aelod o gynllun Pensiwn y GIG ac felly ni adroddir unrhyw ffigurau pensiwn.

Nodyn 2 - Mae Fiona Jenkins dros yr Oedran Ymdeol Arferol ar gyfer cynllun Pensiwn y GIG ac felly ni adroddir ar unrhyw werthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth Er bod ei hamser wedi'i rannu'n gyfartal rhwng Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Cwm Taf ers 02/11/20, sylwer bod y tabl uchod yn adlewyrchu ei buddion pensiwn llawn ac nid yw wedi bod ar sail pro-rata.

Nodyn 3 - Mae Ruth Walker, Cyfarwyddwr Nysio Gweithredol wedi ymdeol a dychwelodd yn ystod 2019/20 ac felly ni adroddir ar unrhyw ffigurau pensiwn.

Nodyn 4 - Mae Meriel Jenney wedi ymdeol a dychwelyd ac felly ni adroddir unrhyw ffigurau pensiwn.

Gan nad yw aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn derbyn tâl pensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnodion mewn perthynas â phensiynau ar gyfer aelodau nad ydynt y

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag

Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol, a asesir gan actiwari. Y buddion y rhoddir gwerth iddynt yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daladwy a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ym mneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae ffigurau'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran Actiwariad.

Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

20.6 Gwariant ar Ymgynghori

Fel y datgelwyd yn nodyn 3.3 ei gyfrifon blynyddol, gwariodd y Bwrdd lechyd £7.479m ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2021-22 o gymharu â £5.562m yn ystod 2020-21. Aeth y rhan fwyaf o'r gwariant hwn at brosiectau a anelai i sicrhau deilliannau clinigol gwell, ac arbedion effeithlonrwydd.

20.7 Sicrwydd treth ar gyfer penodeion oddi ar y gyflogres

Yn berthnasol i'r holl ymgysylltiadau hyd at 31 Mawrth 2022, ar gyfer mwy na £245 y Dydd

Nifer yr ymgysylltiadau presennol ar 31 Mawrth 2022	18
O'r rhain:	
Nifer sydd wedi bod yn bodoli am lai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad	18
Nifer sydd wedi bod yn bodoli am un hyd at ddwy flynedd adeg yr adroddiad	0
Nifer sydd wedi bod yn bodoli am ddwy hyd at dair blynedd ar adeg yr adroddiad	0
Nifer sydd wedi bod yn bodoli am dair hyd at bedair blynedd ar adeg yr adroddiad	0
Nifer sydd wedi bod yn bodoli am bedair blynedd a mwy ar adeg yr adroddiad	0

Er nad yw'r BIP yn gyfrifol am ddiwynnu treth ac yswiriant gwladol yn berthnasol i weithwyr asiantaeth, rydym wedi ysgrifennu at yr asiantaethau dan sylw gan ddatgan ein bod yn credu bod ein perthynas â'r staff yn berthynas gyflogaeth ac felly, dylent dalu'r cyflogaeth hyn gan ddiwynnu treth ac yswiriant gwladol.



Nifer yr ymgysylltiadau newydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Nifer yr ymgysylltiadau newydd, rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2022	56
Nifer a aseswyd fel rhai sy'n dod o dan IR35	0
Nifer a aseswyd fel rhai nad ydynt yn dod o dan IR35	56
Nifer yr ymgysylltwyd â hwy'n uniongyrchol (trwy contractau gwasanaethau proffesiynol wedi'u contractio i'r adran) ac sydd ar gyflogres yr adran	0
Nifer yr ymgysylltiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer yr ymgysylltiadau y cafodd eu statws IR35 ei newid yn dilyn adolygiad cysondeb	0

Ar gyfer unrhyw ymgysylltiadau cyflogres gan aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

Nifer yr ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	0
Nifer yr unigolion yr ystyriwyd eu bod yn y categori "aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol	0

Sylwer bod y BIP yn ystyried mai ei Aelodau Bwrdd yw'r unig swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn y Bwrdd Iechyd.



Rhan 2c

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio



21. Rhan 2c Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

21.1 Rheoleidd-dra Gwariant

Fel y nodwyd uchod, mae gan y bwrdd lechyd ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Cyflawnwyd hyn ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2021-22, gyda thanwariant o £380k o'r terfyn adnoddau ar gyfer y tair blynedd. Ystyrir felly fod hyn yn rheolaidd.

Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, cafodd proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ei hatal oherwydd pandemig COVID-19. Yn lle'r gofyniad am CTCI cymeradwy, roedd angen cyflwyno cynlluniau chwarterol r gyfer 2020-2021 a chynllun blynyddol ar gyfer 2021-2022.

Bydd y BILL yn dychwelyd i'r cylch cynllunio tair blynedd yn unol â chyfarwydddebau Llywodraeth Cymru o 2022-2025.

Ysgwyddodd y bwrdd lechyd wariant afreolaidd o £2.193 miliwn yn 2021-22, a rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol amod ar gyfer hyn yn gysylltiedig â'i farn ynghylch rheoleidd-dra, fel y nodir ar dudalen 168.

21.1.1 Cynlluniau Gwariant Hirdymor 2017 – 2022

Perfformiad yn Erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw

	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau gweithredu net am y flwyddyn	919,484	964,633	1,043,916	1,220,369	1,228,135
Tynnu gwariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant heb derfyn arian parod arall	(19,396)	(18,186)	(17,276)	(13,386)	(14,237)
Tynnu canlyniadau refeniw o ddod â chynlluniau MCP i SoFP	(1,028)	(1,028)	(1,028)	(1,028)	(222)
Cyfanswm y gwariant gweithredol	899,060	945,419	1,025,612	1,205,955	1,213,676
Dyrannu Adnoddau Refeniw	872,207	935,547	1,025,670	1,206,045	1,213,908
Tanwariant/Gorwariant yn erbyn Dyraniad	(26,853)	(9,872)	58	90	232

Mae'r BILL wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd o 2019-20 i 2021-22.

Ni chafodd y Bwrdd lechyd unrhyw gymorth ariannol ad-daladwy yn 2021-22.



Perfformiad yn Erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf

	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant cyfalaf gros	55,936	49,349	61,333	103,182	72,477
Ychwanegu: Colledion wrth waredu asedau a roddwyd	0	4	13	14	287
Tynnu GAN o eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol a waredwyd	(2,297)	(310)	(2,167)	(7,020)	(316)
Tynnu grantiau cyfalaf a gafwyd	0	0	0	(536)	(126)
Tynnu rhoddion a gafwyd	(6,606)	(630)	(1,109)	(297)	(1,374)
Tâl yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	47,033	48,413	58,070	95,343	70,948
Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	47,121	48,487	58,159	95,447	70,989
Gorwariant/tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	88	74	89	104	41


Mae'r BILL wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd rhwng 2019-20 a 2021-22.

Cynlluniau Gwariant Hirdymor (Parhad)

Sut mae'r BIP wedi derbyn ei Gyllid Refeniw


GRAFFIAU INCWM: 2016/17 i 2020/21

2021/22



2020/21


Incwm Blynyddol £1,683m



- Hyfforddiant ac Addysg £51m
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru £267m
- BILI Eraill £77m
- Dyraniadau Llywodraeth Cymru £1,210m
- Pob Incwm Arall £78m

2019/20

Incwm Blynyddol £1,482m




- Hyfforddiant ac Addysg £50m
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru £240m
- BILI Eraill £74m
- Dyraniadau Llywodraeth Cymru £1,031m
- Pob Incwm Arall £87m



2018/19


Incwm Blynyddol £1,389m



- Hyfforddiant ac Addysg (gan gynnwys AaGIC) £49m
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru £222m
- BILI Eraill £71m
- Dyraniadau Llywodraeth Cymru £940m
- Pob Incwm Arall £107m

2017/18

Incwm Blynyddol £1,280m



- Hyfforddiant ac Addysg £47m
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru £204m
- BILI Eraill £69m
- Dyraniadau Llywodraeth Cymru £875m
- Pob Incwm Arall £85m




Fel y datgelwyd yn y tabl dyletswydd perfformiad yn erbyn adennill costau uchod, caniateir i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu rhai elfennau o wariant (y mae'n eu hysgwyddo ond nad oes ganddo reolaeth lwyr drostynt) wrth gymharu ei wariant â'i derfyn adnoddau refeniw blynyddol. At ddibenion cymhariaeth ystyrlon o incwm a chst, mae hyn wedi'i drin fel incwm tybiannol yn yr uchod. Felly dangosir y ffigurau gwariant a ddangosir isod yn gros (heb dynnu unrhyw wariant).

Cynlluniau Gwariant Hirdymor (Parhad)

Sut mae'r BIP wedi defnyddio ei Gyllid Refeniw

2021/22


Gwariant Blynyddol £1,734m



- Staff Nysio £315m
- Staff Meddygol a Deintyddol £190m
- Costau Staff Eraill £281m
- Costau Cyffuriau £131m
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol £250m
- Gofal Iechyd Parhaus £66m
- Gofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill £280m
- Gwariant Ysbyty a Chymuned Arall £221m

2020/21


Gwariant Blynyddol £1,683m



- Staff Nyrso £300m
- Staff Meddygol a Deintyddol £178m
- Costau Staff Eraill £266m
- Costau Cyffuriau £109m
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol £244m
- Gofal Iechyd Parhaus £62m
- Gofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill £249m
- Gwariant Ysbyty a Chymuned Arall £275m

2019/20

Gwariant Blynyddol £1,482m




- Staff Nyrso £270m
- Staff Meddygol a Deintyddol £156m
- Costau Staff Eraill £228m
- Costau Cyffuriau £98m
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol £238m
- Gofal Iechyd Parhaus £59m
- Gofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill £232m
- Gwariant Ysbyty a Chymuned Arall £201m



2018/19


Gwariant Blynyddol £1,399m



- Staff Nyrsio £246m
- Staff Meddygol a Deintyddol £145m
- Costau Staff Eraill £209m
- Costau Cyffuriau £92m
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol £233m
- Gofal Iechyd Parhaus £58m
- Gofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill £244m
- Gwariant Ysbyty a Chymuned Arall £172m

2017/18

Gwariant Blynyddol £1,307m



- Staff Nyrsio £239m
- Staff Meddygol a Deintyddol £143m
- Costau Staff Eraill £196m
- Costau Cyffuriau £85m
- Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol £228m
- Gofal Iechyd Parhaus £56m
- Gofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill £209m
- Gwariant Ysbyty a Chymuned Arall £151m



21.2 Ffioedd a thaliadau

Mae'r Bwrdd lechyd yn codi taliadau neu ffioedd ar ei gleifion mewn nifer o feysydd. Os bydd y Bwrdd lechyd yn codi taliadau neu ffioedd o'r fath, bydd yn gwneud hynny'n unol â Chylchlythyrau lechyd Cymru neu ganllawiau codi tâl perthnasol.

Codir taliadau fel arfer ar sail cost lawn. Does yr un o'r eitemau y codir taliadau amdanynt yn berthnasol i'r BILL ar eu pen eu hunain, ond mae manylion rhai o'r eitemau mwy (Ffioedd Deintyddol, Incwm Preifat a Chleifion o Wledydd Tramor) wedi'u datgelu yn Nodyn 4 y Cyfrifon Blynyddol.

21.3 Rheoli arian cyhoeddus

Dyma'r Datganiad gofynnol ar gyfer Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus fel y cyfeirir ato yn Adran 10.1.7 (tudalen 72) o Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Yn unol â chyrff eraill y GIG yng Nghymru, mae'r BIP wedi datblygu Cyfarwyddyd Ariannol Sefydlog sy'n gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen Trysorlys EM ar Reoli Arian Cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, dylai'r BIP fod wedi cydymffurfio â gofynion dyrannu costau a chodi tâl y cyfarwyddyd hwn, ac nid yw'r BIP wedi cael gwybod am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn hynny o beth.

21.4 Rhwymedigaethau Amodol Perthnasol Pell

Fel y datgelwyd yn nodyn 21.2 o'i gyfrifon blynyddol, roedd gan y Bwrdd lechyd rhwymedigaethau pell wrth gefn net o £0.155m ar 31 Mawrth. Mae a wnelo hyn â hawliadau Esgeulustod Clinigol ac Anafiadau Personol yn erbyn y Bwrdd lechyd, lle mae ein cyngorwyr cyfreithiol wedi dweud wrthym nad yw'n debygol y bydd yr hawlwr yn llwyddo.

21.5 Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Adran 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2022. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU, fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.



Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 31 Mawrth 2022 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU, fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, heblaw am y mater a ddisgrifir yn yr adran Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra o'm hadroddiad, ym mhob ffordd berthnasol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra

Rwyf wedi gosod amod yn gysylltiedig â'm barn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan fod y datganiadau hynny'n cynnwys darpariaeth o £2.193 miliwn yn gysylltiedig â'r rhwymedigaeth amcangyfrifedig sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch glinigwyr. Yn fy marn i, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol ei natur.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalennau 167 i 168.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiad ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau yn ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn creu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.



Mae fy nghyfrifoldebau i, a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, o ran busnes gweithredol, wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio i arnynt. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i ba raddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes unrhyw anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu sydd fel arall yn ymddangos fel pe bai'n cynnwys camddatganiad o bwys. Os byddaf yn canfod unrhyw anghysondebau o bwys neu'r hyn sy'n ymddangos fel camddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn creu camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yr wybodaeth arall hon yn cynnwys camddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Adrodd yn ôl ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r Cyfarwyddydau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi cael eu paratoi'n unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Materion yr wyf yn adrodd yn ôl arnynt ar sail eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth am y Bwrdd a'i amgylchedd a'r ddealltwriaeth o hyn a sicrhawyd yn ystod fy archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.



Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion sy'n dilyn, y byddwn yn adrodd arnynt petawn i o'r farn:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oedd y manylion gan ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy yn ddigonol ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio, yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- nad yw'r wybodaeth a fanylwyd gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad..

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth fewnol sydd, ym marn y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, yn angenrheidiol fel bo modd paratoi datganiadau ariannol sydd yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Bwrdd i barhau fel

busnes gweithredol, gan ddatgelu materion perthnasol sy'n gysylltiedig â'r busnes, ac sy'n gysylltiedig â defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys os yw'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau o bwys os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau'n unol â'r cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys yn gysylltiedig ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys casglu ac adolygu dogfennau ategol sy'n



gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n ymwneud â:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol neu honedig, neu amheuaeth o dwyll; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut ac ymhle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, gwelais botensial am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol; a
- Chael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, neu a oedd yn cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch achosion cyfreithiol a hawliadau posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn dyddiaduron ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a ffurfiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arddangos tuedd bosibl; a gwerthuso sail busnes resymegol unrhyw drafodion o bwys sy'n anghyffredin neu sydd y tu hwnt i drywydd busnes arferol.

Bûm hefyd yn esbonio cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd, a risgiau posibl o dwyll wrth yr holl dîm archwilio, gan gadw'n effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anawsterau cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.



Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol imi gasglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalennau 167 i 168, ynghylch fy marn amodol ar reoleidd-dra a'r Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.



Adrian Crompton
24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ
Archwilydd Cyffredinol Cymru

17 Mehefin 2022

21.6 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BILL). Rwyf yn cyflwyno adroddiad ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 i dynnu sylw at un mater sy'n allweddol i'm harchwiliad. Y mater yw'r amodi fy marn ynghylch 'rheoleidd-dra', o ran y gwariant a gydnabuwyd o ganlyniad i'r cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau uwch glinigwyr. Nid wyf wedi gosod amod yn gysylltiedig â'm barn 'cywir a theg' mewn perthynas â'r mater hwn.

Cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau uwch glinigwyr

Nid yw cynllun pensiwn y GIG na deddfwriaeth treth pensiynau wedi'u datganoli i Gymru. Roedd newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau ar gyfer trethu cyfraniadau pensiwn yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys gostwng terfyn y Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad i hynny, mewn achosion lle bydd cyfraniadau pensiwn unigolyn yn uwch na therfynau lwfans cyfraniad pensiwn blynyddol ac/neu oes, bydd eu holl gyfraniadau'n denu cyfradd uwch o dreth, gan greu cynnydd mawr i'r atebolrwydd treth.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff y GIG yng Nghymru: 'yn adrodd yn rheolaidd nad oedd staff clinigol



uwch yn barod i dderbyn gwaith na sesiynau ychwanegol oherwydd y gosb bosibl o ran atebolrwydd treth'. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn arwain at daliadau treth ychwanegol a oedd yn uwch nag unrhyw incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei ennill.

Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog (gan adlewyrchu camau gweithredu cynharach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) Cyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol er mwyn adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn. Pe bai clinigwyr y GIG yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Y Cynllun yn Talu' i setlo taliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o'u cynilion pensiwn GIG 2019-20 (h.y. setlo'r tâl drwy dderbyn llai o bensiwn blynyddol, yn hytrach na gwneud taliad untro yn y fan a'r lle), byddai eu cyflogwyr o fewn y GIG yn talu am effaith y taliadau treth hynny ar eu pensiwn wrth iddynt ymddeol.

Roedd angen y Cyfarwyddyd Gweinidogol oherwydd gallai Cyllid a Thollau EM ystyried bod y datrysiad hwn yn gyfystyr â chynllunio ac, o bosib, osgoi treth, gan beri bod y gwariant yn afreolaidd. Yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n adlewyrchu'r ddogfen gyfatebol yn Lloegr) nodir yn benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus ymwneud ag ... efadu treth, osgoi treth na chynllunio treth'.

Nid yw Cyfarwyddyd Gweinidogol yn troi'r hyn a fyddai fel arall yn afreolaidd yn rheolaidd, ond mae'n symud atebolrwydd dros benderfyniadau o'r fath oddi wrth y Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog sy'n rhoi'r cyfarwyddyd.

Nid yw'r datrysiad ond yn berthnasol i daliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o gynnydd i'r buddion a gronwyd yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2020. Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyon ar gyfer y lwfans blynyddol taprog ac, o ganlyniad i hynny, rhagwelir y bydd y risg i'r cyflenwad o staff clinigol wedi'i lliniaru.

Mae'r BILL wedi derbyn digon o wybodaeth yn ystod y flwyddyn i gyfrifo a chydabod amcangyfrif o gostau posibl digolledu uwch staff clinigol am fuddion pensiwn y byddent fel arall wedi'u colli, drwy ddefnyddio trefniant 'Y Cynllun yn Talu'. O ganlyniad i hyn, mae'r gwariant wedi'i gydnabod fel darpariaeth, fel y dangosir yn nodyn 20 y datganiadau ariannol.

Ni fydd unrhyw gyrff o fewn y GIG yn atebol am effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol, ond yn fy marn i, mae'r trafodion sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol y BILL i gydnabod yr atebolrwydd hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol eu natur. Mae hyn oherwydd bod y taliadau'n groes i baragraff 5.6.1 o Reoli Arian Cyhoeddus ac yn gyfystyr â ffurf ar gynllunio treth, a fydd yn peri bod y Canghellor ar ei golled. Nid yw cyfarwyddyd y Gweinidog ynddo'i hun yn rheoleiddio'r cynllun. Ar ben hynny, mae'r trefniadau'n newydd a chynhennus, a gallent greu cynsail. O ganlyniad i hynny, rwyf wedi gosod amod yn gysylltiedig â'm barn ar 'reoleidd-dra' ar gyfer 2021-22.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

17 Mehefin 2022

